

Cofnod y Trafodion

The Record of Proceedings

23/09/2015

Cynnwys Contents

[1. Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth](#)
[1. Questions to the Minister for Economy, Science and Transport](#)

[2. Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol](#)
[2. Questions to the Counsel General](#)

[3. Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad](#)
[3. Questions to the Assembly Commission](#)

[4. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Y Stryd Fawr a Chanol Trefi](#)
[4. Welsh Conservatives Debate: The High Street and Town Centres](#)

[5. Dadl Plaid Cymru: Y Cyfryngau](#)
[5. Plaid Cymru Debate: The Media](#)

[6. Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru: Y Rhaglen Cefnogi Pobl](#)
[6. Welsh Liberal Democrats Debate: The Supporting People Programme](#)

[7. Cyfnod Pleidleisio](#)
[7. Voting Time](#)

[8. Dadl Fer: Gwneud yn lawn am Anghyfiawnder Hanesyddol—Achos Linda Lewis](#)
[8. Short Debate: Righting an Historical Wrong—the Case of Linda Lewis](#)

Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.

The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.

13:30	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.	The Presiding Officer Bywgraffiad Biography Prynhawn da. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn awr yn eistedd.	Senedd.tv Fideo Video
13:30	1. Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth The first item this afternoon is questions to Minister for Economy, Science and Transport, and question 1 is from David Rees.	1. Questions to the Minister for Economy, Science and Transport Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography Yr eitem gyntaf y prynhawn yma yw'r cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, a daw cwestiwn 1 gan David Rees.	Y Senedd.tv Fideo Video
	Cyffordd 41 yr M4	Junction 41 of the M4	
13:30	David Rees Bywgraffiad Biography <i>1. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol cyffordd 41 yr M4 ym Mhort Talbot? OAQ(4)0616(EST)</i>	<i>1. Will the Minister make a statement on the future of Junction 41 of the M4 at Port Talbot? OAQ(4)0616(EST)</i>	Senedd.tv Fideo Video
13:30	Edwina Hart Bywgraffiad Biography <i>Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport</i> We'll be carrying out further analysis before deciding on the best way forward.	<i>Byddwn yn cynnal dadansoddiad pellach cyn penderfynu ar y ffordd orau ymlaen.</i>	Senedd.tv Fideo Video

- 13:30 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you for that answer, Minister. The town centre has visibly been busier, particularly after 3 o'clock, and the local roads have been far less congested for local people, following your decision to actually remove the part-time closure of the westbound slip road earlier this year. Businesses are now preparing for the Christmas trade, and the future of the junction is critical to many in their preparations. They need certainty as soon as possible on the future of that junction because it affects the businesses in the town. When will you be in a position to actually provide that certainty?
- 13:31 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I've been discussing with officials what further information we require, because I think it's appropriate, after the level of interest on this, that we can have a balanced discussion about the pros and the cons, and I'd be delighted to update Members during the next few weeks.
- 13:31 **Altat Hussain** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- My question is regarding the same. Minister, your report on the trial closure listed miniscule improvements to a journey time and completely failed to report on the knock-on effect the closure was having on local roads. As the closure created utter chaos on local roads, but only shaved seconds off motorway journeys, will you now listen to the concerns of my constituents and rule out any future closure of junction 41?
- 13:31 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I will look at the evidence as it's presented to me and make the appropriate decisions as and when. I'm well aware of the issues that have been raised by local Members.
- 13:31 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, on 15 June, I received a letter from you, stating that Neath Port Talbot County Borough Council views the potential closure of all slip roads of junction 40 and junction 41 of the M4 as a justification for compulsory purchases of land in the peripheral distributor road at the public inquiry in 2009, and subsequently to support its case for £102 million funding of the 2010 Harbour Way scheme. Can you confirm that this is so, as your Labour colleagues in the council will not disclose any details of this meeting, including the list of those elected to the cabinet board at the time? The local authority has also stated that it did not agree with any plans to close the junction, at the first public meeting in St Mary's Church. Who is telling the truth here?
- 13:32 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, you've had a letter from me, outlining what I consider the position to be, in response to your letter. Those other matters you will have to continue to raise with the local authority.
- Dolch i chi am eich ateb, Weinidog. Mae canol y dref yn amlwg wedi bod yn fwy prysur, yn enwedig ar ôl 3 o'r gloch, ac mae llawer llai o dagfeydd wedi bod ar y ffordd lleol i bobl leol, yn dilyn eich penderfyniad yn gynharach eleni i roi'r gorau i gau'r ffordd ymuno ac ymadael i'r gorllewin am ran o'r amser. Mae busnesau yn awr yn paratoi ar gyfer y fasnach Nadolig, ac mae dyfodol y gyffordd yn hanfodol i lawer fel rhan o'u paratoadau. Mae arnynt angen sicrwydd cyn gynted ag y bo modd ynglŷn â dyfodol y gyffordd honno gan ei fod yn effeithio ar y busnesau yn y dref. Pryd y byddwch chi mewn sefyllfa i roi'r sicrwydd hwnnw?
- Rwyf wedi bod yn trafod gyda swyddogion pa wybodaeth bellach sydd ei hangen arnom, gan fy mod yn credu ei bod yn briodol, o ystyried lefel y diddordeb yn hyn, ein bod yn gallu cael trafodaeth gytbwys ynglŷn â'r manteision a'r anfanteision, a byddwn wrth fy modd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau yn ystod yr wythnosau nesaf.
- Mae fy nghwestiwn yn ymwneud â'r un peth. Weinidog, roedd eich adroddiad ar dreialu cau'r gyffordd yn rhestru gwelliannau bach iawn i amser teithio a methodd yn llwyr ag adrodd ar yr effaith ganlyniadol y byddai cau yn ei chael ar ffordd lleol. Gan fod cau'r gyffordd wedi creu anhrefn llwyr ar ffordd lleol, heb arbed ond eiliadau'n unig oddi ar deithiau ar y draffordd, a wneuch chi yn awr wrando ar bryderon fy etholwyr a diystyru unrhyw bosibilrwydd o gau cyffordd 41 yn y dyfodol?
- Byddaf yn edrych ar y dystiolaeth fel y bydd yn cael ei gyflwyno i mi ac yn gwneud y penderfyniadau priodol fel y bo'r angen. Rwy'n ymwybodol iawn o'r materion a grybwyllwyd gan Aelodau lleol.
- Weinidog, ar 15 Mehefin, cefais lythyr oddi wrthyf, a oedd yn nodi bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn ystyried bod y posibilrwydd o gau pob ffordd ymuno ac ymadael ar gyffordd 40 a chyffordd 41 yr M4 yn cyfiawnhau prynu tir yn orfodol yn y ffordd ddosbarthu berifferol ar adeg yr ymchwiliad cyhoeddus yn 2009, ac yn dilyn hynny i gefnogi ei achos dros roi cyllid o £102 miliwn i gynllun Ffordd yr Harbwr yn 2010. A allwch chi gadarnhau bod hyn yn wir, gan na fydd eich cydweithwyr Llafur ar y cyngor yn datgelu unrhyw fanylion am y cyfarfod hwn, gan gynnwys y rhestr o'r rhai a etholwyd yn aelodau o fwrdd y cabinet ar y pryd? Mae'r awdurdod lleol hefyd wedi datgan nad oedd yn cytuno ag unrhyw gynlluniau i gau'r gyffordd yn y cyfarfod cyhoeddus cyntaf yn Eglwys y Santes Fair. Pwy sy'n dweud y gwir?
- Wel, rydych wedi cael llythyr oddi wrthyf, yn amlinellu'r hyn rwy'n ei ystyried yw'r sefyllfa, mewn ymateb i'ch llythyr chi. Bydd yn rhaid i chi barhau i ddwyn y materion eraill hynny i sylw'r awdurdod lleol.

Damweiniau ar y Ffyrdd

Road Casualties

- 13:32 **Gwyn R. Price** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
2. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddamweiniau ar y ffyrdd yng Nghymru? OAQ(4)0604(EST)
- 13:32 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Our road safety framework for Wales sets out the measures we are taking to improve road safety and reduce the number of people killed and seriously injured on Welsh roads.
- 13:33 **Gwyn R. Price** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Thank you for that answer. Minister, I read in the news the number of people killed and hurt on the Welsh roads is at its lowest since records began. But, I am concerned at an increase in the number of child pedestrian casualties. Children aged from nought to 15 account for over a third of pedestrian casualties, with accidents peaking at 8 a.m. and 3 p.m. on weekdays, as children travel back and forth to school. What action has the Welsh Government taken to improve road safety on walking and cycling routes to schools in Wales?
- 13:33 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Can I say, we've obviously announced another programme—a three-year programme—to improve the safety of more than 40 schools on the trunk roads, mostly through the use of part-time 20 mph speed limits, because the part-time speed limits at a school will be in operation at a time when the pupils are travelling to and from school? Also, we are doing more work that will enable more children and young people to cycle and walk to school, and I'm committed to improving safety on the trunk road network for those in the communities who live nearby. I think it's all our responsibility, in central and local government, to look at the needs and the requirements of the child, not necessarily the views of engineers, when we're looking at these issues.
- 13:34 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Minister, motorcycle user casualties are a significant component of all road casualties in Wales. The number of motorcyclists killed or seriously injured on Welsh roads has increased from 213 in 2012 to 282 in 2014. What action is the Minister taking to reduce the number of motorcyclists killed or seriously injured on our roads in Wales, please?
2. Will the Minister make a statement on road casualties in Wales? OAQ(4)0604(EST)
- Mae ein fframwaith diogelwch ar y ffyrdd ar gyfer Cymru yn nodi'r mesurau yr ydym yn eu cymryd i wella diogelwch ar y ffyrdd a lleihau nifer y bobl a laddwyd neu a anafwyd yn ddifrifol ar ffyrdd Cymru.
- Diolch i chi am eich ateb. Weinidog, darllenais yn y newyddion fod nifer y bobl a laddwyd ac a anafwyd ar ffyrdd Cymru yn is nag y bu ers dechrau cadw cofnodion. Ond rwy'n poeni am y cynnydd yn nifer y cerddwyr ifanc a anafwyd. Plant rhwng 0 a 15 oed yw dros draean o'r cerddwyr a anafwyd, gyda nifer y damweiniau'n cyrraedd uchafbwynt am 8 a.m. a 3 p.m. ar ddyddiau'r wythnos, wrth i blant deithio i'r ysgol ac o'r ysgol. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i wella diogelwch ar y ffyrdd ar lwybrau cerdded a beicio i ysgolion yng Nghymru?
- A gaf fi ddweud, rydym wedi cyhoeddi rhaglen arall, yn amlwg—rhaglen dair blynedd—i wella diogelwch mwy na 40 o ysgolion ar y cefnffyrdd, yn bennaf drwy ddefnyddio terfyn cyflymder rhan-amser o 20 milltir yr awr, gan y bydd terfyn cyflymder rhan-amser wrth ysgol yn gweithredu ar adeg pan fydd y disgyblion yn teithio i'r ysgol ac o'r ysgol? Hefyd, rydym yn gwneud mwy o waith a fydd yn galluogi mwy o blant a phobl ifanc i feicio a cherdded i'r ysgol, ac rwy'n ymrwymedig i wella diogelwch ar y rhwydwaith cefnffyrdd i'r rhai yn y cymunedau sy'n byw gerllaw. Rwy'n credu mai ein cyfrifoldeb ni, yn y llywodraeth ganolog ac mewn llywodraeth leol, yw edrych ar anghenion a gofynion y plentyn, nid o reidrydd safbwyntiau peirianwyr, pan fyddwn yn edrych ar y materion hyn.
- Weinidog, mae nifer y defnyddwyr beiciau modur a anafir yn gyfran sylweddol o'r holl rai a anafir ar y ffyrdd yng Nghymru. Mae nifer y beicwyr modur a laddwyd neu a anafwyd yn ddifrifol ar ffyrdd Cymru wedi cynyddu o 213 yn 2012 i 282 yn 2014. Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i leihau nifer y beicwyr modur a leddir neu a anafir yn ddifrifol ar ein ffyrdd yng Nghymru, os gwelwch yn dda?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:34 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Yes, I'm well aware of this issue—it's been raised by a number of Assembly Members in the Chamber, particularly in relation to mid Wales, where there have been concerns particularly about motorcyclists. We continue, obviously, to monitor what's going on. We've also done work, of course, with the police, because we regard high-risk road users as motorcyclists, and we're doing work in terms of training. We're also looking at the spots within the network where more accidents occur and whether any further improvements can be made. But, I think, across party, we are concerned about the safety on roads, and we must do our utmost, but we also have to recognise that there is an individual responsibility in this and there's only so much you can do in terms of training and road design.

le, rwy'n ymwybodol iawn o'r mater hwn—mae wedi cael ei grybwyll gan nifer o Aelodau'r Cynulliad yn y Siambr, yn enwedig mewn perthynas â'r canolbarth, lle y cafwyd pryderon ynglŷn â beicwyr modur yn arbennig. Rydym yn parhau, yn amlwg, i fonitro'r hyn sy'n digwydd. Rydym hefyd wedi gwneud gwaith gyda'r heddlu, wrth gwrs, gan ein bod yn ystyried bod beicwyr modur yn ddefnyddwyr ffyrdd risg uchel, ac rydym yn gwneud gwaith o ran hyfforddiant. Rydym hefyd yn edrych ar y manau ar y rhwydwaith lle y mae mwy o ddamweiniau'n digwydd ac yn ystyried a ellir gwneud unrhyw welliannau pellach. Ond rwy'n credu, ar draws y pleidiau, rydym yn pryderu am ddiogelwch ar y ffyrdd, ac mae'n rhaid i ni wneud ein gorau glas, ond mae'n rhaid i ni hefyd gydnabod bod yna gyfrifoldeb personol yn hyn o beth, a hyn a hyn yn unig y gallwch ei wneud o ran hyfforddi a chynllun ffyrdd.

13:35 **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, men, particularly young men, are twice as likely to be killed or injured in road accidents as women. What do you propose to do about the particular problem of men in road accidents, and would you support pre-emptive intervention measures in schools and colleges promoting safe driving at the time of, or even before many young men are learning to drive?

Weinidog, mae dynion, yn enwedig dynion ifanc, ddwywaith yn fwy tebygol o gael eu lladd neu eu hanafu mewn damweiniau ar y ffyrdd na menywod. Beth ydych chi'n bwriadu ei wneud am y broblem benodol hon sy'n ymwneud â dynion mewn damweiniau ar y ffyrdd, ac a fydddech yn cefnogi mesurau ymyrraeth ragataliol mewn ysgolion a cholegau i hyrwyddo gyrru'n ddiogel ar yr adeg pan fydd llawer o ddynion ifanc yn dysgu gyrru, neu cyn hynny hyd yn oed?

13:35 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I think it's important that we do recognise education as being a valuable tool. I'm due to meet the chief constables again to discuss some of these road safety issues next week, and I'll certainly raise the point that you raised with me about whether we can have more involvement in the system. There obviously is education in schools, but you make a very valid point.

Rwy'n credu ei bod yn bwysig inni gydnabod bod addysg yn offeryn gwerthfawr. Rwy'n cyfarfod â'r prif gwnstablaid eto i drafod rhai o'r materion diogelwch ar y ffyrdd yr wythnos nesaf, a byddaf yn sicr yn crybwyll y pwynt a wnaethoch ynglŷn â'r posibilrwydd y gallwn gael mwy o ran yn y system. Mae'n amlwg bod yna addysg o'r fath mewn ysgolion, ond rydych yn gwneud pwynt dilys iawn.

Cwestiynau Heb Rybudd gan Lefarwyr y Pleidiau

Questions Without Notice from Party Spokespeople

13:36 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

We now move to questions from the party spokespeople and, first this afternoon, we have the Welsh Liberal Democrat spokesperson, Eluned Parrott.

Symudwn yn awr at gwestiynau gan lefarwyr y pleidiau ac yn gyntaf y prynhawn yma, mae llefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Eluned Parrott.

13:36 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch, Lywydd. Minister, when you cut the rate paid to bus companies for older persons concessionary pass holders for 2014-15, you told this Assembly that those companies would be able to absorb that reduction from their profits. Can you tell me what the impact of that cut has been in terms of the number of services operating in Wales and the number of passengers they are carrying?

Diolch, Lywydd. Weinidog, pan aethoch ati i dorri'r gyfradd a delir i gwmnïau bysiau dros ddeiliaid tocynnau teithio pobl hŷn ar gyfer 2014-15, fe ddywedoch wrth y Cynulliad hwn y byddai'r cwmnïau hynny'n gallu amsugno'r gostyngiad hwnnw o'u helw. A allwch ddweud wrthyf pa effaith y mae'r toriad hwnnw wedi ei gael o ran nifer y gwasanaethau sy'n gweithredu yng Nghymru a nifer y teithwyr y maent yn eu cludo?

13:36

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As I advised you, we are quite content with the arrangements we made with the bus companies. We've got an excellent system in terms of older persons concession, and, with your assistance, we've also introduced the youth concessionary fares. With regard to the detail, local authorities are obviously involved, in terms of the money that they have to support routes et cetera, so it's a very complicated financial picture.

Fel y dywedais wrthyhych, rydym yn eithaf bodlon ar y trefniadau a wnaethom gyda'r cwmnïau bysiau. Mae gennym system ragorol ar gyfer rhoi concesiwn i bobl hŷn, a chyda'ch cymorth, rydym hefyd wedi cyflwyno tocynnau teithio rhatach ar gyfer pobl ifanc. O ran y manylion, mae awdurdodau lleol yn amlwg yn rhan o hyn, o ran yr arian sydd ganddynt i gynnal llwybrau ac yn y blaen, felly mae'n ddarlun ariannol cymhleth iawn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:37

Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister. Stats from the Department for Transport show that between 2013-14 and 2014-15 there was a 3.3 per cent drop in users. Around 800 services have been lost and that's 15 times the loss rate in England. Obviously, smaller commercial companies have found that cut very hard to manage, particularly in rural areas, but at least they can subsidise the loss of concessionary fare income with fare-paying passengers; community transport operators often can't. Over the summer, I visited Accessible Caring Transport in Mountain Ash and went out on a section 22 service, helping older people go shopping. It's a fare-paying service, but as all of the passengers are concessionary pass holders, that community transport operator obviously can't subsidise those passes with other passengers' fares and, therefore, those services around the country are now operating at a loss. Would the Minister investigate options for future settlements, such as setting a differential rate for charitable community transport operators, so that these vital lifelines can be protected for the future?

Diolch yn fawr, Weinidog. Mae ystadegau o'r Adran Drafnidiaeth yn dangos bod gostyngiad o 3.3 y cant wedi bod yn nifer y defnyddwyr rhwng 2013-14 a 2014-15. Mae tua 800 o wasanaethau wedi'u colli ac mae hynny 15 gwaith y gyfradd a gollwyd yn Lloegr. Yn amlwg, mae cwmnïau masnachol llai o faint yn teimlo bod y toriad hwnnw'n anodd iawn i ymdopi ag ef, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, ond o leiaf gallant adfer incwm a gollir ar docynnau rhatach drwy deithwyr sy'n talu; yn aml ni all gweithredwyr trafnidiaeth gymunedol wneud hynny. Dros yr haf, ymwelais â gwasanaethau Accessible Caring Transport yn Aberpennar a mynd ar wasanaeth adran 22, sy'n helpu pobl hŷn i fynd i siopa. Mae'n wasanaeth sy'n rhaid talu amdano, ond gan fod pob un o'r teithwyr yn ddeiliaid cerdyn teithio rhatach, yn amlwg nid oes modd i'r gweithredwr trafnidiaeth gymunedol hwnnw adfer gwerth y tocynnau hyn drwy arian teithwyr eraill ac felly, mae'r gwasanaethau hynny ledled y wlad yn awr yn gweithredu ar golled. A wnaiff y Gweinidog edrych ar opsiynau ar gyfer setliadau yn y dyfodol, megis gosod cyfradd wahaniaethol ar gyfer gweithredwyr trafnidiaeth gymunedol elusenol, er mwyn gallu diogelu'r dolenni cyswllt hanfodol hyn ar gyfer y dyfodol?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:38

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

With an understanding that we live in very restricted times on budget, I will be prepared to look at that issue.

Gan ddeall ein bod yn byw mewn cyfnod cyfyngedig iawn o ran y gyllideb, byddaf yn barod i edrych ar y mater hwnnw.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:38

Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Minister for that. Obviously, your national transport finance plan sets out a five-year programme to look at other funding methods, but the crisis really is pressing now, and I, too, am keen to look for ways in which we can help to protect the sector's future without making impossible promises from a budget that we don't have. Another way to help the sector to survive might be to help them with winning procurement contracts and make sure that the prequalification criteria set by local authorities isn't set against them. Now, one potential type of contract within your purview that they might be able to run is rail replacement services—something that's a real opportunity with the electrification of the Valleys lines and the Great Western main line. However, community transport operators couldn't currently apply for that kind of work from Arriva Trains Wales or First Great Western because they can't work for a commercial organisation. I wonder if you would investigate the possibility of the Welsh Government commissioning directly the rail replacement services for the Valleys lines electrification, and not through the franchise holder, and not through the national transport company for Wales either, to ensure that community transport isn't barred from this kind of contract in the future.

Diolch i'r Gweinidog am hynny. Yn amlwg, mae eich cynllun cyllid trafnidiaeth cenedlaethol yn pennu rhaglen bum mlynedd i edrych ar ddulliau eraill o ariannu, ond mae'r argyfwng yn gwasgu mewn gwirionedd yn awr, ac rwyf i hefyd yn awyddus i edrych am ffyrdd y gallwn helpu i ddiogelu dyfodol y sector heb wneud addewidion amhosibl o gyllideb nad yw gennym. Mae'n bosibl mai ffordd arall o helpu'r sector i oroesi fyddai eu helpu i ennill contractau caffael a gwneud yn siŵr nad yw'r meini prawf cyn-gymhwysu a bennwyd gan awdurdodau lleol wedi'u gosod yn eu herbyn. Nawr, un math posibl o gontract o fewn eich cyrraedd y gallent ei weithredu, o bosibl, yw gwasanaethau bysiau yn lle trenau—rhywbeth sy'n gyfle go iawn gyda thrydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd a phrif reilffordd y Great Western. Fodd bynnag, ni allai gweithredwyr trafndiaeth gymunedol ymgeisio am y math hwnnw o waith ar hyn o bryd gyda Trenau Arriva Cymru neu First Great Western am nad ydynt yn cael gweithio i sefydliad masnachol. Tybed a wnech chi ymchwilio i'r posibilrwydd y gall Llywodraeth Cymru gomisiynu'r gwasanaethau bysiau yn lle trenau ar gyfer trydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd yn uniongyrchol, ac nid drwy ddeiliad y fasnachfaint, na thrwy'r cwmni trafndiaeth cenedlaethol ar gyfer Cymru chwaith, er mwyn sicrhau nad yw trafndiaeth gymunedol wedi'i gwahardd o'r math hwn o gontract yn y dyfodol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:39

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, I've got a very open mind on these matters and will be happy to look at them, and I will report back to Members on both points that you raised with me within the next two weeks.

Oes, mae gennyf feddwl agored iawn ar y materion hyn a byddaf yn hapus i edrych arnynt, a byddaf yn adrodd yn ôl i'r Aelodau ar y ddau bwynt a grybwyllwyd gennych o fewn y pythefnos nesaf.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:39

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to the Welsh Conservative spokesperson, Suzy Davies.

Symudwn yn awr at lefarydd y Ceidwadwyr Cymreig, Suzy Davies.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:39

Suzy Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Lywydd. Deputy Minister, the Rugby World Cup is a great opportunity to market Wales to the thousands of visitors coming to the UK to enjoy the tournament, and I'm sure that Visit Wales will have done some work to increase the stay and spend of visitors coming to the Millennium Stadium. What work have you been doing though to target visitors who might be coming to places like Gloucester, Exeter, and particularly Manchester, to extend their stay and spend just over the border in Wales?

Diolch, Lywydd. Ddirprwy Weinidog, mae Cwpan Rygbi'r Byd yn gyfle gwych i farchnata Cymru i'r miloedd o ymwelwyr sy'n dod i'r DU i fwynhau'r bencampwriaeth, ac rwy'n siŵr y bydd Croeso Cymru wedi gwneud gwaith ar gynyddu arhosiad a gwariant ymwelwyr sy'n dod i Stadiwm y Mileniwm. Pa waith rydych chi wedi bod yn ei wneud er mwyn targedu ymwelwyr a allai fod yn dod i lefydd fel Caerloyw, Caerwysg, a Manceinion yn arbennig, i ymestyn eu harhosiad a gwario ychydig dros y ffin yng Nghymru?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:40

Kenneth Skates [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth / The Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism

Of course, the Rugby World Cup builds on many other major events that the Welsh Government has been able to capture for the country in recent years, including the Ryder Cup and the Ashes and so forth. That aligns very much with our current campaign to portray Wales as a place for adventure. That's a campaign that is being broadcast and tweeted and being provided on social media right across the world, and not just in Manchester and the other areas of Britain that the Member identifies. But, clearly, it's of particular appeal to those people due to their close proximity to Wales.

Wrth gwrs, mae Cwpan Rygbi'r Byd yn adeiladu ar lawer o ddigwyddiadau mawr eraill y mae Llywodraeth Cymru wedi gallu eu denu i'r wlad dros y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys Cwpan Ryder a'r Lludw ac yn y blaen. Mae hynny'n cyd-fynd i raddau helaeth â'n hymgyrch bresennol i bortreadu Cymru fel lle i gael antur. Mae honno'n ymgyrch sy'n cael ei darlledu a'i thrydar, a'i darparu ar gyfryngau cymdeithasol ar draws y byd, ac nid yn unig ym Manceinion a'r ardaloedd eraill o Brydain a nododd yr Aelod. Ond yn amlwg, mae'n apelio'n benodol at y bobl hynny oherwydd eu hagosrwydd at Gymru.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:40

Suzy Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you for that answer. I'm glad that there is some concentration on the areas that are close to the border with Wales. But, of course, sport isn't everything that we have to offer here. The economic impact of the arts in the UK as a whole is much greater than generally understood, outstripping sport in fact. The memorandum of understanding on cultural matters, which you recently signed on behalf of Wales with the Chinese vice-premier is intended to,

Diolch i chi am eich ateb. Rwy'n falch fod rhywfaint o ganolbwyntio ar yr ardaloedd sy'n agos at y ffin â Chymru. Ond wrth gwrs, nid chwaraeon yw popeth sydd gennym i'w gynnig yma. Mae effaith economaidd y celfyddydau yn y DU yn llawer mwy na'r hyn a ddëllir yn gyffredinol, yn fwy na chwaraeon a dweud y gwir. Mae'r memorandwm cyd-ddealltwriaeth ar faterion diwylliannol a lofnodwyd gennyh yn ddiweddar ar ran Cymru gydag Is-arlywydd Llywodraeth Tsieina, yn bwriadu,

'help to create new markets and encourage cultural organisations and creative companies in both nations to collaborate on new projects...for example, film and animation.'

'helpu i greu marchnadoedd newydd ac annog sefydliadau diwylliannol a chwmnïau creadigol yn y ddwy wlad i gydweithio ar brosiectau newydd...ym maes ffilm ac animeiddio er enghraifft.'

Now, I welcome this, but can you tell me whether you have any particular expectations of this entente—a specific indicator of what you will require of it before committing taxpayers' money to supporting any projects that might arise from it?

Nawr, rwy'n croesawu hyn, ond a allwch ddweud wrthyf a oes gennyh unrhyw ddisgwyliadau penodol o'r ddealltwriaeth hon—dangosydd penodol o'r hyn y byddwch ei angen ohoni cyn ymrwymo arian trethdalwyr i gefnogi unrhyw brosiectau a allai godi ohoni?

13:41

Kenneth Skates [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Clearly, the memorandum of understanding doesn't just concern taxpayers' money; it concerns all of the organisations that are within the culture sector. The Member is right to identify the creative industries. It's one of the most successful priority sectors in Wales. It's growing faster in Wales than anywhere else in the country bar the UK, and it has great potential to grow further.

Yn amlwg, nid yw'r memorandwm cyd-ddealltwriaeth yn ymwneud ag arian trethdalwyr yn unig; mae'n ymwneud â phob sefydliad yn y sector diwylliant. Mae'r Aelod yn iawn i gydnabod y diwydiannau creadigol. Mae'n un o'r sectorau â blaenoriaeth mwyaf llwyddiannus yng Nghymru. Mae'n tyfu'n gyflymach yng Nghymru nag yn unman arall yn y wlad ar wahân i'r DU, ac mae ganddo botensial mawr i dyfu mwy.

The Member is also right to identify the economic value as well, as I believe there is great value, in terms of health and wellbeing, to the arts. It is for that reason that I think it's wrong that there is Conservative contempt for culture across the border, where there's been a budget reduction three times deeper for the arts than here in Wales.

Mae'r Aelod hefyd yn iawn i nodi'r gwerth economaidd, gan fy mod yn credu bod gwerth mawr, o ran iechyd a lles, i'r celfyddydau. Am y rheswm hwnnw, rwy'n credu bod dirmyg y Ceidwadwyr ar draws y ffin tuag at ddiwylliant yn anghywir. Yno, cafwyd toriad dair gwaith yn ddyfnach i gyllideb y celfyddydau nag a gafwyd yma yng Nghymru.

13:42

Suzy Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I am sorry, Deputy Minister, that you felt that you had to descend to that because I was asking you a question where we could have spoken quite positively about what the arts can offer Wales. I was slightly disappointed that you weren't able to say what key performance indicators you might be attaching to any projects that the Welsh Government will be putting money into in the future on the back of the entente.

Ddirprwy Weinidog, mae'n ddrwg gennyf eich bod yn teimlo'r angen i suddo mor isel â hynny gan fy mod yn gofyn cwestiwn a fyddai wedi ein galluogi i siarad yn eithaf cadarnhaol am yr hyn y gallai'r celfyddydau eu cynnig i Gymru. Roeddwn ychydig yn siomedig na allech ddweud pa ddangosyddion perfformiad allweddol y gallech fod yn eu cysylltu ag unrhyw brosiectau y bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi arian tuag atynt yn y dyfodol yn sgil y ddealltwriaeth.

I would like to move now to a local issue, if that's okay, and that is the future of the Tondy ironworks in my region. This is the best preserved example of Victorian ironworks in the whole of western Europe. It's already benefited from considerable public investment, but is currently in the hands of the receivers and is up for sale. I was just wondering if you can tell us whether your officials have been approached by the receivers at all, by the local authority or indeed by any other interested parties to discuss the future of this very, very important site. What advice might you be able to offer any community body that could be interested in taking that up, as, obviously, I wouldn't want to see this national asset suffering from neglect in perhaps the way Neath abbey has recently?

Hoffwn symud yn awr at fater lleol, os yw hynny'n iawn, sef dyfodol gwaith haearn Tondy yn fy rhanbarth i. Dyma'r enghraifft o waith haearn Fictoraidd sydd wedi'i chadw orau yng ngorllewin Ewrop. Mae eisoes wedi elwa o fuddsoddiad cyhoeddus sylweddol, ond mae yn nwylo'r derbynwyr ar hyn o bryd ac ar werth. Roeddwn i'n meddwl tybed a allwch ddweud wrthym a yw eich swyddogion wedi bod mewn cysylltiad â'r derbynwyr o gwbl, neu'r awdurdod lleol, neu'n wir ag unrhyw un arall sydd â diddordeb mewn trafod dyfodol y safle hynod o bwysig hwn. Pa gyngor y gallwch ei gynnig i unrhyw gorff cymunedol a allai fod â diddordeb mewn gwneud hynny, gan na fyddwn am weld yr ased cenedlaethol hwn yn dioddef o esgeulustod yn yr un modd, efallai, ag abaty Nedd yn ddiweddar?

13:43 **Kenneth Skates** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, we have been approached regarding this very valuable asset, and I'd be very grateful if I could perhaps write to the Member with an update on what Welsh Government, in particular Cadw, have been able to advise. So far as the potential for a community ownership bid coming forward is concerned, of course, we have launched a toolkit for community asset transfer and we will continue to help in any way that we possibly can to retain and promote historic assets for the people of Wales.

Do, cysylltwyd â ni mewn perthynas â'r ased gwerthfawr iawn hwn, a byddwn yn ddiolchgar iawn pe cawn ysgrifennu at yr Aelod, o bosibl, gyda'r wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru, yn enwedig Cadw, wedi gallu ei gynghori. O ran y posibilrwydd y daw cais perchnogaeth gymunedol i law, wrth gwrs, rydym wedi lansio pecyn cymorth ar gyfer trosglwyddo asedau cymunedol a byddwn yn parhau i helpu mewn unrhyw ffordd y gallwn i gadw a hyrwyddo asedau hanesyddol ar gyfer pobl Cymru.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:43 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to Plaid Cymru spokesperson, Rhun ap Iorwerth.

Symudwn yn awr at lefarydd Plaid Cymru, Rhun ap Iorwerth.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:43 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Lywydd. A allaf i ofyn beth ydy barn y Gweinidog ynglŷn â'r lefel o gydweithio sydd wedi bod rhwng ei hadran hi ac adrannau eraill y Llywodraeth yn ystod y cyfnod yma o gyllid Ewropeaidd a chyfnodau yn y gorffennol er mwyn sicrhau bod y cyllid Ewropeaidd yna yn cael ei ddefnyddio i'w botensial llawn er mwyn tyfu'r economi Gymreig?

Thank you, Presiding Officer. May I ask what the Minister's view is on the level of collaboration between her own department and other Government departments during this period of European funding, and in the past, in order to ensure that those European funds are used to their maximum potential in order to develop the Welsh economy?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:44 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes. I have very constructive dialogue with the Minister responsible for European funds, Jane Hutt. My officials have very constructive dialogue on specific aspects of it, and I know that the chief scientific adviser, who is looking at some European projects regarding science, has also had excellent dialogue. So, I think in terms of that, currently, the dialogue is very good, but there will always be little gaps, which I am sure that you're going to allude to in your supplementary question.

Cewch. Rwyf wedi cael trafodaeth adeiladol iawn gyda'r Gweinidog sy'n gyfrifol am gyllid Ewropeaidd, Jane Hutt. Mae fy swyddogion yn cael trafodaethau adeiladol iawn ar agweddau penodol ohono, a gwn fod y prif gynghorydd gwyddonol, sy'n edrych ar rai prosiectau Ewropeaidd mewn perthynas â gwyddoniaeth, wedi cael trafodaeth ardderchog hefyd. Felly, o ran hynny, ar hyn o bryd, rwy'n credu bod y drafodaeth yn dda iawn, ond bydd yna fylchau bach bob amser, ac rwy'n siŵr eich bod yn mynd i gyfeirio at y rheini yn eich cwestiwn atodol.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:44 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae llysgenhadon, sydd wedi cael eu penodi gan y Llywodraeth ar y cwestiwn o gyllid Ewropeaidd, wedi adnabod diffyg cydweithio rhwng adrannau fel gwendid o ran gwneud yn fawr o'r cyfleoedd cyllid Ewropeaidd, ac maen nhw wedi argymhell i'r Llywodraeth—ac mae'r Llywodraeth wedi gweithredu ac rwy'n ddiolchgar am hynny—sefydlu pwyllgor rhyngadrannol newydd er mwyn gwthio'r agenda yn ei flaen. A ydy'r Gweinidog yn cytuno y gall y gwendidau yma o ran cydweithio fod wedi dal yn ôl ein potensial ni o ran twf economaidd o dan gyllid Ewropeaidd, a bod hyn yn rhywbeth y mae'n rhaid i ni ddysgu ohono fo ar gyfer y dyfodol?

The ambassadors appointed by Government to deal with the issue of European funding have identified a lack of collaboration between departments as a weakness in terms of making the most of the European financing opportunity, and they have recommended to Government—and the Government has taken action, and I'm grateful for that—the establishment of an interdepartmental committee in order to push this agenda forward. Does the Minister agree that these weaknesses in collaboration could have stymied our potential in terms of economic growth using European funds, and that this is something that we must learn lessons from for the future?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:45 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can I say, they might have identified across the board what they regard as gaps and lack of collaboration, but, on the ground, in terms of the projects we're looking at, and what my officials report to me, there has been good collaboration? So, I can only speak as I find. Obviously, if there are other measures that are being put in place to enhance it, I would welcome them, because we mustn't lose any opportunity of grabbing the cash that we can for worthwhile projects.

A gaf fi ddweud, efallai eu bod wedi nodi'n gyffredinol yr hyn y maent yn eu hystyried yn fylchau a diffyg cydweithio, ond ar lawr gwlad, o ran y prosiectau rydym yn edrych arnynt, a'r hyn y mae fy swyddogion yn ei ddweud wrthyf, cafwyd cydweithredu da? Felly, ni allaf ond nodi'r hyn a welais. Yn amlwg, os rhoddir mesurau eraill ar waith i wella hynny, byddwn yn eu croesawu, oherwydd rhaid i ni beidio â cholli unrhyw gyfle i fachu'r arian a allwn ar gyfer prosiectau gwerth chweil.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:45 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

One of the major schemes, of course, that we're looking to be funded through major European funding is the south-east metro, and funding for that project so far seems to amount to little more than Valleys lines electrification, and Valleys lines electrification should happen metro or no metro. Will the Minister agree that, without rapid progress on the EU funding—European Investment Bank funding—through the sort of co-operation that the ambassadors want to see—. Unless we get that kind of movement rapidly, we will not see the kind of transformational change within, say, a decade, rather than the 20 to 30-year timescale that your colleague the finance Minister was mentioning in committee this morning?

Un o'r prif gynlluniau rydym yn gobeithio ei weld yn cael ei ariannu drwy gyllid Ewropeaidd o bwys, wrth gwrs, yw metro'r de-ddwyrain, ac nid yw'r cyllid ar gyfer y prosiect hyd yma i'w weld yn ddim mwy na chyllid ar gyfer trydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd, a dylai trydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd ddigwydd pa un a fydd yna fetro ai peidio. A wnaiff y Gweinidog gytuno, heb gynnydd cyflym o ran cyllid yr UE—cyllid Banc Buddsoddi Ewrop—drwy'r math o gydweithio y mae'r llysgenhadon am ei weld—? Oni bai ein bod yn cael symud cyflym o'r fath, ni fyddwn yn gweld y math hwnnw o newid trawsnewidiol o fewn, dyweder, degawd, yn hytrach na'r amserlen o 20 i 30 mlynedd yr oedd eich cyd-Aelod, y Gweinidog cyllid, yn ei grybwyll yn y pwyllgor y bore yma.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:46 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I and the finance Minister have actually been discussing the whole issue of European funding with regard to the metro project and the whole delivery of the project within the region this morning. We are very keen to get the timescales in. We're pretty certain that we've got the timescales in order to get the funding in, and there's further work being done. I will be making further announcements—or the First Minister will be—on the development of the metro project in the next few weeks.

Bûm i a'r Gweinidog Cyllid yn trafod holl fater cyllid Ewropeaidd mewn perthynas â phrosiect y metro y bore yma, a'r holl broses o gyflwyno'r prosiect yn y rhanbarth. Rydym yn awyddus iawn i gael yr amserlenni mewn llaw. Rydym yn eithaf sicr ein bod wedi cael yr amserlenni ar gyfer cael yr arian i mewn, ac mae gwaith pellach yn cael ei wneud. Byddaf yn gwneud cyhoeddiadau pellach—neu bydd y Prif Weinidog yn gwneud hynny—ar ddatblygiad prosiect y metro yn ystod yr wythnosau nesaf.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:46 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move back to questions on the paper, and question 3 is Keith Davies.

Symudwn yn ôl at y cwestiynau ar y papur yn awr, a daw cwestiwn 3 gan Keith Davies.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Byrddau Dinas-ranbarthau

City Region Boards

13:46	<p>Keith Davies Bywgraffiad Biography</p> <p>3. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y byrddau dinas-ranbarthau? OAQ(4)0617(EST)</p>	<p>3. Will the Minister provide an update on city region boards? OAQ(4)0617(EST)</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:47	<p>Edwina Hart Bywgraffiad Biography</p> <p>Yes. Both the Cardiff city region and the Swansea bay city region boards are continuing to work on opportunities for regional alignment and collaboration.</p>	<p>Gwnaf. Mae'r ddau fwrdd, dinas-ranbarth Caerdydd a dinas-ranbarth Bae Abertawe, yn parhau i weithio ar gyfleoedd i alinio a chydweithio'n rhanbarthol.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:47	<p>Keith Davies Bywgraffiad Biography</p> <p>Weinidog, a ydy bwrdd dinas Abertawe, neu a ych chi, wedi paratoui cynlluniau i wella trafndiaeth yn ardal dinas-ranbarth Abertawe, fel sydd wedi digwydd yn barod yn ninas-ranbarth Caerdydd?</p>	<p>Thank you, Minister. Minister, has the Swansea bay city region board, or have you, prepared schemes to improve transport in the Swansea bay city region, as has already happened in the Cardiff capital region?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:47	<p>Edwina Hart Bywgraffiad Biography</p> <p>We have, obviously, provided some funding, I think, to Network Rail and local authorities to deliver a range, I think, of improvements, to ensure that buses and trains are better integrated. Of course, we've had the excellent upgrade that's going on now within Port Talbot station. We've also had track improvements as well within the area. I think it's important that we recognise that the Swansea bay city region will be doing more in terms of how they're going to integrate what they want in terms of transport requirements and what they think are essential. But I have to say that they've been working exceptionally collaboratively together, and that's why they've also focused on delivery not just outside Swansea and Llanelli but also further west in terms of the A40.</p>	<p>Yn amlwg, rydym wedi darparu rhywfaint o gyllid, rwy'n meddwl, i Network Rail ac awdurdodau lleol i ddarparu ystod o welliannau, er mwyn sicrhau bod bysiau a threnau'n cael eu hintegreiddio'n well. Wrth gwrs, gwelom yr uwchraddio ardderchog sy'n digwydd yn awr yng ngorsaf Port Talbot. Rydym hefyd wedi cael gwelliannau i'r trac yn yr ardal. Rwy'n credu ei bod yn bwysig i ni gydnabod y bydd dinas-ranbarth bae Abertawe yn gwneud mwy o ran sut y maent am integreiddio'r hyn y maent ei eisiau o ran gofynion trafndiaeth a'r hyn y maent yn ei ystyried yn hanfodol. Ond rhaid i mi ddweud eu bod wedi cydweithio'n eithriadol gyda'i gilydd, a dyna pam eu bod hefyd wedi canolbwyntio ar gyflawni nid yn unig y tu allan i Abertawe a Llanelli, ond hefyd ymhellach i'r gorllewin o ran yr A40.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:48	<p>William Graham Bywgraffiad Biography</p> <p>Having had the privilege of meeting members of the city region boards, I was extremely impressed by their aspirations for the future for both particular regions. Minister, do you think that the time has come now perhaps when you might set specific targets for them?</p>	<p>Ar ôl cael y fraint o gyfarfod ag aelodau o fyrddau'r dinas-ranbarthau, roeddwn yn llawn edmygedd o'u dyheadau ar gyfer y dyfodol i'r ddau ranbarth. Weinidog, a ydych yn meddwl efallai fod yr amser wedi dod yn awr i chi osod targedau penodol ar eu cyfer o bosibl?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:48	<p>Edwina Hart Bywgraffiad Biography</p> <p>I haven't actually discussed targets with them at all because I think they're trying to evolve where their thinking is. It's been a lot of work getting people to work together, which has been the difficult aspect of this. But I think that we can look at some indicators for them in the future. That would be a discussion that I would be happy to take up with both chairs as they evolve.</p>	<p>Nid wyf wedi trafod targedau â hwy mewn gwirionedd am fy mod yn credu eu bod yn ceisio datblygu eu safbwynt ar hyn. Roedd cael pobl i weithio gyda'i gilydd yn waith caled, ac yn agwedd anodd ar hyn. Ond rwy'n credu y gallwn edrych ar rai dangosyddion ar eu cyfer yn y dyfodol. Byddai honno'n drafodaeth y byddwn yn fodlon ei chael gyda'r ddau gadeirydd wrth iddynt ddatblygu.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
	<p>Prosiect Ffordd Gyswllt Dwyrain Bae Caerdydd</p>	<p>Cardiff Eastern Bay Link Road Project</p>	
13:48	<p>Jenny Rathbone Bywgraffiad Biography</p> <p>4. Pa gynnydd sydd wedi'i wneud mewn perthynas â phrosiect ffordd gyswllt dwyrain bae Caerdydd? OAQ(4)0609(EST)</p>	<p>4. What progress has been made on the Cardiff eastern bay link road project? OAQ(4)0609(EST)</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

- 13:48 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Advance works to clear the site started last month. The main works are scheduled to start this November and finish in February 2017.
- Dechreuodd gwaith ymlaen llaw ar glirio'r safle y mis diwethaf. Trefnwyd i'r prif waith ddechrau ym mis Tachwedd ac i ddod i ben ym mis Chwefror 2017.
- 13:49 **Jenny Rathbone** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- This is very welcome news, Minister, because the bit of Newport Road that is currently taking all this unplanned traffic—the bit of Newport Road near the Cardiff Royal Infirmary—has been consistently above the recommended levels for air quality since 2007. So, have you any idea exactly when the project will be completed so that this traffic can be diverted back onto the link road?
- Mae hyn yn newyddion da iawn, Weinidog, oherwydd mae'r rhan o Heol Casnewydd sy'n cymryd yr holl draffig heb ei gynllunio hwn—y rhan o Heol Casnewydd ger Ysbyty Brenhinol Caerdydd—wedi bod yn uwch na'r lefelau a argymhellir ar gyfer ansawdd aer yn gyson ers 2007. Felly, a oes gennych unrhyw syniad pa bryd yn union y bydd y prosiect wedi'i gwblhau i allu cyfeirio'r traffig hwn yn ôl ar y ffordd gyswllt?
- 13:49 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, it's indicated to me it will be February 2017. Of course, the project will, I think, really help to reduce the congestion within that area, and the new eastern bay link will benefit private and commercial road users due to the shorter route and everything, so I think that it's good news, and we're trying to maximise local benefits by who we use. So, if there's any slippage on that, I will let Members know.
- Wel, maent yn dweud wrthyf mai ym mis Chwefror 2017 y bydd hynny'n digwydd. Wrth gwrs, rwy'n credu y bydd y prosiect o gymorth mawr i leihau'r tagfeydd yn yr ardal, a bydd ffordd gyswllt newydd dwyrain y bae o fudd i ddefnyddwyr ffyrdd preifat a masnachol oherwydd y llwybr byrrach a phopeth, felly rwy'n meddwl ei fod yn newyddion da, ac rydym yn ceisio sicrhau cymaint o fanteision lleol ag y bo modd drwy bwy a ddefnyddiwn. Felly, os oes unrhyw lithriant ar hynny, byddaf yn rhoi gwybod i'r Aelodau.
- 13:49 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*
- Minister, that's welcome news, that 2017 is an idea of the date that has been talked about. Given, obviously, other road schemes in South Wales Central—I'm thinking of Five Mile Lane in particular—where dates have slipped because of, obviously, discussions that have gone on with other interested parties, how confident can you be that the date that you've given today is an achievable date, given your understanding of the discussions you have had with interested parties on this particular project?
- Weinidog, mae hynny'n newyddion da, fod 2017 yn rhoi syniad o'r dyddiad y soniwyd amdano. Yn amlwg, o ystyried cynlluniau ffyrdd eraill yng Nghanol De Cymru—rwy'n meddwl am Five Mile Lane yn benodol—lle y gwelwyd methiant i gadw at yr amserlen, yn amlwg, oherwydd trafodaethau a gafwyd gyda grwpiau eraill a oedd â diddordeb, pa mor hyderus y gallwch chi fod y bydd y dyddiad a roesoch heddiw yn ddyddiad y gellir cadw ato, o ystyried eich dealltwriaeth o'r trafodaethau a gawsoch gyda grwpiau sydd â diddordeb ar y prosiect penodol hwn?
- 13:50 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I think I can be fairly confident in terms of the eastern bay link, and thank you for your interest again in Five Mile Lane. I'm pleased to say that the submission, the signing off, is actually on my desk upstairs now, and I will drop a note out to Members to update them on the Five Mile Lane progress. It will obviously have to come to discussions with either local authority, but I think we are in the endgame, and I will put some detail into it.
- Rwy'n credu y gallaf fod yn weddol hyderus o ran ffordd gyswllt dwyrain y bae, a diolch i chi am eich diddordeb eto yn Five Mile Lane. Rwy'n falch o ddweud bod y cais, y gymeradwyaeth, ar fy nesg i fyny'r grisiau yn awr mewn gwirionedd, a byddaf yn anfon nodyn at yr Aelodau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt ar gynnydd Five Mile Lane. Mae'n amlwg y bydd yn rhaid cynnal trafodaethau gyda'r naill awdurdod lleol neu'r llall, ond rwy'n meddwl ein bod ar y cam olaf, a byddaf yn cynnwys manylion.

13:50

Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, it was for very much the reasons outlined that I argued for the completion of this piece of road as part of our budget agreement with the Welsh Government. But, in addition to Newport road, many drivers are using the streets of Adamsdown and Splott as a rat-run to avoid that congestion and traffic. I think that this road presents an opportunity to turn those congested residential streets back over to people and make them more attractive for walking and cycling, and just for living. So, what discussions have you had with Cardiff Council to ensure that, in parallel with this new road being built, there is a plan to create a more pleasant environment for the people who live in these suburban areas?

Weinidog, dadleuais dros gwblhau'r rhan hon o ffordd fel rhan o gytundeb y gyllideb rhyngom a Llywodraeth Cymru. Ond yn ogystal â Heol Casnewydd, mae llawer o yrwyr yn defnyddio strydoedd Adamsdown a Sblot fel llwybr cefn ar gyfer osgoi'r tagfeydd a'r traffig hwnnw. Credaf fod y ffordd hon yn cynnig cyfle i ddychwelyd y strydoedd preswyl prysur hynny i'r bobl a'u gwneud yn fwy atyniadol ar gyfer cerdded a beicio, ac ar gyfer byw. Felly, pa drafodaethau a gawsoch gyda Chyngor Caerdydd i sicrhau bod cynllun yn ei le, ochr yn ochr â'r gwaith o adeiladu'r ffordd newydd hon, i greu amgylchedd mwy dymunol ar gyfer y bobl sy'n byw yn yr ardaloedd maestrefol hyn?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:51

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Obviously, this is principally a matter for discussion within the local authority, who are responsible for those particular aspects. But I very much hope that they will use the opportunity of having this bypass to look at what they can do to improve people's environment.

Yn amlwg, mae hwn yn fater i'w drafod, yn bennaf, o fewn yr awdurdod lleol, sy'n gyfrifol am yr agweddau penodol hyn. Ond rwy'n gobeithio'n fawr y byddant yn manteisio ar y cyfle i gael y ffordd osgoi hon er mwyn edrych ar yr hyn y gallant ei wneud i wella amgylchedd pobl.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Bysiau T a Ddarperir gan TrawsCymru

TrawsCymru T Bus Network

13:51

Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

5. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynnydd a wnaed yn y rhwydwaith bysiau T a ddarperir gan TrawsCymru? OAQ(4)0608(EST)

5. Will the Minister make a statement on progress in relation to the TrawsCymru T bus network? OAQ(4)0608(EST)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:51

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes. During the last 12 months, we have made significant improvements to the TrawsCymru long-distance bus network across Wales, and carried a record 1.5 million passengers. We launched the new T3 and T5 services in July and continue to make preparations to manage these services directly in the future.

Gwnaf. Yn ystod y 12 mis diwethaf, rydym wedi gwneud gwelliannau sylweddol i rwydwaith bysiau pellter hir TrawsCymru ledled Cymru, ac wedi cludo 1.5 miliwn o deithwyr, sy'n fwy nag erioed o'r blaen. Lanswyd y gwasanaethau T3 a T5 newydd gennym ym mis Gorffennaf ac rydym yn parhau i wneud paratoadau ar gyfer rheoli'r gwasanaethau hyn yn uniongyrchol yn y dyfodol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:51

Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Weinidog, rwyf weithiau yn cael fy meirniadu am eich canmol chi gymaint yn y Siambr, ond rwyf eisiau diolch ichi yn arbennig am y T3. Oherwydd mae'r bws hwn, yn enwedig y bws deulawr, yn darparu gwasanaeth newydd a deniadol i ymwelwyr a theithwyr ar draws Meirionnydd. A allwch chi ddweud wrthyf: pa bwerau ychwanegol yr ydych eu hangen mewn datganoli pellach i sicrhau y bydd Llywodraeth Cymru yn dal i fedru arloesi mewn trafniadaeth integredig bysiau a threnau?

Minister, I'm sometimes criticised for praising you so often in the Chamber, but I do want to give particular thanks to you for the T3 service. Because this bus, particularly the double-decker bus, does provide a new and attractive service to visitors and passengers across Meirionnydd. Can you tell me which additional powers you need in further devolution to ensure that the Welsh Government can continue to innovate in integrated transport—integrated between trains and buses particularly?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:52

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that, and I think it is an excellent service: Wrexham, Llangollen, Bala, Dolgellau, Barmouth. I was very interested, when I was holidaying in north Wales in the summer, to see the services that were being used and the number of, actually, passengers on them, which I think was absolutely excellent. We need bus regulation, and I think we need to press, and continue to press, for bus regulation, because it's essential if we are to have the proper integration that we require. If we are making future investments in rail—and I very much hope when we do Carmarthen to Aberystwyth; we will be looking at that rail line—. When we're looking at the feasibility of that, we'll have to ensure that it all stacks up in terms of what buses and everything link in. So, it's important that we can control everything in terms of buses.

Diolch i chi am hynny, ac rwy'n credu ei fod yn wasanaeth ardderchog: Wrecsam, Llangollen, y Bala, Dolgellau, Abermaw. Pan oeddwn ar wyliau yn y gogledd yn ystod yr haf, diddorol iawn i mi oedd gweld y gwasanaethau a gâi eu defnyddio a nifer y teithwyr arnynt, mewn gwirionedd, a chredaf fod hynny'n hollol wych. Mae angen rheoleiddio bysiau, ac rwy'n credu bod angen i ni bwysu, a pharhau i bwysu, am reoleiddio bysiau, am ei fod yn hanfodol os ydym am weld yr integreiddio priodol sydd ei angen arnom. Os ydym yn buddsoddi yn y rheilffyrdd yn y dyfodol—ac rwy'n gobeithio'n fawr pan fyddwn yn gwneud Caerfyrddin i Aberystwyth; byddwn yn edrych ar y rheilffordd honno—. Pan fyddwn yn edrych ar ddichonoldeb hynny, bydd yn rhaid i ni sicrhau ei fod i gyd yn dal dŵr o ran pa fysiau a phopeth sy'n cysylltu. Felly, mae'n bwysig ein bod yn gallu rheoli popeth o safbwynt bysiau.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:53

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm very pleased that Dafydd Elis-Thomas has asked this question, Minister. Two years ago, you commissioned a review of TrawsCymru from the Bevan Foundation. We haven't heard anything about it since, and I don't think it's been shared with the board—that's my understanding. What were the key findings of the review, and when will it be published?

Rwy'n falch iawn fod Dafydd Elis-Thomas wedi gofyn y cwestiwn hwn, Weinidog. Ddwy flynedd yn ôl, comisiynwyd adolygiad gennych gan Sefydliad Bevan o wasanaeth TrawsCymru. Nid ydym wedi clywed dim amdano ers hynny, ac nid wyf yn meddwl ei fod wedi cael ei rannu gyda'r bwrdd—yn ôl yr hyn a ddeallaf. Beth oedd canfyddiadau allweddol yr adolygiad, a pha bryd y caiff ei gyhoeddi?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:53

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

You've taken me quite aback, because I'm aware of the report, and I assumed everybody else would be aware of it. Can I make some enquiries on Members' behalf on that? Because there's nothing in that report, I don't think, that couldn't be made public in any shape or form.

Rydych chi wedi fy synnu, oherwydd rwy'n ymwybodol o'r adroddiad, ac roeddwn yn tybio y byddai pawb arall yn ymwybodol ohono. A gaf fi wneud rhai ymholiadau ar ran yr Aelodau ar hynny? Oherwydd nid wyf yn meddwl fod dim yn yr adroddiad hwnnw na ellid ei wneud yn gyhoeddus mewn unrhyw ddull neu fodd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Trafnidiaeth Gyhoeddus

Public Transport

13:53

Julie Morgan [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

6. Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i gynyddu'r defnydd o dtrafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru? OAQ(4)0615(EST)

6. What plans does the Minister have to increase the use of public transport in Wales? OAQ(4)0615(EST)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:53

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much for this question, because I think we all need to recognise the importance of effective and affordable fully integrated public transport systems across Wales. We've also got to start, I believe, not only using the national transport finance plan, which I updated Members on yesterday, but also changing people's perception of what public transport is. I think if you have cleaner, better trains, you have more efficient and cleaner-looking buses and better routes—I think you change perceptions to change people's habits.

Diolch yn fawr iawn am y cwestiwn hwn, oherwydd rwy'n credu bod angen i ni i gyd gydnabod pwysigrwydd systemau trafndiaeth gyhoeddus effeithiol a fforddiadwy wedi'u hintegreiddio'n llawn ar draws Cymru. Rwy'n credu hefyd fod yn rhaid i ni ddechrau defnyddio'r cynllun cyllid trafndiaeth cenedlaethol, y rhoddais y wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau yn ei gylch ddoe, a hefyd, rhaid i ni newid canfyddiad pobl o'r hyn yw trafndiaeth gyhoeddus. Os oes gennych drenau glanach a gwell, rwy'n credu y bydd gennych fysiau mwy effeithlon a glanach yr olwg, a llwybrau gwell—rwy'n credu eich bod yn newid canfyddiadau pobl er mwyn newid eu harferion.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 13:54 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I thank the Minister for that response. My follow-up question was about bus travel, which is very important to my constituents. I was very pleased that you commissioned a review of bus policy and published a report in July last year. I wondered if you could update us on any of the recommendations that were made, such as the initiative to develop an all-Wales ticket, a Welsh bus standard and other recommendations.
- Diolch i'r Gweinidog am yr ymateb hwnnw. Mae fy nghwestiwn dilynol yn ymwneud â theithio ar fysiau, sy'n bwysig iawn i fy etholwyr. Roeddwn yn falch iawn eich bod wedi comisiynu adolygiad o'r polisi bysiau ac wedi cyhoeddi adroddiad ym mis Gorffennaf y llynedd. Roeddwn yn meddwl tybed a allech roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am unrhyw argymhellion a wnaed, megis y fenter i ddatblygu tocyn Cymru gyfan, safon bysiau Cymru ac argymhellion eraill.
- 13:54 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I have to say, I thought that the bus advisory group actually did a lot of good work in terms of what they looked at. They did their outline recommendations and, of course, one of them was the Welsh bus quality standard, which seeks to improve the passenger experience, which I feel quite strongly about, and we've linked that to the bus services support grant payments. Then guidance on potential prioritised investment to support improved bus service delivery, which is also important, and collaboration between them all so that we can help with the viability and sustainability issue around bus services. And, of course, that work also carries on with the dimension, in discussion with the health Minister, about how we provide access to health centres and hospitals. And, of course, the issue of ticketing is something that we are also considering, to look for where your ticket can go. Obviously, there'll be developments on that, particularly in south-east Wales, with the development of the metro.
- Rhaid i mi ddweud, roeddwn yn meddwl bod y grŵp cynghori ar fysiau wedi gwneud llawer o waith da mewn gwirionedd o ran yr hyn y buont yn edrych arno. Gwnaethant eu hargymhellion amlinellol ac wrth gwrs, un ohonynt oedd safon ansawdd bysiau Cymru, sy'n ceisio gwella profiadau teithwyr, ac rwy'n teimlo'n gryf am hynny. Rydym wedi cysylltu hynny â'r taliadau grantiau cymorth i wasanaethau bysiau. Yna, ceir canllawiau ar fuddsoddiadau posibl wedi'u blaenoriaethu i gefnogi gwelliant yn y modd y caiff gwasanaethau bysiau eu darparu, sydd hefyd yn bwysig, a chydweithio rhyngddynt i gyd er mwyn i ni helpu gyda hyfywedd a chynaliadwyedd gwasanaethau bysiau. Ac wrth gwrs, mae'r gwaith hwnnw'n parhau gyda'r dimensiwn, mewn trafodaeth gyda'r Gweinidog, o ran sut y darparwn fynediad at ganolfannau iechyd ac ysbytai. Ac wrth gwrs, mae mater tocynnau yn rhywbeth rydym yn ei ystyried hefyd, i edrych lle y gall eich tocyn fynd. Yn amlwg, bydd yna ddatblygiadau ar hynny, yn enwedig yn neddwyrain Cymru, gyda datblygiad y metro.
- 13:55 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, you'll be aware—of course you're aware—of the chaos on the weekend surrounding Arriva Trains Wales's inability to deal with demand on Rugby World Cup match days. I've been contacted by one constituent—I'm sure it's just one enquiry of many constituents of Members in this Chamber—whose day was ruined because he and his family were unable to get the train from Abergavenny to Cardiff in good time. Today, we've had similar warnings to commuters and tourists. What communications have you had with Arriva Trains about this, and how are they mitigating the problems, and how do they intend to mitigate them in future?
- Weinidog, fe fyddwch yn ymwybodol—wrth gwrs eich bod yn ymwybodol—o'r anhrefn ar y penwythnos yn ymwneud ag anallu Trenau Arriva Cymru i ymdopi â'r galw ar ddiwrnodau gemau Cwpan Rygbi'r Byd. Mae un o fy etholwyr newydd gysylltu â mi—rwy'n siwr mai un ymholiad ymhlith nifer ydyw gan etholwyr at Aelodau'r Cynulliad hwn—yn dweud bod ei ddiwrnod wedi'i ddiffetha am na allai ef a'i deulu gael y trê'n o'r Fenni i Gaerdydd mewn da bryd. Heddiw, rydym wedi cael rhybuddion tebyg i gymudwyr a thwristiaid. Pa gyfathrebu a fu rhyngoch a Trenau Arriva ynglŷn â hyn, a sut y maent yn lliniaru'r problemau, a sut y bwriadant eu lliniaru yn y dyfodol?
- 13:56 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I don't very often agree with the Secretary of State for Wales, but I do agree with him on this occasion and what he says—'Can't they just get on with it and actually sort it out?' Because it's actually not fair on people who are coming for the Rugby World Cup, and it's not fair on the population of Cardiff. We're having regular meetings and dialogue with Arriva, with Network Rail and all of them. They cannot carry on like this; this is a prestigious event, we having more prestigious events, and they've got to get their act in order, and, as far as I'm concerned, they've been told that by my officials and they'll be certainly having the joy of meeting me in the next few weeks to be told the same.
- Nid wyf yn cytuno'n aml iawn ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru, ond rwy'n cytuno ag ef ar yr achlysur hwn a'r hyn a ddywed—'Oni allant, yn syml iawn, fwrw iddi a datrys y broblem?' Oherwydd nid yw'n deg mewn gwirionedd ar bobl sy'n dod yma ar gyfer Cwpan Rygbi'r Byd, ac nid yw'n deg ar boblogaeth Caerdydd. Rydym yn cael cyfarfodydd a thrafodaethau rheolaidd gydag Arriva, gyda Network Rail a phob un ohonynt. Ni allant barhau fel hyn; mae hwn yn ddigwyddiad o bwys, rydym yn cael mwy o ddigwyddiadau o bwys, ac mae'n rhaid iddynt roi trefn arnynt eu hunain, ac o'm rhan i, maent wedi cael gwybod hynny gan fy swyddogion a byddant yn sicr yn cael y pleser o gyfarfod â mi yn ystod yr wythnosau nesaf i gael clywed yr un peth.

13:56 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)

Yn ôl at y pwynt a godwyd gan Julie Morgan, yn fyr, ynglŷn â'r angen am docyn sengl neu gerdyn Oyster, rwy'n gresynu at y ffaith bod rhywfaint o dir wedi cael ei golli yn ddiweddar o ran datblygu tocyn o'r fath, ond a wnaiff y Gweinidog gytuno â fi fod rheoleiddio'r bysys, a'r hawl i wneud hynny, yn gwbl hanfodol os ydym ni am symud tuag at system o gael tocyn sengl a fydd yn gweithio ar draws y rhwydwaith bysys ar draws Cymru?

Returning to the point raised by Julie Morgan, briefly, on the need for a single ticket or an Oyster card ticketing system, I regret that some ground has been lost in terms of the development of such a ticket recently, but would the Minister agree with me that regulating buses, and having the powers to do that, is crucially important if we are to move towards a system of having a single ticket that will work across the bus network in Wales?

13:57 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)

Simple answer: yes.

Ateb syml: gwnaf.

13:57 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)

Un o'r rhwystrau eraill, wrth gwrs, ydy'r amser mae'n ei gymryd i fynd o un lle i'r llall. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi £44 miliwn ar gyfer newidiadau rhwng y gogledd a'r de, yn cynnwys gwelliannau i'r rheilffordd rhwng Gobowen a'r Amwythig i wella cyflymder y trac. Ddoe, roeddech chi'n dweud bod yn rhaid gwario arian ychwanegol erbyn hyn a'ch bod chi'n mynd i gomisiynu ychwaneg o waith. Ar ôl iddyn nhw wneud y gwaith, nid ydy Network Rail wedi gwella cyflymder y trac o 60 mya i 90 mya, fel yr addawyd ganddyn nhw. Felly, a fydddech chi'n barod i gwestiynu Network Rail ar y gwariant y mae'r Llywodraeth wedi ei wneud heb gael unrhyw fath o wella o ran cyflymder?

One of the other barriers, of course, is the time that it takes to travel from one place to another. The Welsh Government has put forward £44 million for changes between the north and south, including improvements to the railway between Gobowen and Shrewsbury to improve track speeds. Yesterday, you said that additional funds would have to be spent, and that you're going to commission additional work. After the work, Network Rail hasn't improved the speed on the track from 60 mph to 90 mph, as was promised by them. So, would you be willing to challenge Network Rail on the expenditure that the Government has made without having any kind of return or improvement in terms of speed?

13:58 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)

Yes. I am told that it is going to change, but I'm, like you, a bit sceptical. I'd be delighted to have the backing of the Assembly, cross-party, to be raising these matters and concerns on this. This is public money that's been spent. We've done it for the right reasons in terms of trying to ensure better journey times, and, really, they've got to be up to the mark in terms of delivery. It's very interesting that all this is going on, and I'm sure that, when I have the opportunity of speaking to the people who are reviewing Network Rail, this will be one of the issues that I will be raising.

Byddwn. Rwy'n deall ei fod yn mynd i newid, ond fel chithau, rwyf ychydig yn amheus. Byddwn wrth fy modd yn cael cefnogaeth drawsbleidiol y Cynulliad i dynnu sylw at y materion a'r pryderon hyn. Arian cyhoeddus sydd wedi'i wario. Rydym wedi ei wneud am y rhesymau cywir o ran ceisio sicrhau amseroedd teithio gwell, ac mewn gwirionedd, rhaid iddynt gyrraedd y safon o ran y ddarpariaeth. Mae'n ddiddorol iawn fod hyn i gyd yn digwydd, a phan gaf gyfle i siarad â'r bobl sy'n adolygu Network Rail, rwy'n siŵr y bydd hwn yn un o'r materion y byddaf yn eu crybwyll.

Economi Gorllewin Cymru

13:58 **Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)

7. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi economi gorllewin Cymru? OAQ(4)0600(EST)

7. What is the Welsh Government doing to support the economy of west Wales? OAQ(4)0600(EST)

13:58 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)

We are committed to facilitating economic growth through a variety of interventions: support for new and existing businesses, infrastructure improvements, reviewing business rates policy, and promoting Wales as a tourism destination, as well as, of course, having the Haven enterprise zone.

Rydym wedi ymrwymo i hwyluso twf economaidd drwy amrywiaeth o ymyriadau: cymorth i fusnesau newydd a rhai sy'n bodoli eisoes, gwelliannau seilwaith, adolygu'r polisi ardrethi busnes, a hyrwyddo Cymru fel cyrchfan i dwristiaid, yn ogystal â bod gennym ardal fenter y Daugleddau wrth gwrs.

13:59	Paul Davies Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I'm grateful to the Minister for that answer. I'm sure she is aware that it's been reported in the press this week that a Cypriot-owned renewable energy company plans to invest £685 million in a centre of renewable energy excellence in Milford Haven, creating around 560 jobs in the process. Given these plans and these proposals, what discussions has the Welsh Government-held with this company, and what specific support could the Government offer a business like this in order to ensure that much-needed job opportunities are actually available in Pembrokeshire?</p>	<p>Diolch i'r Gweinidog am ei hateb. Rwy'n siwr ei bod yn ymwybodol fod y wasg yr wythnos hon yn sôn am gwmmi ynni adnewyddadwy o Gyprus sy'n bwriadu buddsoddi £685 miliwn mewn canolfan ragoriaeth ar gyfer ynni adnewyddadwy yn Aberdaugleddau, gan greu tua 560 o swyddi yn y broses. O ystyried y cynlluniau a'r cynigion hyn, pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda'r cwmni hwn, a pha gefnogaeth benodol y gallai'r Llywodraeth ei chynnig i fusnes fel hwn er mwyn sicrhau bod cyfleoedd gwaith mawr eu hangen ar gael yn Sir Benfro?</p>
13:59	Edwina Hart Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Obviously, discussions have taken place. The company has all the financial things in place that it requires to actually open its business, but, obviously, in terms of training and other aspects, we'll be delighted to help. So, there is a dialogue.</p>	<p>Yn amlwg, mae trafodaethau wedi cael eu cynnal. Mae gan y cwmni'r holl bethau ariannol sydd eu hangen yn eu lle i ddechrau ei fusnes mewn gwirionedd, ond yn amlwg, o ran hyfforddiant ac agweddau eraill, byddwn yn falch iawn o helpu. Felly, mae yna ddeialog.</p>
14:00	Simon Thomas Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Related to Paul Davies's question, I visited Valero over the summer, which is a company that deals with more old-fashioned fuels, perhaps, but underlines how important the Cleddau is for energy in Wales, both oil and renewables coming down stream. What discussions are you having, Minister, with your Cabinet colleagues around the Environment (Wales) Bill and other developments to ensure that we have the best balance between looking after the important environment there along the Pembrokeshire coast, but also enabling these businesses, and the energy businesses in particular in Pembrokeshire, to continue to thrive and to give much-needed employment?</p>	<p>Mewn perthynas â chwestiwn Paul Davies, ymwelais â Valero dros yr haf, cwmni sy'n ymdrin â thanwydd mwy hen ffasiwn, efallai, ond sy'n tanlinellu pa mor bwysig yw'r Cleddau i ynni yng Nghymru, gydag olew ac yn ynni adnewyddadwy yn dod i lawr yr afon. Pa drafodaethau rydych yn eu cael, Weinidog, gyda'ch cyd-Aelodau yn y Cabinet ynghylch Bil yr Amgylchedd (Cymru) a datblygiadau eraill er mwyn sicrhau bod gennym y cydbwysedd gorau rhwng edrych ar ôl amgylchedd pwysig arfordir Sir Benfro, a galluogi'r busnesau hyn hefyd, a'r busnesau ynni yn benodol yn Sir Benfro, i barhau i ffynnu a sicrhau gwaith sy'n fawr ei angen?</p>
14:00	Edwina Hart Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I'm delighted you took the opportunity of the recess to visit Valero, a company who, I have to say, took on the apprentices from Murco without hesitation when we had that closure; a very good company, with good values in terms of corporate social responsibility. Can I say they raise regularly their issues and their concerns? I do have an honest and open dialogue with my colleague the Minister for Natural Resources about these issues, and he's very cognisant of the importance of getting the balance right between the environment and what we require for economic needs in west Wales.</p>	<p>Rwyf wrth fy modd eich bod wedi manteisio ar y toriad i ymweld â Valero, cwmni sydd, rhaid i mi ddweud, wedi cyflogi'r prentisiaid o Murco heb betruso pan ddigwyddodd y cau yno; cwmni da iawn, gyda gwerthoedd da o ran cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol. A gaf fi ddweud eu bod yn mynegi eu problemau a'u pryderon yn gyson? Rwy'n cael deialog onest ac agored gyda fy nghyd-Aelod, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, am y materion hyn, ac mae'n ymwybodol iawn o bwysigrwydd sicrhau'r cydbwysedd iawn rhwng yr amgylchedd a'r hyn sydd ei angen arnom i ddiwallu anghenion economaidd gorllewin Cymru.</p>
	Diogelwch ar y Ffordd	Road Safety
14:01	Russell George Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>8. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddiogelwch ar y ffordd yng Nghymru? OAQ(4)0614(EST)</p>	<p>8. Will the Minister make a statement on road safety in mid Wales? OAQ(4)0614(EST)</p>
14:01	Edwina Hart Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Yes, I think road safety has dominated quite a lot of our discussions during the summer, when we've seen some of the accidents. Our road safety framework sets out the measures we need to take to improve road safety and reduce the number of people killed and seriously injured on Welsh roads.</p>	<p>Gwnaf, rwy'n meddwl bod diogelwch ar y ffordd wedi cael lle blaenllaw iawn yn ein trafodaethau yn ystod yr haf, pan welsom rai o'r damweiniau. Mae ein fframwaith diogelwch ar y ffordd yn nodi'r camau sydd eu hangen arnom i wella diogelwch ar y ffordd a lleihau nifer y bobl a leddir neu a anafir yn ddirifol ar ffordd Cymru.</p>

- 14:01 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- Thank you for your answer, Minister. You're currently considering the recommendations of a feasibility study that was conducted to assess improvements to the safety of Caersws bridge. I am keen that, before you make a decision, your officials do discuss the options with the concerned group. Can I also ask you to send me a copy of the feasibility study, please?
- Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Ar hyn o bryd rydych yn ystyried argymhellion astudiaeth ddichonoldeb a gynhaliwyd i asesu gwelliannau i ddiogelwch pont Caersws. Cyn i chi wneud penderfyniad, rwy'n awyddus i'ch swyddogion drafod yr opsiynau gyda'r grŵp sy'n ymwneud â hyn. Hefyd, a gaf fi ofyn i chi anfon copi o'r astudiaeth ddichonoldeb ataf, os gwelwch yn dda?
- 14:01 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- Can I say that, obviously, I'd be delighted to arrange for my officials to—or for the group to come down here to speak to my officials before we make any decisions on it, and of course that might impact on what we do in terms of the feasibility study. So, it's always good to have a discussion because I think that helps in terms of road safety issues.
- A gaf fi ddweud y byddai'n amlwg yn bleser gennyf drefnu i fy swyddogion—neu i'r grŵp ddod i lawr yma i siarad â'm swyddogion cyn i ni wneud unrhyw benderfyniadau arno, ac wrth gwrs, gallai hynny effeithio ar yr hyn a wnawn o ran yr astudiaeth ddichonoldeb. Felly, mae hi bob amser yn dda cael trafodaeth oherwydd credaf fod hynny'n helpu o ran materion diogelwch ar y ffyrdd.
- 14:02 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- One of the ways that we can improve road safety in mid Wales is to have safe routes to schools, safe alternative routes for children and young people to walk and cycle. Now, one of the things that I enjoy doing is cycling, and one of the greatest cycling pleasures is across the railway bridge, Barmouth bridge—that's an easier way than cycling all the way round the estuary, that's for certain. There have been some questions raised about the ongoing support for that important part of our national route of walking and cycling. What can the Welsh Government do, particularly with Network Rail, and particularly with the forthcoming franchise, to ensure that the rather small sum that is needed to maintain that bridge is in some way incorporated in the long-term planning for national walking and cycling routes?
- Un o'r ffyrdd y gallwn wella diogelwch ar y ffyrdd yn y Canolbarth yw cael llwybrau diogel i ysgolion, llwybrau amgen diogel i blant a phobl ifanc allu cerdded a seiclo. Nawr, un o'r pethau rwy'n mwynhau ei wneud yw beicio, ac un o'r pleserau mwyaf yw beicio ar draws y bont reilffordd, pont Abermaw—mae'n ffordd haws na beicio yr holl ffordd o amgylch yr aber, mae hynny'n sicr. Gofynnwyd rhai cwestiynau am y cymorth parhaus i'r rhan bwysig honno o'n llwybr beicio a cherdded cenedlaethol. Beth y gall Llywodraeth Cymru ei wneud, yn arbennig gyda Network Rail, ac yn enwedig gyda'r fasnachfaint sydd ar y ffordd, i sicrhau bod y swm eithaf bach sydd ei angen i gynnal y bont yn cael ei ymgorffori mewn rhyw ffordd yn y cynlluniau hirdymor ar gyfer llwybrau cerdded a beicio cenedlaethol?
- 14:03 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- I think it's essential, when we look at all the issues around the new franchise, and anything we might be doing on rail, that we take on board our responsibilities under the Active Travel (Wales) Act 2013 and look at what should actually be done in certain areas. We'll certainly bear that in mind, and I might return, Presiding Officer, to this at a later stage, as I agreed yesterday with Julie Morgan that I would return to active travel in terms of budget. Perhaps this is a point I could pick up when I bring the discussion back to the Chamber. af
- Rwy'n credu ei bod yn hanfodol, pan edrychwn ar yr holl faterion sy'n ymwneud â'r fasnachfaint newydd, ac unrhyw beth y gallem fod yn ei wneud ar y rheilffyrdd, ein bod yn ysgwyddo ein cyfrifoldebau o dan Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 ac yn edrych ar yr hyn y dylid ei wneud mewn rhai ardaloedd. Byddwn yn sicr yn cadw hynny mewn cof, ac efallai y byddwn yn dychwelyd at hyn ar gam diweddarach, Lywydd, gan i mi gytuno gyda Julie Morgan ddoe y byddwn yn dychwelyd at deithio llesol o ran y gyllideb. Efallai fod hwn yn bwynt y gallwn ei grybwyll pan fyddaf yn dod â'r drafodaeth yn ôl i'r Siambr.
- 14:03 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- Diolch yn fawr, Fonesig Lywydd. Mae pont y Bermo, wrth gwrs, yn bont rheilffordd allweddol. Mae gennym bellach bont newydd hyfryd ar draws y Dwyrdd, ac rwyf wedi cael sicrwydd gan Network Rail bod bwriad i ddatblygu cynllun sylweddol o gadwraeth ac ailadeiladu ar gyfer pont y Bermo. Byddai'n rhaid i gysylltiad beicio a llwybr arfordir Cymru, buaswn i'n tybio, o ran safbwynt y Llywodraeth, fod yn rhan o hynny. A fyddai'r Gweinidog yn cytuno?
- Thank you very much, Dame Presiding Officer. Barmouth bridge, of course, is a key rail bridge connection. We now have a wonderful new bridge across the Dwyrdd and I have been given assurances from Network Rail about the intention to develop a significant project of regeneration and conservation for Barmouth bridge. A cycling route and the Wales Coastal Path, I would have thought, from the Government's point of view, would have to be part of that. Would the Minister agree with me on that?

14:03	<p>Edwina Hart Bywgraffiad Biography</p> <p>Well, I think it's important that we do protect all these routes, because it's not only for the benefit of local cycling, but also the benefit of tourists. It's very important that we all recognise that that we have a very beautiful place in the world in Wales; let us see the full beauty, whether it be on foot, cycle, or any mode of transport.</p>	<p>Wel, rwy'n meddwl ei bod yn bwysig i ni ddiogelu'r holl lwybrau hyn, nid yn unig er budd beicio lleol, ond hefyd er budd twristiaid. Mae'n bwysig iawn ein bod i gyd yn cydnabod bod gennym ran brydferth iawn o'r byd yng Nghymru; gadewch i ni weld yr harddwch llawn, boed hynny ar droed, ar feic, neu unrhyw ddull o deithio.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
Gwella'r Rhwydwaith Rheilffyrdd		Improving the Rail Network	
14:04	<p>Peter Black Bywgraffiad Biography</p> <p><i>9. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisi Llywodraeth Cymru mewn perthynas â gwella'r rhwydwaith rheilffyrdd yng Nghymru? OAQ(4)0601(EST)</i></p>	<p><i>9. Will the Minister make a statement on the Welsh Government's policy towards improving the rail network in Wales? OAQ(4)0601(EST)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:04	<p>Edwina Hart Bywgraffiad Biography</p> <p>The national transport finance plan outlines our proposals for improving the rail network in Wales. I updated Members yesterday.</p>	<p>Mae'r cynllun cyllid trafnidiaeth cenedlaethol yn amlinellu ein cynigion ar gyfer gwella'r rhwydwaith rheilffyrdd yng Nghymru. Rhoddais y wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ddoe.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:04	<p>Peter Black Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you for that answer, Minister. I think everyone is getting a bit apprehensive about the potential electrification of the south Wales line. We are still waiting, of course, on the UK Government and Network Rail to say what progress is being made on that. Can you say what discussions you've had with the UK Government, and whether you've had any indication as to when an announcement will be made as to the timetable that electrification will be undertaken to?</p>	<p>Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Rwy'n credu bod pawb braidd yn bryderus ynghylch y posibilrwydd o drydaneiddio rheilffordd de Cymru. Rydym yn dal i aros, wrth gwrs, i Lywodraeth y DU a Network Rail ddweud pa gynnydd sy'n cael ei wneud ar hynny. A allwch chi ddweud pa drafodaethau rydych chi wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU, ac a ydych wedi cael unrhyw syniad ynglŷn â pha bryd y gwneir cyhoeddiad o ran amserlen y gwaith trydaneiddio?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:04	<p>Edwina Hart Bywgraffiad Biography</p> <p>I am aware of concern with Members, and public concern, because they would like a specific date. I think there's been an awful lot of worries about electrification since the review of other proposals for lines in England, et cetera. We have been assured that the electrification to Swansea will go ahead. I very much hope that I'll have some further information on this within the next few weeks. I'll certainly keep Members updated. We continue a dialogue with DfT—my officials are and I am as Minister. On the back of this question, I will certainly draft another letter.</p>	<p>Rwy'n ymwybodol o bryderon yr Aelodau, a phryder y cyhoedd, am y byddent yn hoffi dyddiad penodol. Rwy'n credu bod yna lawer o bryderon wedi bod ynglŷn â thrydaneiddio ers yr adolygiad o argymhellion eraill ar gyfer rheilffyrdd yn Lloegr, ac yn y blaen. Rydym wedi cael sicrwydd y bydd y trydaneiddio i Abertawe yn mynd rhagddo. Rwy'n gobeithio'n fawr y byddaf yn cael rhywfaint o wybodaeth am hyn yn ystod yr wythnosau nesaf. Byddaf yn sicr o roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau. Rydym yn parhau i drafod gyda'r Adran Drafnidiaeth—fy swyddogion, a minnau fel Gweinidog. Byddaf yn sicr o ddrafftio llythyr arall yn sgil y cwestiwn hwn.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:05	<p>Mike Hedges Bywgraffiad Biography</p> <p>As well as electrification, I would like to stress again the importance of improving rail links in the Swansea city region. Specifically, at the first stage, I would like to request the opening of Landore station to ease congestion into the Hafod and Landore areas around the Liberty Stadium, especially when Premier League football matches are being played.</p>	<p>Yn ogystal â thrydaneiddio, hoffwn ailadrodd pwysigrwydd gwella cysylltiadau rheilffordd yn ninas-ranbarth Abertawe. Yn benodol, ar y cam cyntaf, hoffwn ofyn am agor gorsaf Glandŵr i leddfu tagfeydd i mewn i ardaloedd Hafod a Glandŵr o amgylch Stadiwm Liberty, yn enwedig pan fydd gemau pêl-droed yr Uwch Gyngghrair yn cael eu chwarae.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

14:05	Edwina Hart Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>You missed a trick again; Leighton Andrews isn't here for the reference to Swansea being in the Premier League. As I indicated yesterday, Landore will be one of the areas we'll be looking at.</p>	<p>Rydych wedi colli cyfle eto; nid yw Leighton Andrews yma ar gyfer y cyfeiriad at Abertawe yn yr Uwch Gynghair. Fel y nodais ddoe, bydd Glandŵr yn un o'r ardaloedd y byddwn yn edrych arnynt.</p>
14:06	Darren Millar Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Minister, one of the important aspects of the rail network, of course, is the station network. I've been delighted to see the improvements that have been made in Llandudno and Rhyl in north Wales over the past few years. But Colwyn Bay station is looking very tired and dilapidated; yet it's been the focus of significant regeneration efforts by the Welsh Government, and indeed by Conwy County Borough Council in recent years, and has seen increasing numbers of visitors pass through that station. It's obviously important that they get a warm welcome and a good first impression. What work will you be doing with your officials and Arriva Trains Wales to make that a high priority in terms of a station in need of investment in the future?</p>	<p>Weinidog, un o'r agweddau pwysig ar y rhwydwaith rheilffyrdd, wrth gwrs, yw'r rhwydwaith gorsafoedd. Rwy'n falch iawn o weld y gwelliannau a wnaed yn Llandudno a'r Rhyl yn y gogledd dros y blynyddoedd diwethaf. Ond mae gorsaf Bae Colwyn yn edrych yn dreuliedig ac yn adfeiliedig iawn; ac eto mae wedi bod yn ganolbwynt i ymdrechion sylweddol i adfywio gan Lywodraeth Cymru, ac yn wir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn y blynyddoedd diwethaf, ac mae nifer cynyddol o ymwelwyr wedi bod yn mynd drwy'r orsaf honno. Mae'n amlwg yn bwysig eu bod yn cael croeso cynnes ac argraff gyntaf dda. Pa waith y byddwch yn ei wneud gyda'ch swyddogion a Trenau Arriva Cymru i roi blaenoriaeth uchel iddi fel gorsaf sydd angen buddsoddiad yn y dyfodol?</p>
14:06	Edwina Hart Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>We will have to look at what stations need investment in the future. We might have to look for more collaboration in terms of how we can bring budgets together to help and assist it. I also think, when stations are done to a nice standard, it's nice to have friends of stations from the local community who can help with flower beds and do all these type of things. I think it's something that's of great interest. When I have the summit in north Wales about all issues regarding rail, perhaps this is the type of issue that we can discuss at that summit, as I will be extending an invitation to all Assembly Members in north Wales.</p>	<p>Bydd yn rhaid i ni edrych ar ba orsafoedd y bydd angen buddsoddi ynddynt yn y dyfodol. Efallai y bydd yn rhaid i ni edrych am fwy o gydweithio o ran sut y gallwn ddod â chyllidebau at ei gilydd i helpu a chynorthwyo gyda hyn. Rwyf hefyd yn meddwl, pan wneir gwaith o safon ar orsafoedd, mae'n braf cael cyfeillion gorsafoedd o'r gymuned leol a all helpu gyda gwelyau blodau a gwneud y mathau hyn o bethau. Rwy'n credu ei fod rhywbeth sydd o ddiddordeb mawr. Pan fyddaf yn cynnal yr uwchgynhadledd yn y Gogledd am yr holl faterion sy'n ymwneud â rheilffyrdd, efallai mai dyma'r math o beth y gallwn ei drafod yn yr uwchgynhadledd, gan y byddaf yn estyn gwahoddiad i holl Aelodau'r Cynulliad yn y gogledd.</p>
14:07	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Question 10, OAQ(4)0618(EST), has been withdrawn.</p>	<p>Mae Cwestiwn 10, OAQ(4)0618(EST), wedi cael ei dynnu'n ôl.</p>
	Pont Cleddau	Cleddau Bridge
14:07	Simon Thomas Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p><i>11. Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cynnal gyda Chyngor Sir Penfro parthed tollau ar bont Cleddau? OAQ(4)0613(EST)[W]</i></p>	<p><i>11. What discussions has the Minister held with Pembrokeshire County Council regarding tolls on the Cleddau bridge? OAQ(4)0613(EST)[W]</i></p>
14:07	Edwina Hart Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>The bridge is the responsibility of Pembrokeshire County Council; they set the tolls. I have had no direct discussions, but I think my officials are aware of issues.</p>	<p>Cyfrifoldeb Cyngor Sir Penfro yw'r bont; y cyngor sy'n gosod y tollau. Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau uniongyrchol, ond rwy'n meddwl bod fy swyddogion yn ymwybodol o'r materion sy'n codi.</p>

14:07	Simon Thomas Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I thank the Minister for that reply. Of course, the bridge is being restricted as a result of a parliamentary Act, the Dyfed Act 1987. I don't know if the Minister is aware that I named my daughter with the middle name Beca after the Rebecca riots, because I hate tolls and I hate any sort of barriers. I believe that it is right to fight to break down barriers between communities and also economic barriers that stop them, particularly the north and south of the Cleddau, coming together in a better integrated economic area with a toll on the bridge. There is a debt of some £2.4 million to clear, but the clear long-term future for an important transport link like this must surely be part of the national road network without any tolls. Is that something the Minister can agree with? Are we able to look at this in the next Assembly and work hard to achieve that aim?</p>	<p>Diolch i'r Gweinidog am ei hateb. Wrth gwrs, mae'r bont yn cael ei chyfyngu o ganlyniad i Ddeddf seneddol, Deddf Dyfed 1987. Nid wyf yn gwybod a yw'r Gweinidog yn ymwybodol fy mod wedi rhoi Beca yn enw canol ar fy merch ar ôl terfysgoedd Beca, gan fy mod yn casáu tollau ac yn casáu pob math o rwystrau. Credaf ei bod yn iawn ymladd i chwalu'r rhwystrau rhwng cymunedau a hefyd y rhwystrau economaidd sy'n eu hatal, yn enwedig i'r gogledd a'r de o'r Cleddau, rhag dod at ei gilydd mewn ardal economaidd wedi'i hintegreiddio'n well gyda tholl ar y bont. Mae dyled o tua £2.4 miliwn i'w chlirio, ond yn sicr mae'n rhaid i ddyfodol hirdymor dir ar gyfer cyswllt trafnidiaeth pwysig fel hwn fod yn rhan o'r rhwydwaith ffyrdd cenedlaethol heb unrhyw dollau. A yw hynny'n rhywbeth y gall y Gweinidog gytuno arno? A allwn ni edrych ar hyn yn y Cynulliad nesaf a gweithio'n galed i gyflawni'r nod hwnnw?</p>
14:08	Edwina Hart Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>As you know from the national transport finance plan yesterday, there's a commitment to progress proposals to progress the potential trunking of the A477 between Pembroke Dock and Johnston for the next financial year. This will include the bridge. Therefore, there will be discussions on this issue, you can have my assurance.</p>	<p>Fel y gwyrddoch o'r cynllun cyllid trafnidiaeth cenedlaethol ddoe, mae yna ymrwymiad i symud cynigion yn eu blaen i greu statws cefnffordd posibl i'r A477 rhwng Doc Penfro a Johnston ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Bydd hyn yn cynnwys y bont. Felly, gallaf eich sicrhau y bydd yna drafodaethau ar y mater hwn.</p>
	Maes Awyr Caerdydd	Cardiff Airport
14:08	Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p><i>12. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gefnogaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei rhoi i Faes Awyr Caerdydd? OAQ(4)0606(EST)</i></p>	<p><i>12. Will the Minister make a statement on Welsh Government support for Cardiff Airport? OAQ(4)0606(EST)</i></p>
14:08	Edwina Hart Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Yes. We've made loans available to the airport on commercial terms, which have facilitated improvements in infrastructure, passenger experience and the range of destinations served.</p>	<p>Gwnaf. Rydym wedi sicrhau bod benthyciadau ar gael i'r maes awyr ar delerau masnachol, sydd wedi hwyluso gwelliannau o ran seilwaith, profiad teithwyr a'r ystod o gyrchfannau.</p>
14:08	Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Thank you, Minister, for that answer. Recently, there were press reports that there were some concerns over the loans and support the Welsh Government had made available breaching state aid rules. Are you confident that the criteria that you've put in place will overcome any observations or hurdles that might be put up by the European Commission if any referral is made, and that the airport can go on and try and seek to attract new airlines and new routes to secure its future?</p>	<p>Diolch am eich ateb, Weinidog. Yn ddiweddar, cafwyd adroddiadau yn y wasg fod yna beth pryder fod y benthyciadau a'r cymorth yr oedd Llywodraeth Cymru wedi sicrhau ei fod ar gael yn torri rheolau cymorth gwladwriaethol. A ydych yn hyderus fod y meini prawf a roesoch yn eu lle yn goresgyn unrhyw sylwadau neu rwystrau y gallai'r Comisiwn Ewropeaidd eu cyflwyno os gwneir atgyfeiriad, ac y gall y maes awyr fynd ati i geisio denu cwmnïau hedfan newydd a llwybrau newydd er mwyn diogelu ei ddyfodol?</p>
14:09	Edwina Hart Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>As the party on this side of Chamber, we're absolutely committed to the future of Cardiff Airport. We are confident that all our actions in relation to Cardiff Airport are fully compliant with state aid rules. We have a lot of experience in dealing with state aid rules.</p>	<p>Fel y blaid ar yr ochr hon i'r Siambr, rydym wedi ymrwymo'n llwyr i ddyfodol Maes Awyr Caerdydd. Rydym yn hyderus fod ein holl gamau gweithredu mewn perthynas â Maes Awyr Caerdydd yn cydymffurfio'n llawn â rheolau cymorth gwladwriaethol. Mae gennym lawer o brofiad o ymdrin â rheolau cymorth gwladwriaethol.</p>

Rhwydwaith Cefnffyrdd

14:09 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
13. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddiogelwch ar briffyrdd sy'n rhan o'r rhwydwaith cefnffyrdd?
OAQ(4)0602(EST)

14:09 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
We return again—I think it shows the level of interest with Members—to safety. We do have to do more in terms of education and the various points that have already been raised today.

14:09 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Thank you, Minister. I know this has been raised on many occasions, but can I just petition you in respect of the A494 in Llanbedr in my constituency? I know that we've corresponded on this on a number of occasions, but there were some serious accidents there over the summer, particularly around the Clwyd Gate area, which of course, is where the Offa's Dyke national path crosses the road. Residents there are petitioning you for a reduction in the speed limit from the national speed limit of 60 mph to 40 mph throughout the village of Llanbedr. Is this something that you will give some serious consideration to, given the very, very serious accidents that have been taking place?

14:10 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Can I say, I always give serious consideration to this, because I think it's very important to acknowledge that, in all constituencies across Wales, we have issues like this? I always welcome having representations on it. If we think it is viable to do, and it's a good thing to do, we try and do it within our budget. So, I have an open mind on these matters, but I will take advice from my officials.

Llety Gwyliau

14:10 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
14. A wnaiff y Gweinidog amlinellu cefnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer llety gwyliau yng Nghymru?
OAQ(4)0612(EST)

14:10 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
We recognise the importance of the self-catering industry to tourism in Wales, and we have a number of measures in place to help, with the small business rate relief and tourism investment support schemes. Our tourism marketing team also have regular meetings with stakeholders to see what further things we can do to assist.

Trunk Road Network

13. Will the Minister make a statement on highway safety on the trunk road network? OAQ(4)0602(EST)

Dychwelwn unwaith eto at ddiogelwch: credaf ei fod yn dangos y lefel o ddiddordeb sydd gan yr Aelodau yn y mater. Mae'n rhaid i ni wneud mwy o ran addysg a'r gwahanol bwyntiau sydd eisoes wedi'u codi heddiw.

Diolch yn fawr, Weinidog. Rwy'n gwybod bod hyn wedi cael sylw ar sawl achlysur, ond a gaf fi ofyn i chi am yr A494 yn Llanbedr yn fy etholaeth? Gwn ein bod wedi gohebu ar hyn ar nifer o achlysuron, ond cafwyd rhai damweiniau difrifol yno dros yr haf, yn enwedig yn ardal Clwyd Gate, lle mae llwybr cenedlaethol Clawdd Offa yn croesi'r ffordd wrth gwrs. Mae'r trigolion yno'n llofnodi deiseb yn gofyn i chi ostwng y terfyn cyflymder o'r terfyn cyflymder cenedlaethol o 60 mya i 40 mya drwy bentref Llanbedr. A yw hyn yn rhywbeth y byddwch yn ei ystyried o ddifrif, o ystyried y damweiniau difrifol iawn sydd wedi bod yn digwydd?

A gaf fi ddweud, rwyf bob amser yn rhoi ystyriaeth ddifrifol i hyn, gan fy mod yn credu ei bod yn bwysig iawn cydnabod fod gennym faterion o'r fath ym mhob etholaeth ledled Cymru? Rwyf bob amser yn croesawu cael sylwadau arno. Os credwn ei fod yn ymarferol i'w wneud, a'i fod yn beth da i'w wneud, rydym yn ceisio gwneud hynny o fewn ein cyllideb. Felly, mae gennyf feddwl agored ar y materion hyn, ond byddaf yn cael cyngor gan fy swyddogion.

Holiday Lettings

14. Will the Minister outline the Welsh Government's support for holiday lettings in Wales? OAQ(4)0612(EST)

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd y diwydiant hunanarlwyo i dwristiaeth yng Nghymru, ac mae gennym nifer o fesurau ar waith i helpu, gyda'r rhyddhad ardrethi i fusnesau bach a'r cynllun cymorth buddsoddi mewn twristiaeth. Mae ein tîm marchnata twristiaeth yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda rhanddeiliaid i weld pa bethau eraill y gallwn eu gwneud i gynorthwyo.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:11	Mark Isherwood Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I know you heard yesterday, when I raised this with the business Minister, that she suggested I write to you, particularly concerning the non-domestic rating of self-catering businesses. In fact, all Members received a letter from the Wales Association of Self Catering Operators at the end of August; how would you respond to the concern expressed by them in that about the way the Welsh Government and, therefore, the Valuation Office Agency Wales perceive self-catering in Wales? They feel that the Welsh Government may be insufficiently aware that self-catering is an extremely important sector in the tourism industry in Wales—an important business sector in its own right and an important employer and user of local suppliers and services, and they emphasise that much of the benefit they bring benefits local, rural economies across Wales. How, therefore, can you give consideration to this in your proposed changes, which are causing them so much concern?</p>	<p>Gwn eich bod wedi clywed ddoe, pan oeddwn yn trafod hyn gyda'r Gweinidog busnes, ei bod hi wedi awgrymu y dylwn ysgrifennu atoch, yn ymwneud yn benodol ag ardrethi annomestig ar gyfer busnesau hunanarlwyo. Yn wir, cafodd pob un o'r Aelodau lythyr gan Gymdeithas Gweithredwyr Hunanddarpar Cymru ddiwedd mis Awst; sut y byddech yn ymateb i'r pryder a fynegwyd ganddynt am ganfyddiad Llywodraeth Cymru ac felly, Asiantaeth y Swyddfa Brisió yng Nghymru o hunanarlwyo yng Nghymru? Maent yn teimlo efallai nad yw Llywodraeth Cymru yn ddigon ymwybodol o'r ffaith fod hunanddarpar yn sector eithriadol o bwysig yn y diwydiant twristiaeth yng Nghymru—sector busnes pwysig ynddo'i hun a chyflogwr a defnyddiwr cyflenwyr a gwasanaethau lleol o bwys, ac maent yn pwysleisio bod llawer o'r budd y maent yn ei greu yn fanteisiol i economïau lleol gwledig ledled Cymru. Sut, felly, y gallwch ystyried hyn yn eich newidiadau arfaethedig, sy'n achosi cymaint o bryder iddynt?</p>
14:12	Edwina Hart Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>We recognise their role as an employer, we recognise their role in terms of tourism, we recognise their roles in the local economy, and those have all been taken into account as we adopted the policy position we have.</p>	<p>Rydym yn cydnabod eu rôl fel cyflogwyr, rydym yn cydnabod eu rôl o ran twristiaeth, rydym yn cydnabod eu rolau yn yr economi leol, ac mae'r pethau hyn oll wedi cael eu hystyried wrth i ni fabwysiadu ein safbwynt polisi.</p>
	Strategaeth Economaidd	Economic Strategy
14:12	Mark Isherwood Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p><i>15. A wnaiff y Gweinidog amlinellu strategaeth economaidd Llywodraeth Cymru i gynyddu ffyniant yng Nghymru? OAQ(4)0611(EST)</i></p>	<p><i>15. Will the Minister outline the Welsh Government's economic strategy to raise prosperity in Wales? OAQ(4)0611(EST)</i></p>
14:12	Edwina Hart Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Our support for jobs and growth are outlined in the programme for government. Obviously, we're continuing to take the right action across Wales, even though we obviously have difficulties with our budget settlement, and we're investing in infrastructure, business finance, skills and innovation.</p>	<p>Mae ein cefnogaeth i swyddi a thwf wedi'i hamlinellu yn y rhaglen lywodraethu. Yn amlwg, rydym yn parhau i roi'r camau cywir ar waith ar draws Cymru gyfan, er ein bod yn amlwg yn cael anawsterau gyda setliad y gyllideb, ac rydym yn buddsoddi mewn seilwaith, cyllid busnes, sgiliau ac arloesedd.</p>
14:12	Mark Isherwood Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Thank you. This month's Joseph Rowntree Foundation report, 'Monitoring Poverty and Social Exclusion in Wales 2015', noted the proportion of people living in poverty in Wales has remained unchanged at 23 per cent, which, they said is still higher than the rate for England as a whole. How, in the seventeenth year of Welsh Government do you respond to their statement that they would like to see an economic strategy for Wales that includes increased productivity, better jobs that offer progression, and support for families to get back into work?</p>	<p>Diolch yn fawr. Nododd adroddiad Sefydliad Joseph Rowntree y mis hwn, 'Monitro Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol yng Nghymru 2015', fod cyfran y bobl sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru wedi aros yn ddigyfnewid ar 23 y cant, sydd, yn ôl yr hyn a ddywedent, yn dal i fod yn uwch na'r gyfradd ar gyfer Lloegr yn gyffredinol. Yn eich ail flwyddyn ar bymtheg fel Llywodraeth Cymru, sut rydych yn ymateb i'w datganiad y byddent yn hoffi gweld strategaeth economaidd i Gymru sy'n cynnwys mwy o gynhyrchiant, swyddi gwell sy'n cynnig cyfleoedd i gamu ymlaen, a chefnogaeth i deuluoedd ddychwelyd i waith?</p>

14:13

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I'd respond with: in labour market statistics over the last 12 months, Wales has seen the largest rate of increase in employment in any part of the UK. I could go on to other statistical things, when we look at the business grants recovery, what we've done in terms of helping businesses all the way through the recession, and how businesses praise us for what we're doing in terms of what we're undertaking. We, through very difficult times, have supported business, and the way to support business is to get people into employment. We've supported people into employment by what we do in terms of training. So, we have tried to have a very rounded approach to what we undertake, and we've got key policies on the poverty agenda, which we are also delivering. But it's not helped when you are having massive cuts to your budgets for front-line services, and that is the reality of it. Sometimes, some of the questions have quite a cheek, really, from the party on my left.

Wel, buaswn yn ymateb drwy ddweud hyn: yn ystadegau'r farchnad lafur dros y 12 mis diwethaf, Cymru sydd wedi gweld y gyfradd fwyaf o gynnydd mewn cyflogaeth o holl rannau'r DU. Gallwn fynd ymlaen i bethau ystadegol eraill, pan edrychwn ar adfer grantiau busnes, yr hyn yr ydym wedi'i wneud o ran helpu busnesau yr holl ffordd drwy'r dirwasgiad, a sut y mae busnesau'n ein canmol am yr hyn rydym yn ei wneud o ran yr hyn rydym yn ei gyflawni. Drwy gyfnodau anodd iawn, rydym wedi cefnogi busnes, a'r modd i gefnogi busnesau yw cael pobl i mewn i waith. Rydym wedi cefnogi pobl i mewn i waith drwy'r hyn rydym yn ei wneud gyda hyfforddiant. Felly, rydym wedi ceisio cyflawni pethau drwy ddefnyddio dull cyflawn iawn o weithredu, ac mae gennym bolisiau allweddol ar yr agenda dlodi, sydd hefyd yn cael ei chyflawni gennym. Ond nid yw'n helpu pan fyddwch yn cael toriadau enfawr i'ch cyllidebau ar gyfer gwasanaethau rheng flaen, a dyna realiti pethau. Weithiau, mae rhai o'r cwestiynau'n haerllug iawn mewn gwirionedd, gan y blaid ar fy chwith.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:14

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister.

Diolch yn fawr, Weinidog.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:14

2. Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol

Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to item 2, which is questions to the Counsel General. The first question is from Simon Thomas.

2. Questions to the Counsel General

Symudwn yn awr at eitem 2, sef cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol. Daw'r cwestiwn cyntaf gan Simon Thomas.

Y Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Bil Undebau Llafur

Trade Union Bill

14:14

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

1. Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cynnal gyda swyddogion y gyfraith eraill ynghylch effaith y Bil Undebau Llafur ar ddeddfwriaeth Cymru?
OAQ(4)0081(CG)

1. What discussions has the Counsel General held with other law officers regarding the effect of the Trade Union Bill on Welsh legislation? OAQ(4)0081(CG)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:14

Theodore Huckle

Y Cwnsler Cyffredinol / The Counsel General

Good afternoon, everyone. It's not my intention to make statements about discussions I've had with law officers or to disclose the content of any such discussions. This is an established convention designed to preserve the confidentiality of those discussions and the relationship between law officers.

Prynhawn da, bawb. Nid fy mwriad yw gwneud datganiadau am drafodaethau a gefais gyda swyddogion y gyfraith neu i ddatgelu cynnwys unrhyw drafodaethau o'r fath. Mae hwn yn gonfensiwn sefydledig a luniwyd i gadw cyfrinachedd y trafodaethau hynny a'r berthynas rhwng swyddogion y gyfraith.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:14

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Gwnsler Cyffredinol. Mae fel nad yw'r haf wedi digwydd. Mae'n bwysig, serch hynny, nodi bod y Llywodraeth ei hun wedi cyhoeddi datganiad ysgrifenedig yn mynegi pryder ynglŷn â'r Bil yma, a'r ffaith bod y Bil yn effeithio ar briod hawliau'r Cynulliad, a hynny heb ymgynghori llawn na chydsyniad gan y Cynulliad. Ac rwy'n ofni bod y Bil yn adlewyrchu patrwm ehangach sydd wedi amlygu ei hun ers yr etholiad, lle, er ein bod ni'n trafod Bil Llywodraeth Cymru newydd, gyda phwerau a gedwir yn ôl yn hytrach na phwerau sy'n cael eu rhoi, mae'n ymddangos i mi fod Llywodraeth San Steffan yn ymyrryd â phriod hawliau y lle hwn ac yn dechrau cyfyngu neu drafod cyfyngu ar y pwerau a gedwir yn ôl yn ôl y system newydd bosibl. A ydy Llywodraeth Cymru yn rhannu fy mhryderon ynghylch hyn, a beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i amddiffyn hawliau y Cynulliad?

Thank you, Counsel General. It's like the summer never happened. It is important, however, to note that the Government itself did publish a written statement expressing concern about this Bill, and the fact that the Bill will impact on the rights and powers of the Assembly without full consultation or the consent of the Assembly. And I do feel that the Bill reflects a broader pattern since the election, where, although we discuss the new Government of Wales Bill, with a reserved powers model rather than a conferred powers model, it appears to me that the Westminster Government is actually interfering with the rights and powers of this place and starting to limit, or discussing limiting the powers that are reserved according to the new possible system that may be introduced. Does the Welsh Government share my concerns in this regard, and what's the Welsh Government doing to safeguard the rights of the Assembly?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:15

Theodore Huckle

Much as I might have my own views on the question that the questioner has raised, it is of its very nature a very politically-based question, and it is not appropriate for me to answer it. Obviously, you've adverted to the position taken very clearly by the First Minister, both in written statement to this Assembly and in letters to the Prime Minister. And as you also know, all discussions about what is to be the final form of a Wales Bill are very much current, and I'm therefore, I'm afraid, not in a position to make any comment about it.

Er y gallai fod gennyf fy marn fy hun ar y cwestiwn a ofynnodd yr holwr, mae'n gwestiwn gwleidyddol iawn o ran ei natur, ac nid yw'n briodol i mi ei ateb. Yn amlwg, rydych wedi cyfeirio at safbwynt a fynegwyd yn glir iawn gan Brif Weinidog Cymru, mewn datganiad ysgrifenedig i'r Cynulliad hwn ac mewn llythyrau at Brif Weinidog y DU. Ac fel rydych hefyd yn gwybod, mae pob trafodaeth ynghylch yr hyn a fydd yn ffurf derfynol ar Fil Cymru yn gyfredol iawn, ac felly, yn anffodus, nid wyf mewn sefyllfa i wneud unrhyw sylw yn ei gylch.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:16

Mick Antoniw [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Counsel General, the two aspects relating to the Bill that I'd like you to consider are: first, suggestions have been made that it could be in breach of the Human Rights Act 1998 and, secondly, that it could be in breach of three International Labour Organization conventions. In fact, the ILO have put in a challenge already on it. Of course, as we ourselves are bound by the Human Rights Act and by these conventions, if it is considered appropriate would the Welsh Government consider either initiating or joining legal action to actually challenge that legislation?

Gwnsler Cyffredinol, y ddwy agwedd sy'n ymwneud â'r Bil yr hoffwn i chi eu hystyried yw'r rhain: yn gyntaf, gwnaed awgrymiadau y gallai fod yn groes i Ddeddf Hawliau Dynol 1998 ac yn ail, y gallai fod yn groes i dri chonfensiwn y Sefydliad Llafur Rhyngwladol. Yn wir, mae'r Sefydliad eisoes wedi cyflwyno her yn ei gylch. Wrth gwrs, gan ein bod ni ein hunain wedi ein rhwymo gan y Ddeddf Hawliau Dynol a chan y confensiynau hyn, os ystyrir ei bod yn briodol, a fyddai Llywodraeth Cymru yn ystyried naill ai gychwyn neu ymuno â chmau cyfreithiol i herio'r ddeddfwriaeth honno mewn gwirionedd?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:17

Theodore Huckle

It is a matter of fundamental principle, of course, that the restrictions on the face of it—the restrictions that apply to provisions that this Assembly may pass in respect of potential conflict with either European law or convention law—don't apply in the same way to central UK Parliament. But, I'm sure that all avenues will be considered by Welsh Government as to appropriate action to take, should it be perceived that those requirements are in danger of being breached.

Mae'n fater o egwyddor sylfaenol, wrth gwrs, nad yw'r cyfyngiadau ar yr wyneb—y cyfyngiadau sy'n berthnasol i ddarpariaethau y gall y Cynulliad hwn eu pasio mewn perthynas â gwrthdaro bosibl â chyfraith Ewropeaidd neu gyfraith y confensiwn—yn gymwys yn yr un ffordd i Senedd ganolog y DU. Ond rwy'n siŵr y bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried pob llwybr o ran y camau priodol i'w cymryd, pe bai canfyddiad fod y gofynion hynny mewn perygl o gael eu tramgwyddo.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Cyfreithiau Cymru

Welsh Laws

14:17

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

2. Sut y mae'r Cwnsler Cyffredinol yn helpu'r cyhoedd i ddeall mwy am gyfreithiau Cymru? OAQ(4)0082(CG)

2. How does the Counsel General help the public to understand more about Welsh laws? OAQ(4)0082(CG)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:17

Theodore Huckle

I'm very grateful to the Member for asking this question and giving me the opportunity to draw further attention to the new publicly accessible website, Cyfraith Cymru Law Wales, which the Welsh Government has produced and is developing in conjunction with Westlaw UK. The purpose of the website is, as Members may know, to provide further information about Wales's laws and constitutional arrangements. It was launched in July here at the Senedd, with some Assembly Members and many other members of the Welsh legal community in attendance. I am delighted to say that it has received a very positive reception, and my aim is, with the assistance of the Welsh legal community, to see it developed and maintained as an important and unique vehicle to help individuals and organisations access and understand devolved Welsh law.

Rwy'n ddiolchgar iawn i'r Aelod am ofyn y cwestiwn ac am roi'r cyfle i mi dynnu sylw pellach at y wefan newydd sydd ar gael i'r cyhoedd, Cyfraith Cymru Law Wales, a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru ac sy'n cael ei datblygu ar y cyd â Westlaw UK. Pwrpas y wefan, fel y gwyr yr Aelodau efallai, yw darparu gwybodaeth bellach am gyfreithiau a threfniadau cyfansoddiadol Cymru. Fe'i lanswyd ym mis Gorffennaf yma yn y Senedd, gyda rhai o Aelodau'r Cynulliad, a nifer o aelodau eraill o gymuned y gyfraith yng Nghymru yn bresennol. Rwy'n falch iawn o ddweud ei bod wedi cael derbyniad cadarnhaol iawn, a fy nod, gyda chymorth cymuned y gyfraith yng Nghymru, yw ei gweld yn cael ei datblygu a'i chynnal fel cyfrwng pwysig ac unigryw i helpu unigolion a sefydliadau i ddeall, a chael mynediad at gyfraith ddatganoledig Cymru.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:18

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Gwnsler, am yr ateb mwy cynhwysfawr hwnnw na'r ateb i'r cwestiwn cyntaf. Roeddwn yn hapus i ofyn y cwestiwn achos roeddwn yn moyn cael datganiad fel yna gennych chi gan ei fod e'n fater o bwys mawr, rwy'n meddwl, i'r Cynulliad, gan wybod bod y cyfreithiau rydym ni yn eu cymeradwyo fan hyn yn cael eu rhannu gyda'r cyhoedd, a'u bod nhw'n cael deall y cyfreithiau hynny a chael modd hefyd i gael mynediad rhwydd atyn nhw.

Thank you, Counsel General, for that more comprehensive answer than your answer to your first question. I was happy to ask the question because I did want a statement of that kind from you because it's a matter of huge importance to this Assembly, knowing that the laws that we approve here are shared with the public and that the public can understand those laws and can have easy access to them.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Roeddwn i'n bresennol yn y digwyddiad lansio yn y Cynulliad ddiwedd mis Gorffennaf, ac roeddwn i'n falch iawn gweld y wefan—ei gwedd a'i bod hi mor hwylus i'w defnyddio. Yr unig beth yr hoffwn ofyn yn benodol nawr yw pa waith sydd yn dal i fynd ymlaen rhwng y Llywodraeth, chi a swyddogion archifau i wneud yn siŵr fod popeth i'w gael yn ddwyieithog i bobl yng Nghymru?

I attended the launch event in the Assembly at the end of July and I'm exceptionally pleased to see the website—its shape and form and seeing that it's so accessible and user-friendly. The only specific I'd like to ask now is what work is ongoing between the Government, yourself and archivists in order to ensure that everything is available bilingually for everyone in Wales.

14:19

Theodore Huckle

It's a fundamental principle of the establishment of the website that everything needs to be available bilingually, firstly. Secondly, we continue to make such representations as we can to those who are not bound to act—namely those in the private legal sector and those in the academic community, for example—to contribute their expertise to ensure that this resource is as up to date and accurate and comprehensive as it can possibly be, and also that it is pitched at a level that is comprehensible to the citizen, as opposed to the highly technically skilled lawyer. Those are all very important principles behind the establishment of the site, and work continues to encourage and, to some extent, cajole those who have the necessary expertise and skills to contribute to ensure that this is a success, building on what we think was a very successful launch.

Un o egwyddorion sylfaenol sefydlu'r wefan yw bod angen i bopeth fod ar gael yn ddwyieithog, yn gyntaf. Yn ail, rydym yn parhau i wneud y sylwadau a allwn i rai nad ydynt wedi'u rhwymo i weithredu—sef y rheini yn y sector cyfreithiol preifat a'r gymuned academiaidd, er enghraifft—i gyfrannu eu harbenigedd er mwyn sicrhau bod yr adnodd hwn mor gyfredol a chywir a chynhwysfawr ag y gall fod, a hefyd ei fod yn gweithredu ar lefel sy'n ddealladwy i'r dinesydd, yn hytrach na'r cyfreithiwr tra medrus yn dechnegol. Mae'r rheini oll yn egwyddorion pwysig iawn sy'n sail i sefydlu'r wefan, ac mae gwaith yn parhau i annog, ac i ryw raddau, i gymell y rhai sydd â'r arbenigedd a'r sgiliau angenrheidiol i gyfrannu at sicrhau ei bod yn llwyddiant, gan adeiladu ar yr hyn a oedd yn lansiad llwyddiannus iawn yn ein barn ni.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:20

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Counsel General.

Diolch i chi, Gwnsler Cyffredinol.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:20 **3. Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad**

Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to item 3, which is questions to the Assembly Commission. The questions this afternoon will be answered by Peter Black. Question 1 is from Russell George.

E-bost Cynulliad.Cymru

14:20 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

1. A wnaiff y Comisiwn y Cynulliad ddatganiad am anawsterau a brofwyd mewn perthynas â'r cyfeiriad e-bost cynulliad.cymru wrth danysgrifio i wefannau eraill? OAQ(4)0088(AC)

14:20 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Comisiynydd y Cynulliad / Assembly Commissioner

Yes, thank you for that question. The .wales and .cymru domain names are part of the new wave of internet domain names introduced over the past two years. Whilst most website and software providers have adapted their products to recognise the new domain names, some have not. We've been in touch with Nominet about these problems, and they would welcome specific examples. So, I would encourage Assembly Members to pass on the details to the Commission's information and communications technology team.

14:21 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Commissioner, for your answer. I'm pleased that you understand the issue. Of course, it's the .wales and .cymru endings of e-mail addresses that some websites are not recognising. I certainly know other Assembly Members have experienced this issue as well. What I would say is— You have discussed it with Nominet—I'm pleased you've done that—but could I also perhaps ask you to discuss it with the Internet Corporation for Assigned Names and Numbers? Perhaps they also might be able to provide an explanation and help to you on this issue as well.

3. Questions to the Assembly Commission

Y [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Symudwn yn awr at eitem 3, sef cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad. Atebir y cwestiynau y prynhawn yma gan Peter Black. Daw cwestiwn 1 gan Russell George.

Assembly.Wales E-mail Address

1. Will the Assembly Commission make a statement on difficulties encountered with the assembly.wales email address when subscribing to other websites? OAQ(4)0088(AC)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Ie, diolch i chi am y cwestiwn hwnnw. Mae'r enwau parthau .wales a .cymru yn rhan o'r don newydd o enwau parthau rhyngwrwyd a gyflwynwyd yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Er bod y rhan fwyaf o ddarparwyr gwefannau a meddalwedd wedi addasu eu cynnyrch i gydnabod yr enwau parthau newydd, nid yw hynny'n wir am bob un. Rydym wedi bod mewn cysylltiad â Nominet ynglŷn â'r problemau hyn, a byddent yn croesawu enghreifftiau penodol. Felly, byddwn yn annog Aelodau'r Cynulliad i drosglwyddo'r manylion i dîm technoleg gwybodaeth a chyfathrebu y Comisiwn.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch i chi am eich ateb, Gomisiynydd. Rwy'n falch eich bod yn deall y mater. Wrth gwrs, yr hyn nad yw rhai gwefannau yn ei gydnabod yw'r terfyniadau .wales a .cymru ar gyfeiriadau e-bost. Rwy'n sicr yn gwybod am Aelodau eraill o'r Cynulliad sydd wedi profi hyn hefyd. Yr hyn a ddywedwn yw— Rydych wedi trafod hyn gyda Nominet—rwy'n falch eich bod wedi gwneud hynny—ond a gaf fi ofyn i chi hefyd efallai i drafod â Chorfforaeth y Rhyngwrwyd ar gyfer Enwau a Rhifau a Neilltuir? Efallai y byddant hwy yn gallu cynnig eglurhad i chi ac yn eich cynorthwyo gyda'r mater hwn hefyd.

14:21

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that. I've had this experience myself as well, so you're not alone in experiencing this problem. This isn't an ICANN issue; this is an issue with the particular websites concerned. The domain name expansion programme has seen the introduction of 750 new top-level domains, from .london to .guru, and, whilst most organisations have adapted to the expansion of the domain name system, we're aware that there are some websites and software that do not recognise new top-level domains as valid endings for e-mail addresses. This is generally because the software is programmed to reject any top-level domain with more than three characters. So, the issue really is that we need those website providers to update their software. So, if we have examples, we will go via Nominet and try to contact those providers and ask them to update the software accordingly. That's the best route by which we can correct this particular problem.

Diolch i chi. Rwyf wedi cael y profiad hwn fy hun hefyd, felly nid chi yw'r unig un sy'n wynebu'r broblem hon. Nid mater i Gorfforaeth y Rhyngwyd ar gyfer Enwau a Rhifau a Neilltuir yw hyn; mae'n fater sy'n ymwneud â'r gwefannau penodol dan sylw. O dan y rhaglen ehangu enwau parthau, cyflwynwyd 750 o barthau newydd ar y lefel uchaf, o .london i .guru, ac er bod y rhan fwyaf o sefydliadau wedi addasu i ehangu'r system enwau parthau, rydym yn ymwybodol fod yna rai gwefannau a meddalwedd nad ydynt yn cydnabod y parthau newydd ar y lefel uchaf fel terfyniadau dilys ar gyfer cyfeiriadau e-bost. Y rheswm am hyn yn gyffredinol yw bod y feddalwedd yn cael ei rhaglennu i wrthod unrhyw barth ar y lefel uchaf sy'n cynnwys mwy na thri chymeriad. Felly, y broblem mewn gwirionedd yw bod angen i'r darparwyr gwefannau hyn ddiweddarau eu meddalwedd. Felly, os oes gennym enghreifftiau, gallwn fynd drwy Nominet a cheisio cysylltu â'r darparwyr hynny a gofyn iddynt ddiweddarau'r feddalwedd yn unol â hynny. Dyna'r ffordd orau i ni gywiro'r broblem benodol hon.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:22

Elin Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Fel nifer o Aelodau eraill, mae'n amlwg fy mod i wedi cael yr un broblem yn defnyddio .cymru a .wales, ac mae hynny'n adlewyrchiad o'r problemau y mae pobl yng Nghymru sy'n defnyddio .cymru a .wales yn eu cael hefyd. Mae'n un o'r datblygiadau mwyaf cyffrous a phwysig sydd wedi digwydd yn y maes yma bod yna gydnabyddiaeth ryngwladol nawr i .cymru a .wales, ac felly rwy'n credu ei bod yn hollbwysig bod y Cynulliad yma, yn ogystal â Nominet yn rhoi cymaint o bwysau a chymaint o gyhoeddusrwydd a phosib ar sicrhau bod y mater yma yn cael ei weithredu arno ar frys, ac rwy'n falch eich bod chi'n cymryd y camau rydych yn eu cymryd i hwyluso hyn i'r Comisiwn. Ond, a gaf i ofyn i chi, felly, sicrhau hefyd eich bod chi, fel Comisiwn, yn cadw'r pwysau ar Nominet ac eraill i sicrhau bod y mater yma'n cael ei ddatrys cyn gynted â phosib?

Like other Members, it is clear that I've had the same problem in using .cymru and .wales, and that's a reflection of the problems that people in Wales who use .cymru and .wales are facing as well. It's one of the most exciting and important developments that's happened in this area that there is international recognition for .cymru and .wales, and so I think it's crucial that this Assembly, as well as Nominet, puts as much pressure and publicity as possible on ensuring that this matter is rectified as a matter of urgency, and I welcome the steps that you're taking to promote this for the Commission. But, may I ask you, therefore, to ensure that you, as the Commission, you keep up that pressure on Nominet and others to ensure that this matter is solved as soon as possible.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:23

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, I fully share your advocacy of the .wales and .cymru domain names. I think it's something that we all supported, and I'm very keen on promoting it as widely as possible because I think it does add to the promotion of Wales and the promotion of democracy in Wales as well through the Welsh Assembly and the Welsh Commission. I did mean to add that Members can, of course, still use the .gov.uk domain name if you are registering on these sites, but the issue isn't so much putting pressure on particular organisations; the issue is about trying to ensure that the websites affected correct their software. It's not just .wales. If you had .london or .guru or any top-level domain name with more than three characters, you would have the same problem. So, the issue really is making sure that those website providers change, and that means that we need to identify them, which every Member here can contribute to. Then we will contact them via Nominet and try to ask them to change their software so you are able to use your domain name to register with those particular providers.

Ie, rwy'n llwyr rannu eich cefnogaeth i enwau parthau .wales a .cymru. Rwy'n credu ei fod yn rhywbeth yr oeddem i gyd yn ei gefnogi, ac rwy'n awyddus iawn i'w hyrwyddo mor eang â phosibl oherwydd credaf ei fod yn ychwanegu at y gwaith o hyrwyddo Cymru a hyrwyddo democratiaeth yng Nghymru yn ogystal drwy Gynulliad Cymru a Chomisiwn Cymru. Roeddwn i wedi bwriadu ychwanegu y gall yr Aelodau barhau i ddefnyddio'r enw parth .gov.uk os ydych yn cofrestru ar y gwefannau hyn, wrth gwrs, ond nid yw'n ymwneud yn gymaint â rhoi pwysau ar sefydliadau penodol; mae'n ymwneud â cheisio sicrhau bod y gwefannau yr effeithir arnynt yn cywiro eu meddalwedd. Nid problem sy'n ymwneud â .wales yn unig yw hi. Pe bai gennych .london neu .guru neu unrhyw enw parth lefel uchaf gyda mwy na thri chymeriad, byddech yn cael yr un broblem. Felly, mae'n fater mewn gwirionedd o wneud yn siŵr fod darparwyr y gwefannau hynny'n newid. Golyga hynny fod angen i ni wybod pwy ydynt, a gall pob Aelod yma gyfrannu at hynny. Yna, byddwn yn cysylltu â hwy drwy Nominet ac yn ceisio gofyn iddynt newid eu meddalwedd er mwyn i chi allu defnyddio eich enw parth i gofrestru gyda'r darparwyr penodol hynny.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:24 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you very much.

Diolch yn fawr iawn.

4. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Y Stryd Fawr a Chanol Trefi

Dehrolwyd y gwelliannau canlynol: gwelliant 1 yn enw Aled Roberts, a gwelliannau 2 a 3 yn enw Elin Jones.

4. Welsh Conservatives Debate: The High Street and Town Centres

The following amendments have been selected: amendment 1 in the name of Aled Roberts, and amendments 2 and 3 in the name of Elin Jones.

14:24 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

We now move to item 4, which is the Welsh Conservative debate on the high street and town centres, and I call on William Graham to move the motion.

Symudwn yn awr at eitem 4, sef dadl y Ceidwadwyr Cymreig ar y stryd fawr a chanol trefi, a galwaf ar William Graham i gynnig y cynnig.

Cynnig NDM5825 Paul Davies

Motion NDM5825 Paul Davies

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn gresynu at y ffaith bod ystadegau diweddar y Local Data Company yn nodi bod 15.6 y cant o siopau yn wag yn nhrefi Cymru, sef y gyfradd uchaf yn y DU o bell ffordd;

1. Regrets that recent Local Data Company statistics put Wales's town vacancy rate at 15.6 per cent, by far the highest in the UK;

2. Yn gresynu at fethiant parhaus Llywodraeth Cymru i hyrwyddo strydoedd mawr a chanol trefi, helpu busnesau bach a sicrhau bod swyddi'n cael eu creu; a

2. Regrets the Welsh Government's persistent failure to promote high streets and town centres, help small businesses and ensure job creation; and

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried o ddirif y cynigion a amlinellir yn nogfennau'r Ceidwadwyr Cymreig, 'A Vision for the Welsh High Street' ac 'Invest Wales', a fyddai'n helpu busnesau bach a chanolig ac yn adfywio ein strydoedd mawr.

3. Calls on the Welsh Government to seriously consider the proposals outlined in the Welsh Conservative documents 'A Vision for the Welsh High Street' and 'Invest Wales' which would help SMEs and regenerate our high streets.

Cynigiwyd y cynnig.

Motion moved.

14:24 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I move the motion in the name of Paul Davies. In 2014, 159 Welsh high-street shops closed—the equivalent to one almost every other day. It's deeply concerning that fewer and fewer shops will be appearing on our high streets. Only 120 new high-street stores opened in Wales in 2014, creating a deficit of 39 businesses. The rate that stores are closing is increasingly dramatic. The net loss in the number of stores in Wales has increased from 13 in 2013, when 167 stores opened and 180 stores closed. Despite an extensive monitoring of our high streets' alarming rate of decline, the Welsh Government, unlike other Governments across the UK, have failed to reduce our high-street vacancy rates and I would ask what assessment the Welsh Government has made of the reasons behind the persistent degradation of our high streets. The Government must be a catalyst for innovation in retail.

Cynigiau y cynnig yn enw Paul Davies. Yn 2014, caeodd 159 o siopau ar y stryd fawr yng Nghymru—sy'n cyfateb i un bron bob yn eilddydd. Mae'n peri pryder mawr fod llai a llai o siopau i'w gweld ar ein strydoedd mawr. Dim ond 120 o siopau stryd fawr newydd a agorodd yng Nghymru yn 2014, gan greu diffyg o 39 o fusnesau. Mae cyfradd y siopau sy'n cau yn gynyddol ddramatig. Mae'r golled net yn nifer y siopau yng Nghymru wedi cynyddu o 13 yn 2013, pan welwyd 167 o siopau'n agor a 180 o siopau'n cau. Er gwaethaf monitro helaeth ar raddfa dirywiad brawychus ein strydoedd mawr, mae Llywodraeth Cymru, yn wahanol i Lywodraethau eraill ar draws y Deyrnas Unedig, wedi methu â gostwng nifer y siopau gwag ar ein stryd fawr a charwn ofyn pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o'r rhesymau sydd wrth wraidd dirywiad parhaus ein strydoedd mawr. Rhaid i'r Llywodraeth fod yn gatalydd ar gyfer arloesi ym maes manwerthu.

With one in six of our high-street retail spaces empty, Welsh Conservatives want to know what measures, if any, the Welsh Government are taking to incentivise and encourage businesses to locate to and be retained on our high streets. The Welsh Government must play a role in revitalising our town centres. Revitalisation is a unique opportunity to regenerate whole regions, providing economic stimulus and growth. Welsh high streets must offer communities the opportunity to shop locally, but they must go further and act as a facilitator for community engagement.

The decline of our high streets is not a new challenge, and it's deeply concerning that the Welsh Government have failed to address the rising loss of businesses and the detrimental effect this has on communities. Our vacancy rate is now 15.6 per cent—the worst in the UK. The Welsh Retail Consortium have long monitored and warned us of the state of Welsh high streets. Their comprehensive research not only highlights the growing plight of our high streets, but also warns that the vast contribution that Welsh retail makes to our economy is in jeopardy and the need is urgent to address the high-street challenge. The number of people visiting shops in Wales was down 2.4 per cent year-on-year to August this year—another month of consecutive decline in footfall. However, it was a significantly slower rate of decline than in recent months. A 4.4 per cent drop experienced in July typifies the reduction.

This month, the Welsh Retail Consortium stated that rising cost pressures are making life challenging for a number of retailers, many of which are revamping their businesses in order to respond to the profound changes in the way we are all shopping. This is key. Welsh retailers must be supported in the face of serious challenges ahead. Indeed, the nature of the way we shop is changing, with the rise of internet and out-of-town shopping. Yet, this is no excuse to let high-street regeneration slip to the bottom of the agenda. These are vital community spaces that need creative and bespoke support to restore functionality and prosperity. Welsh retailers have strived to recreate themselves and to stay relevant and viable for their high streets, and the Welsh Government must play their part in supporting them and removing barriers that can stifle investment and growth.

Wales is considerably lagging behind other nations. England has the lowest vacancy rate at 11.6 per cent, followed by Scotland at 11.8 per cent. Despite regeneration projects such as Friars Walk, the worst-performing area in Wales is in my own region, in Newport, which has a vacancy rate of 28.4 per cent in 2015—the second worst performance in the entire United Kingdom.

Gydag un o bob chwech o'n siopau manwerthu ar y stryd fawr yn wag, mae Ceidwadwyr Cymru eisiau gwybod pa fesurau, os o gwbl, y mae Llywodraeth Cymru yn eu rhoi ar waith i gymell ac annog busnesau i leoli ar ein strydoedd mawr ac i aros yno. Rhaid i Lywodraeth Cymru chwarae rhan yn y gwaith o adfywio ein canol trefi. Mae adfywiad yn gyfle unigryw i adfywio rhanbarthau cyfan, gan ddarparu ysgogiad economaidd a thwf. Mae'n rhaid i strydoedd mawr Cymru gynnig cyfle i gymunedau siopa'n lleol, ond mae'n rhaid iddynt fynd ymhellach a gweithredu fel cyfrwng i hwyluso ymgysylltiad cymunedol.

Nid yw dirywiad y stryd fawr yn her newydd, ac mae'n destun pryder mawr fod Llywodraeth Cymru wedi methu â mynd i'r afael â'r nifer gynyddol o fusnesau sy'n cael eu colli ac effaith niweidiol hyn ar gymunedau. Mae 15.6 y cant o'n siopau'n wag bellach—y gyfradd waethaf yn y DU. Mae Consortiwm Manwerthu Cymru wedi bod yn monitro ers amser hir ac wedi ein rhybuddio am gyflwr strydoedd mawr Cymru. Mae eu gwaith ymchwil cynhwysfawr nid yn unig yn tynnu sylw at sefyllfa fwyfwy enbyd ein strydoedd mawr, ond mae hefyd yn rhybuddio bod cyfraniad enfawr manwerthu yng Nghymru i'n heconomi yn y fantol ac mae angen mynd i'r afael â her y stryd fawr ar fyrrer. Mae nifer y bobl sy'n ymweld â siopau yng Nghymru wedi gostwng 2.4 y cant flwyddyn ar ôl blwyddyn hyd at fis Awst eleni—mis arall o ddirywiad olynol yn nifer yr ymwelwyr. Fodd bynnag, roedd yn ddirywiad arafach o gryn dipyn nag yn y misoedd diwethaf. Roedd y gostyngiad o 4.4 y cant a welwyd ym mis Gorffennaf yn fwy nodweddiadol o'r lleihad.

Y mis hwn, dywedodd Consortiwm Manwerthu Cymru fod pwysau costau cynyddol yn gwneud bywyd yn heriol i nifer o fanwerthwyr, gyda llawer ohonynt yn ailwampio eu busnesau er mwyn ymateb i'r newidiadau mawr yn y ffordd yr ydym i gyd yn siopa. Mae hyn yn allweddol. Mae'n rhaid cefnogi manwerthwyr Cymru yn wyneb yr heriau difrifol o'n blaenau. Yn wir, mae natur y ffordd yr ydym yn siopa yn newid, gyda chynnydd mewn siopa ar y rhyngwrdd ac ar gyrion y dref. Eto i gyd, nid yw hyn yn esgus i adael i'r broses o adfywio'r stryd fawr lithro i waelod yr agenda. Mae'r rhain yn fannau cymunedol hanfodol sy'n galw am gefnogaeth greadigol a phwrpasol i adfer ymarferoldeb a ffyniant. Mae manwerthwyr Cymru wedi ymdrechu i ail-greu eu hunain ac i barhau'n berthnasol ac yn hyfyw er mwyn eu strydoedd mawr, ac mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru chwarae ei rhan yn eu cefnogi ac yn dileu rhwystrau a all fygu buddsoddiad a thwf.

Mae Cymru'n llusgo gryn dipyn ar ôl y gwledydd eraill. Lloegr sydd â leiaf o siopau gwag, sef 11.6 y cant, yna'r Alban ar 11.8 y cant. Er gwaethaf prosiectau adfywio megis Friars Walk, mae'r ardal a berfformiodd waethaf yng Nghymru yn fy rhanbarth i, yng Nghasnewydd, sydd â chyfradd siopau gwag o 28.4 y cant yn 2015—y perfformiad gwaethaf ond un drwy'r Deyrnas Unedig.

Boosted promotion of business improvement districts across Wales is desperately needed to support our small businesses. There are currently three BIDs in Wales covering areas in Swansea, Newport and Merthyr Tydfil. The BID model of business involvement and commitment to regeneration and sustainability works well and has many benefits. Indeed, experience suggests that BIDs may be more effective in smaller communities where a sense of local ownership is greater. We need to see businesses and communities revive and thrive and take pride in our bustling high streets once again.

The Welsh Government appears to have given up on our high streets, pushing them to the margins of political importance. The First Minister has stated—

Mae taer angen hybu'r gwaith o hyrwyddo ardaloedd gwella busnes ar draws Cymru i gefnogi ein busnesau bach. Ar hyn o bryd, ceir tair ardal gwella busnes yng Nghymru sy'n cynnwys ardaloedd yn Abertawe, Casnewydd a Merthyr Tudful. Mae model ardal gwella busnes o ymwneud busnesau ag adfywio a chynaliadwyedd, a'u hymrwymiad iddynt, yn gweithio'n dda ac mae iddo lawer o fanteision. Yn wir, mae profiad yn awgrymu y gallai ardaloedd gwella busnes fod yn fwy effeithiol mewn cymunedau llai o faint lle y mae'r ymdeimlad o berchnogaeth leol yn gryfach. Mae angen i ni weld busnesau a chymunedau yn adfywio ac yn ffynnu, ac ymfalchio yn ein strydoedd mawr prysur unwaith eto.

Mae'n ymddangos bod Llywodraeth Cymru wedi rhoi'r gorau i'r stryd fawr, gan ei gwthio i ymylon yr hyn sy'n bwysig yn wleidyddol. Mae'r Prif Weinidog wedi datgan—

- 14:28 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Will you take an intervention on that? A wnewch chi dderbyn ymyriad ar hynny?
- 14:28 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Yes, I will. Iawn, gwnaf.
- 14:28 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Thank you very much. You talk about injecting support into town centres; do you think the town centres of Blaenau Gwent will be helped or hindered by the £33 million taken out of the pockets of the people of Blaenau Gwent via the UK Government's summer budget? Diolch yn fawr iawn. Rydych yn sôn am chwistrellu cymorth i ganol trefi; a ydych chi'n meddwl y caiff canol trefi Blaenau Gwent eu helpu neu eu llesteirio gan y £33 miliwn a dynnwyd o bocedi pobl Blaenau Gwent drwy gyfrwng cyllideb yr haf Llywodraeth y DU?
- 14:29 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Thank you for your intervention. I'll answer some of those questions as we go on later in the speech. Diolch i chi am eich ymyriad. Atebaf rai o'r cwestiynau hynny wrth i ni fynd ymlaen yn ddiweddarach yn yr araith.
- The First Minister said, Dyweddod y Prif Weinidog,
- 'We will never go back to the days when the high streets were full of shops. It just will not happen in the future because shopping habits have changed.' 'Ni fyddwn fyth yn mynd yn ôl i'r dyddiau pan oedd y stryd fawr yn llawn siopau. Ni fydd hynny'n digwydd yn y dyfodol oherwydd bod arferion siopa wedi newid.'
- Fortunately, this is not a view shared by the United Kingdom Government or by the Welsh Conservatives. The scale of retail may alter, but town centres need shops. Indeed, the British economy is surging forward; the new Organisation for Economic Co-operation and Development forecast predicts the United Kingdom will grow at 2.4 per cent this year. This would mean no major advanced economy has grown faster than Britain for a second year in a row. Wages are rising: up by 2.9 per cent over the year. In April 2016, the compulsory national living wage of £7.20 an hour will be introduced for working people aged 25 plus, and is set to rise again to £9 by 2020. Inflation is low: 0.1 per cent, yet again. Corporation tax is the lowest in the G20. By cutting corporation tax, over 1 million businesses will benefit, and it will send a clear, international message that Britain is open for business. Yn ffodus, nid yw Llywodraeth y Deyrnas Unedig na'r Ceidwadwyr Cymreig yn rhannu'r farn hon. Efallai y bydd graddfa manwerthu yn newid, ond mae angen siopau ar ein canol trefi. Yn wir, mae economi Prydain yn carlamu yn ei blaen; mae rhagolwg newydd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd yn darogan y bydd y Deyrnas Unedig yn tyfu 2.4 y cant eleni. Byddai hyn yn golygu nad oes unrhyw economi ddatblygedig o bwys wedi tyfu'n gyflymach na Phrydain am yr ail flwyddyn yn olynol. Mae cyflogau'n codi: i fyny 2.9 y cant dros y flwyddyn. Ym mis Ebrill 2016, bydd y cyflog byw gorfodol cenedlaethol o £7.20 yr awr yn cael ei gyflwyno ar gyfer pobl 25 oed a throsodd sy'n gweithio, ac mae'n debygol o godi eto i £9 erbyn 2020. Mae chwyddiant yn isel: 0.1 y cant eto fyth. Y dreth Gorrforaeth yw'r isaf yn y G20. Drwy dorri'r dreth gorrforaeth, bydd dros 1 filiwn o fusnesau'n elwa, a bydd yn anfon neges glir yn rhyngwladol fod Prydain ar agor i fusnes.

Taxes are reducing for working people: 1.4 million people in Wales will feel a real-term gain as a result of the increase in income tax personal allowance. Over the last parliament, 144,000 people in Wales were taken out of income tax altogether. This is set to increase by a further 29,000 by financial year 2016-17, and the basic rate taxpayer in Wales will be £905 better off.

The Welsh Conservatives want to see bustling high streets, thriving local businesses, and positive community engagement. To achieve this, we need effective management, strategy and direction. There are 116 town centres in Wales, each with a different layout, unique selling point and business structure. There is no one-size-fits-all approach to high-street regeneration, and it is therefore down to local authorities to develop the best initiative for their particular area.

The current system lacks clarity regarding high-street management, and there is an absence of engagement with some local communities. Stakeholder engagement in the delivery of high-street reorganisation has been notably inconsistent over the last 20 years, and communication has been described as rare and/or fragmented. Effective high-street management is essential for regeneration, and it is the role of the Government to provide the overarching strategic framework that will guide local authorities in their efforts to stimulate high-street regeneration.

Business rate relief is another vital element of potential support. It provides an opportunity to support enterprise and stimulate economic growth. The current system discourages investment in property, and this has had a seriously detrimental impact on our town centres. We believe the time is right to reduce business rates, and this encourages businesses throughout Wales to invest and create jobs, supports the regeneration of communities, serves consumers well, and ensures a stable and equitable tax contribution from businesses to Government. We have long called for 100 per cent business rate relief for businesses with a rateable value of up to £12,000, and relief tapered from 100 per cent to 0 per cent for those with a rateable value of up to £15,000. This would see 73 per cent of businesses taken out of business rates altogether, and a further 5 per cent benefiting from tapered relief.

Simple access to the high street is another key consideration; indeed, many high streets are not catering for twenty-first century shoppers. Poor parking facilities, high charges, congestion, and inadequate public transport links all serve to deter consumers from the high street. Welsh Conservatives have spent the last three years calling for the Labour Government to work with councils, and introduce free parking schemes. It's one of the most significant answers to the question of high-street decline. As part of parking reform, Welsh Conservatives have also called for a Wales-wide 10-minute leeway on parking fines in Wales where free parking is not available.

Mae trethi'n gostwng i bobl sy'n gweithio: bydd 1.4 miliwn o bobl yng Nghymru yn teimlo ar eu hennill mewn termau real o ganlyniad i'r cynnydd yn lwfans personol treth incwm. Dros y senedd ddiwethaf, gallodd 144,000 o bobl yng Nghymru roi'r gorau i dalu'r dreth incwm yn gyfan gwbl. Mae'n debygol y bydd 29,000 arall wedi'u hychwanegu at y ffigur hwn ar gyfer y flwyddyn ariannol 2016-17, a bydd trethdalwyr ar y gyfradd sylfaenol yng Nghymru £905 yn well eu byd.

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig am weld strydoedd mawr prysur, busnesau lleol ffyniannus, ac ymgysylltiad cymunedol cadarnhaol. Er mwyn cyflawni hyn, mae angen rheolaeth, strategaeth a chyfarwyddyd effeithiol. Ceir 116 o ganol trefi yng Nghymru, pob un â chynllun, pwynt gwerthu unigryw a strwythur busnes gwahanol. Ni cheir un dull sy'n gweddu i bawb o adfywio'r stryd fawr, ac felly, mater i awdurdodau lleol yw datblygu'r cynllun gorau ar gyfer eu hardal hwy.

Mae'r system bresennol yn brin o eglurder ynghylch rheoli'r stryd fawr, a cheir diffyg ymgysylltiad â rhai cymunedau lleol. Mae ymgysylltiad rhanddeiliaid yn y gwaith o ad-drefnu'r stryd fawr wedi bod yn arbennig o anghyson dros yr 20 mlynedd diwethaf, a dywedir bod cyfathrebu'n brin a/neu'n dameidiog. Mae rheoli'r stryd fawr yn effeithiol yn hanfodol er mwyn adfywio, a rôl y Llywodraeth yw darparu'r fframwaith strategol cyffredinol i arwain awdurdodau lleol yn eu hymdrechion i ysgogi adfywiad y stryd fawr.

Mae rhyddhad ardrethi busnes yn elfen hanfodol arall o gymorth posibl. Mae'n rhoi cyfle i gefnogi menter ac ysgogi twf economaidd. Mae'r system bresennol yn llesteirio buddsoddiad mewn eiddo, ac mae hyn wedi niweidio canol ein trefi'n ddifrifol. Credwn fod yr amser yn iawn i ostwng ardrethi busnes, a bydd hyn yn annog busnesau ledled Cymru i fuddsoddi a chreu swyddi, yn cefnogi'r broses o adfywio cymunedau, yn fuddiol iawn i gwsmeriaid, ac yn sicrhau cyfraniad treth sefydlog a theg gan fusnesau i'r Llywodraeth. Rydym wedi galw ers amser am ryddhad ardrethi busnes 100 y cant i fusnesau sydd â gwerth ardrethol o hyd at £12,000, a rhyddhad sy'n lleihau'n raddol o 100 y cant i 0 y cant ar gyfer y rheini sydd â gwerth ardrethol o hyd at £15,000. Byddai hyn yn golygu na fyddai'n rhaid i 73 y cant o fusnesau dalu ardrethi busnes o gwbl, a byddai 5 y cant arall yn elwa o ryddhad sy'n lleihau'n raddol.

I also find it strange that you questioned the data which we put forward in our motion. I'm just looking through the Local Data Company's statistics, and it's quite clear from those statistics that Wales's town vacancy rate is at 15.6 per cent, by far the highest in the UK. There is, of course, an expression that you can say what you want by different statistics, but I do find it worrying that, even if you question that one avenue of statistics and you have a different set, you didn't even acknowledge that there might be some worth in looking into those statistics and seeing exactly why the statistics of that company, which works with some leading names on high streets across the length and breadth of Wales, have been put forward.

For those people who have questioned why we are holding yet another debate on high-street regeneration, the answer is simple; it's because despite numerous reviews and reports, including the Enterprise and Business Committee's report of January 2012 and, indeed, the Welsh Conservatives' 'A Vision for the Welsh High Street' report, we still don't see the type of improvement we would hope for and expect.

Eluned Parrott made a number of sensible points, many of which were made in that Enterprise and Business Committee report, and which will undoubtedly help our high streets if they were implemented in full. And yes, there is a balance to be struck, you're quite right, Eluned, between inner-city shopping and out-of-town retail, and we don't want to be anti people's aspirations to shop out-of-town; of course we don't. But, that said, the balance has been achieved in some parts of Wales. Lynne Neagle—who tried to intervene earlier, actually—during your attempted intervention, no doubt, Lynne, you would have raised Cwmbran in your constituency, where quite a good balance has been struck between the town centre and shopping and supermarkets, which have been given planning permission on the edge of the town centre and a ring around the town centre. So, rather than stopping supermarkets being outside a town centre altogether, there is a compromise which can be struck. I give way to Lynne.

Rwyf hefyd yn ei gweld hi'n rhyfedd eich bod wedi cwestiynu'r data a gyflwynwyd gennym yn ein cynnig. Rwy'n edrych drwy ystadegau'r Local Data Company, ac mae'n eithaf amlwg o'r ystadegau hynny fod 15.6 o siopau yn wag yn nhrefi Cymru, y lefel uchaf yn y DU o bell ffordd. Wrth gwrs, mae yna ddywediad y gall gwahanol ystadegau ddweud beth bynnag rydych eisiau iddynt ei ddweud, ond mae'n peri pryder i mi, hyd yn oed os ydych yn cwestiynu'r set honno o ystadegau a bod gennych set wahanol, nad oeddech chi hyd yn oed yn cydnabod y gallai fod rhywfaint o werth mewn edrych ar yr ystadegau hynny a gweld yn union pam y cyflwynwyd ystadegau'r cwmni hwnnw, sy'n gweithio gyda rhai o enwau mwyaf blaenllaw'r stryd fawr ar hyd a lled Cymru.

Ar gyfer y bobl sydd wedi cwestiynu pam yr ydym yn cynnal dadl arall eto ar adfywio'r stryd fawr, mae'r ateb yn syml; er gwaethaf nifer o adolygiadau ac adroddiadau, gan gynnwys adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ym mis Ionawr 2012 ac yn wir, adroddiad y Ceidwadwyr Cymreig 'A Vision for the Welsh High Street', rydym yn dal heb weld y math o welliant y byddem yn gobeithio'i weld ac yn ei ddisgwyl.

Gwnaeth Eluned Parrott nifer o bwyntiau synhwyrol, ac mae llawer ohonynt yn yr adroddiad hwnnw gan y Pwyllgor Menter a Busnes, a byddant yn ddi-os yn helpu ein strydoedd mawr os cânt eu gweithredu'n llawn. Ac oes, mae yna gydbwysedd i'w sicrhau, rydych yn llygad eich lle, Eluned, rhwng siopa canol y ddinas a siopau manwerthu ar gyrion y dref, ac nid ydym am fynd yn groes i awydd pobl i siopa ar gyrion y dref; wrth gwrs nad ydym. Ond wedi dweud hynny, mae'r cydbwysedd wedi cael ei gyflawni mewn rhai rhannau o Gymru. Lynne Neagle—a geisiodd ymyrryd yn gynharach, mewn gwirionedd—yn ystod eich ymgais i ymyrryd, Lynne, mae'n siŵr y byddech wedi crybwyll Cwmbrân yn eich etholaeth, lle y cafwyd cydbwysedd eithaf da rhwng canol y dref a siopa ac archfarchnadoedd, sydd wedi cael caniatâd cynllunio ar gyrion canol y dref ac yn ffurfio cylch o gwmpas canol y dref. Felly, yn hytrach nag atal archfarchnadoedd rhag bod y tu allan i ganol y dref yn gyfan gwbl, mae modd sicrhau cyfaddawd. Rwy'n ildio i Lynne.

15:22

Lynne Neagle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I can't resist it now, really. Although you're absolutely right about Cwmbran, which is an excellent example, I was going to ask how the party opposite thinks local government are meant to cope with such massive cuts. Do you think that it is that hard to understand that some of them have had to resort to charging when their budgets are so pressured because of your policies?

Ni allaf wrthsefyll y demtasiwn, a dweud y gwir. Er eich bod yn hollol gywir am Gwmbrân, sy'n enghraifft ragorol, roeddwn yn mynd i ofyn sut y mae'r blaid gyferbyn yn meddwl bod llywodraeth leol i fod i ymdopi â thoriadau mor enfawr. A ydych yn meddwl ei bod mor anodd â hynny i ddeall bod rhai ohonynt wedi gorfod troi at godi tâl pan fo'u cyllidebau o dan gymaint o bwysau oherwydd eich polisiau chi?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:23

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

You started off so well there, Lynne. I would refer to the answer I gave some time before, which is that if the UK Government didn't have the massive debt that it inherited to deal with, then none of us would be in this position now, but we are where we are.

Fe ddechreuoch chi mor dda, Lynne. Cyfeiriaf at yr ateb a roddais rywdro'n gynharach, sef hyn: pe na bai gan Lywodraeth y DU y ddyled enfawr a etifeddodd i ymdopi â hi, yna ni fyddai neb ohonom yn y sefyllfa hon yn awr, ond rydym lle'r ydym.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Rhun ap Iorwerth identified the failure over many years to recognise the importance of the high street as a community hub, and as you rightly pointed out, Rhun, this isn't just a Welsh problem—Mary Portas drew attention to the problem on the UK stage; this is happening across the UK. What we do need, of course, are solutions.

There are unique things the high street can do. We need to rebuild communities at the centre of our towns with all that that entails, and that does include retail, leisure and also living. The Enterprise and Business Committee was horrified to hear that in some town centres in Wales, stairwells into areas above shops have been removed to increase ground floor retail space, but that, of course, removes living space for local people. The business rates regime needs to address this problem and not to encourage removal of living space in towns.

Mohammad Asghar and a number of AMs have rightly spoken of the move to internet shopping and the decay of traditional shopping areas as a result. I would question the inevitability of this. Yes, there is a huge place for internet shopping and increasingly so, but town centres can offer so much more than just shopping; they can offer a way of life. And I refer again to the Enterprise and Business Committee's experience of Narberth, which in a rural area has found a way to combine a strong internet presence for its shops with a good footfall. That hasn't happened everywhere, but perhaps we can take the experience of Narberth on to a wider stage.

Free parking has been mentioned by many, and certainly in relation to the Vale of Glamorgan, as a way to promote town-centre shopping. Again, there, yes, there is a balance to be struck. Yes, free parking in many cases is essential, but, at the same time, you need to make sure that people aren't parking there and taking advantage of that system.

I think our motion today, Deputy Presiding Officer, is a good one. I would urge everyone in the Chamber to support it. We are trying to put forward solutions to problems that, too often in the past, have not had solutions. We have had many Ministers over the last few years dealing with this. Let's have a concerted effort now to try and deal with the problems at the heart of town centres and our communities in Wales.

Nododd Rhun ap Iorwerth y methiant dros nifer o flynyddoedd i gydnabod pwysigrwydd y stryd fawr fel canolbwynt cymunedol, ac fel y dywedoch yn gywir ddigon, Rhun, nid problem i Gymru'n unig yw hi—tynnodd Mary Portas sylw at y broblem ar lwyfan y DU; mae hyn yn digwydd ar draws y DU. Yr hyn sydd eu hangen arnom, wrth gwrs, yw atebion.

Mae yna bethau pendant y gall y stryd fawr ei wneud. Mae angen i ni ailadeiladu cymunedau yng nghanol ein trefi gyda'r cyfan y mae hynny'n ei olygu, ac mae'n cynnwys manwerthu, hamdden a hefyd, byw. Roedd y Pwyllgor Menter a Busnes yn arswydo o glywed bod grisiau i fannau uwchben siopau wedi cael eu tynnu mewn ambell ganol tref yng Nghymru, er mwyn cynyddu gofod manwerthu ar y llawr gwaelod, ond wrth gwrs, mae'n cael gwared ar ofod byw i bobl leol. Mae angen i'r gyfundrefn ardrethi busnes fynd i'r afael â'r broblem hon yn hytrach nag annog pobl i gael gwared ar ofod byw mewn trefi.

Mae Mohammad Asghar a nifer o Aelodau'r Cynulliad wedi siarad, yn briodol, am y newid i siopa ar y rhyngwrwyd a dirywiad ardaloedd siopa traddodiadol o ganlyniad i hynny. Byddwn yn cwestiynu natur anochel hyn. Oes, mae lle mawr i siopa ar y rhyngwrwyd ac yn gynyddol felly, ond gall canol trefi gynnig cymaint yn fwy na siopa'n unig; gallant gynnig ffordd o fyw. A chyfeiriaf eto at yr hyn a welodd y Pwyllgor Menter a Busnes yn Arberth, sydd, mewn ardal wledig, wedi dod o hyd i ffordd o gyfuno presenoldeb cryf ar y rhyngwrwyd ar gyfer ei siopau gyda nifer dda o ymwelwyr. Nid yw hynny wedi digwydd ym mhob man, ond efallai y gallwn ddatblygu profiad Arberth ar lwyfan ehangach.

Mae llawer o bobl wedi crybwyll parcio am ddim, ac mewn perthynas â Bro Morgannwg yn bendant, fel ffordd o hyrwyddo siopa yng nghanol y dref. Unwaith eto, oes, mae yna gydbwysedd i'w sicrhau. Ydy, mae parcio am ddim yn hanfodol mewn llawer o achosion, ond ar yr un pryd, mae angen i chi wneud yn siŵr nad yw pobl yn parcio yno ac yn cynryd mantais ar y system.

Rwy'n credu bod ein cynnig heddiw yn un da, Ddirprwy Lywydd. Byddwn yn annog pawb yn y Siambr i'w gefnogi. Rydym yn ceisio cyflwyno atebion i broblemau nad oedd atebion i'w cael ar eu cyfer yn rhy aml yn y gorffennol. Rydym wedi cael llawer o Weinidogion yn ymdrin â hyn dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Gadewch i ni gael ymdrech ar y cyd yn awr i geisio delio â'r problemau wrth wraidd ein canol trefi a'n cymunedau yng Nghymru.

15:26

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? [Objection.] I defer voting until voting time.

Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

5. Dadl Plaid Cymru: Y Cyfryngau

Deltholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1 a 2 yn enw Aled Roberts.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Y cynnig yw derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Gohiriaf y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Voting deferred until voting time.

5. Plaid Cymru Debate: The Media

The following amendments have been selected: amendments 1 and 2 in the name of Aled Roberts.

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad Biography](#)

Item 5 is a Plaid Cymru debate on the media, and I call on Bethan Jenkins to move the motion.

Eitem 5 yw dadl Plaid Cymru ar y cyfryngau, a galwaf ar Bethan Jenkins i gynnig y cynnig.

Cynnig NDM5827 Elin Jones

Motion NDM5827 Elin Jones

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn cefnogi cyfryngau cryf fel elfen annatod o ddemocratiaeth rydd a llawn weithredol yng Nghymru;
2. Yn cydnabod effaith sylweddol y cyfryngau a'r diwydiannau creadigol ar economi Cymru;
3. Yn pryderu am gynigion presennol Llywodraeth y DU ar gyfer y BBC cyn adnewyddu ei siarter yn 2016, gyda golwg arbennig ar ddarlledu yn Gymraeg ac yn Saesneg a BBC Cymru ac S4C cryf;
4. Yn galw ar ei bwyllgorau i ymchwilio i newidiadau sylfaenol i'r diwydiant cyfryngau er mwyn cefnogi ei swyddogaethau democrataidd yng Nghymru a gweithredu'r newidiadau hynny; a
5. Yn ailsefydlu is-bwyllgor darlledu er mwyn ffurfio barn a safbwynt ar adnewyddu siarter y BBC cyn gynted ag y bo modd.

1. Supports a strong media as an integral element of a free and fully-functioning democracy in Wales;
2. Recognises the significant impact of the media and creative industries on the Welsh economy;
3. Is concerned about the UK Government's current proposals for the BBC ahead of its charter renewal in 2016 with particular regard to broadcasting in both English and Welsh and a strong BBC Wales and S4C;
4. Calls upon its committees to inquire into and act upon fundamental changes to the media industry in order to support its democratic functions in Wales; and
5. Re-establishes a broadcasting sub-committee in order to formulate a view and position on the BBC Charter Renewal as soon as possible.

Cynigiwyd y cynnig.

Motion moved.

Bethan Jenkins [Bywgraffiad Biography](#)

Diolch. What if there were no BBC television? It sounds like a highly hypothetical and perhaps emotive question. In fact, it was the title of a report published by Reuters Institute for the Study of Journalism and the University of Oxford. It found that total content investment could be as much as 25 per cent lower and that investment in first-run UK content could be slashed by half. Most viewers would suffer a reduction in both choice and value for money. Think about what kind of impact that would have on the Welsh economy, not only in Cardiff, where the BBC has invested much in its UK drama output in recent times, but across the country in places like Caernarfon and Aberystwyth. That's the cold money argument. While it's important, it tells us nothing of the importance of the BBC both in the cultural role it plays in our nation and the rest of the UK and of its much cherished independence and impartiality as well as the sheer breadth of services we use every day.

Diolch. Beth pe na bai yna deledu'r BBC? Mae'n swnio fel cwestiwn damcaniaethol iawn ac emosiynol efallai. Yn wir, dyna oedd teitl adroddiad a gyhoeddwyd gan Sefydliad Reuters ar gyfer Astudiaethau Newyddiaduraeth a Phrifysgol Rhydychen. Canfu y gallai cyfanswm y buddsoddiad yn y cynnwys fod cymaint â 25 y cant yn is ac y gallai'r buddsoddiad mewn cynnwys a ddarlledir am y tro cyntaf yn y DU gael ei dorri yn ei hanner. Byddai'r rhan fwyaf o wylwyr yn gweld lleihad yn y dewis a gwerth am arian. Meddyliwch am y math o effaith a gâi hynny ar economi Cymru, nid yn unig yng Nghaerdydd, lle y mae'r BBC wedi buddsoddi llawer yn ei allbwn drama yn y DU yn ddiweddar, ond ar draws y wlad mewn llefydd fel Caernarfon ac Aberystwyth. Dyna'r ddadl ariannol ddiemosiwn. Er ei bod yn bwysig, nid yw'n dweud dim wrthym am bwysigrwydd y BBC o ran y rôl ddiwylliannol y mae'n ei chwarae yn ein cenedl ac yng ngweddill y DU a'i annibyniaeth a'i amhleidioldeb sydd mor annwyl gennym yn ogystal â'r ehangder enfawr o wasanaethau a ddefnyddiwn bob dydd.

So, why begin this debate by talking in such end-of-days terms? The BBC is not under immediate threat of being taken away from us. Nevertheless, a number of factors have started a public debate on the future of the BBC—whether, indeed, the BBC has any future. The first factor is the shotgun deal arranged between a bullying Chancellor and the top brass of the corporation that resulted in full responsibility for licence fees for the over-75s being transferred to the BBC. The Government has effectively made Britain's public service broadcaster an outsourced agency for the Department for Work and Pensions. This neat arrangement means that, for a second time, Ministers deliberately avoided an open and public debate about the future of the BBC and the need to adequately fund public service broadcasting. A flat cash settlement over the course of the next licence fee settlement, which this deal represents, will mean further cuts at the BBC. It falls to senior managers to decide what areas of journalism and programming will be axed in order to balance the books, with plans to consult to outsource some news provision proving controversial.

This way of doing business behind closed doors has created a climate of suspicion and fear over the BBC's future. If anyone is to blame for this it is the UK Government, cutting secret deals on the one hand—its approach to what to do with the corporation in the current years can only be characterised as Murdochian. The head of News International is an important figure here. For years, he and his cohorts have been complaining of the unfair advantage that the BBC enjoys, using his media and the rest of the right-wing press to argue for a rebalanced market, and, finally, he appears to be getting his own way with talk of subscription services. And here's another interesting demonstration of capitalism as it's practised rather than how it's preached: the licence fee costs 42 pence a day—that's £13 a month—while the most basic Sky package is £20 a month. If we look at capitalist theory, I'm pretty sure that Hayek and Friedman would argue that, if you want to take on a market leader, you have to provide a better service at a cheaper price rather than use your influence on the Government of the day.

The BBC has a major role in holding the Government of the day to account. So, when any Government has an impact upon an independent media organisation's ability to fully and freely report the news, then we have to ask what implications this has for democracy and free society.

It is because of this that Plaid Cymru is today calling for the re-establishment of the broadcasting sub-committee. And I note the Liberal Democrat amendment, and welcome work being done elsewhere in this Assembly, and by the Welsh Affairs Committee in Westminster, which has just announced an inquiry into broadcasting in Wales.

Felly, pam dechrau'r ddadl hon drwy siarad fel pe bai hi ar ben ar y sefydliad? Nid yw'r BBC dan fgythiad uniongyrchol o gael ei ddwyn oddi wrthym. Serch hynny, mae nifer o ffactorau wedi arwain at drafodaeth gyhoeddus ar ddyfodol y BBC—os oes gan y BBC ddyfodol yn wir. Y ffactor cyntaf yw'r fargen 'gwn at ben' a drefnwyd rhwng bwli o Ganghellor a phrif swyddogion y gorfforaeth ac a arweiniodd at drosglwyddo cyfrifoldeb llawn am ffioedd y drwydded i bobl 75+ oed i'r BBC. Mae'r Llywodraeth i bob pwrpas wedi gwneud darlledwr gwasanaeth cyhoeddus Prydain yn asiantaeth ar gontract allanol ar ran yr Adran Gwaith a Phensiynau. Mae'r trefniant taclus hwn yn golygu, am yr eildro, fod Gweinidogion yn fwriadol wedi osgoi trafodaeth agored a chyhoeddus am ddyfodol y BBC a'r angen i gyllido darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn ddigonol. Bydd setliad arian gwastad dros y cyfnod nesaf o setliad ffi'r drwydded, a gynrychiolir gan y fargen hon, yn arwain at doriadau pellach yn y BBC. Mater i uwch reolwyr yw penderfynu pa feysydd newyddiaduraeth a rhaglennu fydd yn cael eu torri er mwyn mantoli'r cyfrifon, gyda chynlluniau i ymgynghori ar roi rhywfaint o'r ddarpariaeth newyddion ar gontract allanol yn profi'n ddadleuol.

Mae'r ffordd hon o wneud busnes y tu ôl i ddrysau caeedig wedi creu hinsawdd o amheuaeth ac ofn ynglŷn â dyfodol y BBC. Os oes rhywun i'w feio am hyn, Llywodraeth y DU yw honno, wrth iddi daro bargeinion yn gyfrinachol ar y naill law—yr unig air y gellir ei ddefnyddio i ddisgrifio'i hymagwedd tuag at beth i'w wneud â'r gorfforaeth yn y blynyddoedd diwethaf yw Murdochiaid. Mae pennaeth News International yn ffigwr pwysig yma. Ers blynyddoedd, mae ef a'i garfanau wedi bod yn cwyno am y fantais annheg y mae'r BBC yn ei mwynhau, gan ddefnyddio ei gyfryngau a gweddill y wasg adain dde i ddadlau o blaid marchnad wedi'i hailgydbwyso o'r newydd, ac o'r diwedd, mae'n ymddangos ei fod yn cael ei ffordd ei hun gyda'r sôn am wasanaethau tanysgrifio. A dyma arddangosiad diddorol arall o gyfalafiaeth fel y'i harferir yn hytrach na fel y'i pregethir: mae ffi'r drwydded yn costio 42 ceiniog y dydd—sef £13 y mis—a'r pecyn Sky mwyaf sylfaenol yn £20 y mis. Os edrychwn ar theori cyfalafiaeth, rwy'n eithaf siwr y byddai Hayek a Friedman yn dadlau, os ydych am herio arweinydd yn y farchnad, rhaid i chi ddarparu gwasanaeth gwell am bris rhatach yn hytrach na defnyddio eich dylanwad ar Lywodraeth y dydd.

Mae gan y BBC ran bwysig i'w chwarae yn dwyn Llywodraeth y dydd i gyfrif. Felly, pan fydd unrhyw Lywodraeth yn effeithio ar allu sefydliad cyfryngol annibynnol i adrodd y newyddion yn llawn ac yn rhydd, yna mae'n rhaid i ni ofyn beth yw goblygiadau hyn i ddemocratiaeth a chymdeithas rydd.

Dyma pam y mae Plaid Cymru heddiw yn galw am ailsefydlu'r is-bwyllgor darlledu. Ac rwy'n sylwi ar welliant y Democratiaid Rhyddfrydol, ac yn croesawu'r gwaith sy'n cael ei wneud mewn mannau eraill yn y Cynulliad hwn, a chan y Pwyllgor Materion Cymreig yn San Steffan, sydd newydd gyhoeddi ymchwiliad i ddarlledu yng Nghymru.

Plaid Cymru will, of course, contribute to both of these inquiries, but, for the reason I have already outlined, together with those of you who will hear from my Plaid Cymru colleagues later, we drafted this motion in mind to call for a specific committee on broadcasting, to be tasked with formulating this Assembly's response to both charter renewal, and the UK Government's forthcoming plans for the BBC. And we would like to see this re-established in the future—in future Assemblies.

We believe that the seriousness of what is at stake here demands an equally serious response, which would reflect this institution's commitment to open and accountable democracy. We will be supporting the other Liberal Democrat amendment.

Lastly, I wanted to share in colleagues' concern at the proposed takeover of the 'South Wales Evening Post' by Trinity Mirror plc, which was mentioned by Peter Black yesterday in the Chamber. This company already owns three morning papers in Wales, and, by adding the 'Post', it will control four out of five. We've seen in recent years how Trinity Mirror has made swingeing job cuts in Neath, Merthyr and in other places across Wales, centralised its news functions, and homogenised its output. My first fear is that any takeover will lead to job losses in Swansea. But, secondly, I should point out that the 'South Wales Evening Post' is a fine newspaper, as are the 'Carmarthen Journal' and the 'Llanelli Star', with a real commitment to local news. And this is reflected in the fact that it is the biggest-selling paper in Wales. I would like to hear from the Minister what his Government's views are on this takeover, and whether he will be taking any action on this.

Bydd Plaid Cymru, wrth gwrs, yn cyfrannu at y ddau ymchwiliad, ond am y rheswm rwyf eisoes wedi'i amlinellu, ynghyd â'r rhai ohonoch a fydd yn dlywed gan fy nghyd-Aelodau ym Mhlaid Cymru yn nes ymlaen, rydym wedi drafftio'r cynnig hwn gyda'r bwriad o alw am bwyllgor penodol ar ddarlledu, er mwyn mynd i'r afael â'r gorchwyl o lunio ymateb y Cynulliad hwn i adnewyddu'r siarter, a chynlluniau arfaethedig Llywodraeth y DU ar gyfer y BBC. A byddem yn hoffi gweld ailsefydlu hyn yn y dyfodol—yn Nghynulladau'r dyfodol.

Credwn fod difrifoldeb yr hyn sydd yn y fantol yma yn galw am ymateb yr un mor ddifrifol, a fyddai'n adlewyrchu ymrwymiad y sefydliad hwn i ddemocratiaeth agored ac atebol. Byddwn yn cefnogi gwelliant arall y Democratiaid Rhyddfrydol.

Yn olaf, roeddwn yn awyddus i rannu pryder cyd-Aelodau ynghylch y cais gan Trinity Mirror ccc i brynu'r 'South Wales Evening Post', a grybwyllodd Peter Black ddoe yn y Siambr. Mae'r cwmni eisoes yn berchen ar dri phapur newydd boreuol yng Nghymru, a thrwy ychwanegu'r 'Post', bydd yn rheoli pedwar allan o bump. Yn y blynyddoedd diwethaf, gwelsom sut y mae Trinity Mirror wedi cael gwared ar lawer o swyddi yng Nghastell-nedd, Merthyr a manau eraill ledled Cymru, wedi canoli ei swyddogaethau newyddion, a homogoneiddio ei allbwn. Fy ofn cyntaf yw y bydd unrhyw bryniant yn arwain at golli swyddi yn Abertawe. Ond yn ail, dylwn nodi bod y 'South Wales Evening Post' yn bapur newydd da, fel y 'Carmarthen Journal' a'r 'Llanelli Star', gydag ymrwymiad gwirioneddol i newyddion lleol. A chaiff hyn ei adlewyrchu yn y ffaith mai dyma'r papur sy'n gwerthu orau yng Nghymru. Hoffwn glywed gan y Gweinidog beth yw barn ei Lywodraeth ar y pryniant hwn, ac a fydd yn rhoi unrhyw gamau ar waith mewn perthynas â hyn.

15:32

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I have selected the two amendments to the motion, and I call on Peter Black to move amendments 1 and 2, tabled in the name of Aled Roberts.

Rwyf wedi dethol y ddau welliant i'r cynnig, a galwaf ar Peter Black i gynnal gwelliannau 1 a 2, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

Gwelliant 1—Aled Roberts

Amendment 1—Aled Roberts

Cynnwys pwynt 3 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Insert as new point 3 and renumber accordingly:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau sefydlogrwydd ariannol ac annibyniaeth olygyddol S4C.

Calls on the Welsh Government to work with the UK Government to ensure the financial stability and editorial independence of S4C.

Gwelliant 2—Aled Roberts

Amendment 2—Aled Roberts

Dileu pwynt 5 a rhoi yn ei le:

Delete point 5 and replace with:

Yn croesawu'r ffaith bod y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol wedi cytuno i gynnal ymchwiliad i'r adolygiad o siarter y BBC.

Welcomes the agreement of the Communities, Equality and Local Government Committee to undertake an inquiry into the BBC charter review.

Cynigiwyd gwelliannau 1 a 2.

Amendments 1 and 2 moved.

15:32

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can I move amendments 1 and 2? Just in terms of the second amendment, Bethan Jenkins has just explained that the sub-committee she wishes to establish is something for future Assemblies, which is not what's actually worded in the amendment. With six months left, I think it's very difficult to establish a sub-committee, which is why we've put this amendment in, but, certainly, I—

A gaf fi gynnig gwelliannau 1 a 2? O ran yr ail welliant, mae Bethan Jenkins newydd egluro mai rhywbeth i Gynullidiadau'r dyfodol yw'r is-bwyllgor y mae'n dymuno ei sefydlu, ac nid dyna sydd wedi ei eirio yn y gwelliant mewn gwirionedd. Gyda chwe mis ar ôl, rwy'n credu ei bod yn anodd iawn sefydlu is-bwyllgor, a dyna pam yr ydym wedi cynnwys y gwelliant hwn, ond yn sicr, byddwn—

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:32

Bethan Jenkins [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

In the motion, we've put down that we'd like for it to be during this term. Obviously, I said my aspiration was—it's not in the motion—that we would like to have that reconvened. But that's something that's not in the written motion.

Yn y cynnig, rydym wedi nodi'r hyn yr hoffem iddo fod yn ystod y tymor hwn. Yn amlwg, dywedais mai fy nyhead oedd—nid yw yn y cynnig—y byddem yn hoffi ei ailgynnwyl. Ond nid yw hynny yn y cynnig ysgrifenedig.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:33

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Okay. I think the issue we had is there is no time in the remaining time of the Assembly to actually establish that, but we wanted to recognise the work that is going on in the main committee as well.

Iawn. Rwy'n meddwl mai'r broblem a oedd gennym yw nad oes amser yn y cyfnod sy'n weddill o'r Cynulliad i'w sefydlu, ond roeddem yn awyddus i gydnabod y gwaith sy'n digwydd yn y prif bwyllgor hefyd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

We welcome and support this very timely debate, and we believe a strong media is essential in a free and fully functioning democracy in Wales. In April last year, Tony Hall, the director general of the BBC, acknowledged the decline in English-language programming in Wales, by all broadcasters, over the last decade. But he said in response to the budget cuts that the balance of BBC programming in Wales had shifted to focus on news and current affairs, essential in a democracy. I think we expect more of the BBC in terms of English-language programming than just news and current affairs.

Rydym yn croesawu ac yn cefnogi'r ddadl hynod o amserol hon, ac rydym yn credu bod cyfryngau cryf yn hanfodol mewn democratiaeth rydd a llwyr weithredol yng Nghymru. Ym mis Ebrill y llynedd, cydnabu Tony Hall, cyfarwyddwr cyffredinol y BBC, y dirywiad mewn rhaglennu Saesneg yng Nghymru, gan yr holl ddarlledwyr, dros y degawd diwethaf. Ond dywedodd, mewn ymateb i'r toriadau yn y gyllideb, fod cydbwysedd rhaglennu'r BBC yng Nghymru wedi newid i ganolbwyntio ar newyddion a materion cyfoes, sy'n hanfodol mewn democratiaeth. Rwy'n credu ein bod yn disgwyl mwy gan y BBC o ran rhaglennu Saesneg na newyddion a materion cyfoes yn unig.

And, of course, the Presiding Officer has highlighted the democratic deficit that exists in the coverage of Welsh affairs by the national media, and has questioned whether the licence fee payers in Wales are being short-changed by the BBC's lack of coverage. Like the Presiding Officer, the Welsh Liberal Democrats support a devolved governance structure of the BBC, as recommended by the Silk commission, which will go some way to addressing that particular democratic deficit.

Ac wrth gwrs, mae'r Llywydd wedi tynnu sylw at y diffyg democrataidd sy'n bodoli o ran y sylw a roddir i faterion Cymreig gan y cyfryngau cenedlaethol, ac wedi holi a oedd y rhai sy'n talu ffi'r drwydded yng Nghymru yn cael cam oherwydd diffyg sylw'r BBC. Fel y Llywydd, mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn cefnogi strwythur llywodraethu datganoledig ar gyfer y BBC, fel yr argymhellwyd gan gomisiwn Silk, a fydd yn mynd beth o'r ffordd tuag at fynd i'r afael â'r diffyg democrataidd hwnnw.

The media and creative industries are essential to our economy. The creative industries are a major economic driver in our country, publicly evidenced by the famous Pinewood studios, but also by the smaller studios, such as the Bay Studios in Swansea, which is attracting jobs and investment to the Swansea area, with links to the university, and providing home-grown investment, as opposed to the inward investment like Pinewood.

Mae'r cyfryngau a'r diwydiannau creadigol yn hanfodol i'n heconomi. Mae'r diwydiannau creadigol yn un o brif sbardunau economaidd ein gwlad, fel yr amlgysir yn gyhoeddus gan stiwdios enwog Pinewood, ond hefyd gan stiwdios llai, fel Stiwdios y Bae yn Abertawe, sy'n denu swyddi a buddsoddiad i ardal Abertawe, gyda chysylltiadau â'r brifysgol a chan ddarparu buddsoddiad cartref, yn hytrach na buddsoddiad o'r tu allan fel Pinewood.

S4C brings significant benefits to our Welsh economy. Every £1 invested by S4C in the creative industry more than doubles its value to the economy, with individual productions having a direct impact on the areas in which they are filmed. [Interruption.] Of course, Simon.

Daw S4C â manteision sylweddol i'n heconomi yng Nghymru. Mae pob £1 a fuddsoddir gan S4C yn y diwydiant creadigol yn mwy na dyblu ei gwerth i'r economi, gyda chynrychiadau unigol yn effeithio'n uniongyrchol ar yr ardaloedd lle y cânt eu ffilmio. [Torri ar draws.] Wrth gwrs, Simon.

15:34

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm grateful. The Member just mentioned how important S4C was, and, of course, we will support the Liberal Democrat amendment, but why on earth, when you were in Government in Westminster, did you cut the funding for S4C?

Diolch. Mae'r Aelod newydd sôn pa mor bwysig oedd S4C, ac wrth gwrs, byddwn yn cefnogi gwelliant y Democratiaid Rhyddfrydol, ond pam ar y ddaear, pan oeddech chi mewn grym yn San Steffan, y gwnaethoch chi dorri'r cyllid ar gyfer S4C?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:34

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I'm going to get on to that, but I think what you don't know is what was happening behind the scenes, Simon. And, in fact, the last proposal—as you know, S4C is funded currently by the Department for Culture, Media and Sport to the tune of, I'm trying to find the figure here, just under £7 million—was to cut that funding and the Liberal Democrats intervened to make sure that was held—that that stayed—and, of course, we also intervened right at the beginning of the coalition Government to try to stabilise and promote the value of S4C. So, although, yes, I agree with you that S4C is significantly worse off now than it was in 2010, the Liberal Democrats did everything we could, as the smaller party in that coalition, to protect its future and to sustain it, and certainly make sure that the current funding, which is there at the moment, was maintained despite proposals to remove it. So, yes, I think that's where we are in terms of S4C.

Wel, rwy'n mynd i ddod at hynny, ond rwy'n meddwl mai'r hyn nad ydych yn ei wybod yw beth oedd yn digwydd tu ôl i'r llenni, Simon. Ac mewn gwirionedd y cynnig diwethaf—fel y gwyddoch, mae S4C yn cael ei ariannu ar hyn o bryd gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, sef, rwy'n ceisio dod o hyd i'r ffigur yma, ychydig o dan £7 miliwn—oedd torri'r cyllid hwnnw ac fe ymyrrodd y Democratiaid Rhyddfrydol i wneud yn siŵr fod hwnnw'n cael ei gadw—fod hwnnw'n aros—ac wrth gwrs, fe ymyrron ni ar ddechrau'r Llywodraeth glymblaid i geisio sefydlogi a hyrwyddo gwerth S4C. Felly, do, er fy mod yn cytuno â chi bod S4C gryn dipyn yn waeth ei fyd yn awr nag yn 2010, gwnaeth y Democratiaid Rhyddfrydol bopeth yn ein gallu, fel y blaid lai yn y glymblaid honno, i gynnal y sianel a diogelu ei dyfodol, ac yn sicr i wneud yn siŵr fod y cyllid cyfredol, sydd yno ar hyn o bryd, yn cael ei gynnal er gwaethaf argymhellion i'w ddileu. Felly, ie, rwy'n meddwl mai dyna lle'r ydym arni o ran S4C.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

We need to recognise that S4C is excellent at nurturing indigenous companies and creating jobs. The overall impact of filming the first series of 'Hinterland' in Ceredigion, a convergence area, was over £1 million, and as a publisher/broadcaster, S4C spends nearly 81 per cent of its commissioning budget on the independent sector, supporting jobs and skills development, and it's the only broadcaster that commissions to this extent across Wales. So, clearly, we do need to ensure that the future of S4C is sustained.

Mae angen i ni gydnabod bod S4C yn ardderchog am feithrin cwmnïau cynhenid a chreu swyddi. Roedd effaith gyffredinol ffilmio'r gyfres gyntaf o 'Y Gwyll' yn ardal gydgyfeirio Ceredigion dros £1 filiwn, ac fel cyhoeddwr/darlledwr, mae S4C yn gwario bron i 81 y cant o'i gyllideb gomisiynu ar y sector annibynnol, gan gefnogi swyddi a datblygu sgiliau, a dyma'r unig ddarlledwr sy'n comisiynu'r i'r graddau hyn ar draws Cymru. Felly, yn amlwg, mae angen i ni sicrhau bod dyfodol S4C yn cael ei gynnal.

In terms of the charter renewal process, it is concerning that a memorandum of understanding between the Welsh and UK Governments is limited. In fact, it is second-rate compared with the Scottish Government memorandum. I know the deputy Minister for Culture, Sport and Tourism told the communities committee last week that there are no accountability arrangements for the BBC in Wales set out within the Welsh memorandum. We think that that is something that is concerning and needs to be put right. It's also worrying that the current Conservative Government in the UK is failing to have a Welsh representative on its panel working on the renewal of the BBC's royal charter. Against this backdrop, it is vital that we do all we can to make the case to the UK Government on the importance of maintaining the independence of S4C and the need for a sustainable funding basis to protect the future of Welsh-language broadcasting. We need some clarity from the UK Government as to its future intentions regarding the BBC and Welsh-language broadcasting and we urge the Welsh Government to make this case on behalf of Wales.

O ran proses adnewyddu'r siarter, mae'n destun pryder fod y memorandwm cyd-ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn gyfyngedig. A dweud y gwir, mae'n eilradd o'i gymharu â memorandwm Llywodraeth yr Alban. Gwn fod y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth wedi dweud wrth y pwyllgor cymunedau yr wythnos diwethaf nad oes unrhyw drefniadau atebolrwydd ar gyfer y BBC yng Nghymru wedi'u nodi ym memorandwm Cymru. Credwn fod hynny'n rhywbeth sy'n peri pryder ac angen ei unioni. Mae hefyd yn destun pryder fod Llywodraeth Geidwadol y DU ar hyn o bryd yn methu â chael cynrychiolydd o Gymru ar ei banel sy'n gweithio ar adnewyddu siarter frenhinol y BBC. Yn erbyn y cefndir hwn, mae'n hanfodol ein bod yn gwneud popeth yn ein gallu i gyflwyno'r achos i Lywodraeth y DU ynglŷn â phwysigrwydd cynnal annibyniaeth S4C a'r angen am sylfaen gyllid gynaliadwy i ddiogelu dyfodol darlledu yn yr iaith Gymraeg. Mae arnom angen eglurder gan Lywodraeth y DU ynglŷn â'i bwriadau yn y dyfodol ynghylch y BBC a darlledu yn yr iaith Gymraeg ac rydym yn annog Llywodraeth Cymru i gyflwyno'r achos hwn ar ran Cymru.

As I said earlier, the Lib Dems in Government worked hard to ensure that S4C retained its independence and had a more stable funding settlement despite the threats that were being made to it and during the passage of the Public Bodies Bill. The operating agreement that was reached between the BBC and S4C ensured that editorial, managerial and operational independence was maintained and provided that financial stability. However, the future funding of S4C is about to reach a tipping point, with Government funding not guaranteed beyond this financial year and uncertainty over UK Government plans for the BBC licence fee. So, I think we clearly need to make that case to the UK Government as well, and I certainly hope that we can support the Welsh Liberal Democrat amendments here to underline the Assembly's concern about this issue and our support for the continuance of S4C and that funding.

Fel y dywedais yn gynharach, gweithiodd y Democratiaid Rhyddfrydol yn galed yn y Llywodraeth i sicrhau bod S4C yn cadw ei annibyniaeth ac yn cael setliad ariannol mwy sefydlog er gwaethaf y bygythiadau yn ei erbyn ac yn ystod taith y Bil Cyrff Cyhoeddus. Roedd y cytundeb gweithredu a wnaed rhwng y BBC ac S4C yn sicrhau bod annibyniaeth olygyddol, reolaethol a gweithredol yn cael ei chynnal a darparai'r sefydlogrwydd ariannol hwnnw. Fodd bynnag, mae cyllid ar gyfer S4C yn y dyfodol ar fin cyrraedd trobwynt, gan nad oes cyllid wedi'i warantu gan y Llywodraeth y tu hwnt i'r flwyddyn ariannol hon ac oherwydd ansicrwydd ynglŷn â chynlluniau Llywodraeth y DU ar gyfer ffi trwydded y BBC. Felly, rwy'n credu ei bod yn amlwg fod angen i ni gyflwyno'r achos hwnnw i Lywodraeth y DU yn ogystal, ac rwy'n sicr yn gobeithio y gallwn gefnogi gwelliannau Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yma i danlinellu pryderon y Cynulliad ynghylch y mater hwn a'n cefnogaeth i barhad S4C a'r cyllid hwnnw.

15:37

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae'n dda gen i gyfrannu i'r ddadl hon, ond hoffwn ddatgan budd o dan y rheolau newydd, gan fy mod yn cyfrannu erthyglau papur newydd i nifer o'r papurau newydd sydd eisoes wedi cael eu crybwyll yn y ddadl, ond heb dderbyn ceiniog amdanyn nhw, wrth gwrs.

Mae lleisiau amrywiol ac annibynnol yn hanfodol er mwyn galluogi trafodaeth ddemocrataidd gyflawn a hyrwyddo bywyd diwylliannol. Er hynny, mae tirlun y cyfryngau ledled gwledydd Prydain o dan reolaeth llond dwrn o gorfforaethau mawr sy'n methu cynrychioli poblogaethau Prydain, ac yn arbennig felly yn methu cynrychioli cymunedau a diwylliannau Cymru. Mae darlledwyr cyhoeddus, megis y BBC ac S4C, yn chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o hysbysu, addysgu a diddanu, ac maent yn arbennig o bwysig mewn cenedl lle mae cwmnïau masnachol yn dangos cyn lleied o ddiddordeb mewn darparu gwasanaethau cyfryngau lleol, yn enwedig yn y Gymraeg, ac mewn oes sy'n cael ei gyrru gan y we a clicio ar y we.

Er gwaethaf hyn oll, mae darlledwyr cyhoeddus yn gweld toriadau cyllideb sy'n arwain at golli swyddi, troi at swyddi mwy achlysurol, colli sgiliau a llai o gapasiti i gynhyrchu cynnwys o ansawdd uchel. Er gwaethaf hyn, rwy'n falch gweld bod ansawdd a chreadigrwydd yn dal yn bwysig yng Nghymru. Mae 'Y Gwyll' newydd gael ei chrybwyll. Mae'n arbennig o wych gweld y gwaith y mae S4C yn ei wneud ar hyn o bryd. Mae'n arbennig o dda bod cadarnhad bod S4C yn parhau i symud ei phencadlys i Gaerfyrddin, allan o Gaerdydd, ac i mewn i'r fro Gymraeg, ond mae dyfodol S4C yn y fantol oherwydd y toriadau a ddechreuwyd o dan y Llywodraeth flaenorol yn San Steffan, ac sydd yn dal yn fgythiad o hyd.

Mae toriadau nid yn unig i S4C ond i BBC Cymru drwy'r system drwyddedu hefyd, heb fawr o ymgynghori â Llywodraeth Cymru, y Cynulliad hwn a phobl Cymru yn ehangach. Mae yna drafodaeth, wrth gwrs, nawr ynglŷn â siartr newydd y BBC, ond rwy'n ofni bod y drafodaeth yna ar lefel bellach ac anodd i'r aelod cyffredin o'r cyhoedd allu ei chyrraedd, fel petai. Mae'n golygu, wrth gwrs, yn sgil hynny, fod penderfyniadau am ddyfodol y cyfryngau yn cael eu gwneud heb yr atebolrwydd priodol.

I'm pleased to contribute to this debate, but I would like to declare an interest under the new rules, given that I contribute newspaper articles to a number of the newspapers that have already been mentioned in the debate, but without receiving a penny for them, of course.

Various voices and independent voices are crucial in assuring a full democratic conversation and promoting cultural life. However, the landscape of the media throughout Britain is in the control of a handful of large corporations that can't represent the populations of Britain, and particularly therefore can't represent the communities and cultures of Wales. Public broadcasters, such as the BBC and S4C, play a crucial role in the work of informing, educating and entertaining, and they're particularly important in a nation where commercial companies show so little interest in providing local media services, particularly through the medium of Welsh, and in an age that is driven by the internet and clicking online.

Despite all of this, public broadcasters are seeing budgetary cuts that are leading to job losses, turning to more occasional work, deskilling and a reduction in capacity in producing high quality output. Despite this, I'm pleased to see that quality and creativity is still important in Wales. 'Y Gwyll/Hinterland' has just been mentioned. It's excellent to see the work that S4C is doing at the moment. It's particularly good that there is confirmation now that S4C will continue to move its headquarters to Carmarthen, out of Cardiff, and into Welsh-speaking Wales, as it were, but the future of S4C is in the balance because of the cuts that started under the previous Westminster Government, and which are still a very real threat.

There are cuts not only to S4C but also to BBC Cymru Wales through the licensing system, without much consultation with the Welsh Government, this Assembly and the people of Wales more broadly. There is a debate now, of course, about a new charter for the BBC, but I do fear that that debate is happening at a level that is too far removed for ordinary members of the public to participate. It does mean, of course, as a result of that, that decisions on the future of the media are being taken without the necessary accountability.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Gyda'r drafodaeth yna'n cychwyn ar adnewyddu siatr y BBC a ffi y drwydded, mae'n amlwg bod rhai o gystadleuwyr y gorfforaeth, a fyddai'n hoffi cael y gynulleidfa sydd gan y gorfforaeth, yn y sector preifat wrth eu boddau yn hau a phentyrru storïau ynglŷn â methiannau'r BBC, hau amheuaeth ynglŷn â dyfodol darlledu Cymraeg, neu, yn wir, wrth eu bodd yn gweld rhagor o doriadau i brif ddarlledwyr cyhoeddus gwledydd Prydain. Wrth gwrs, mae toriadau'n dod mewn dwy ffordd: mae torri yn uniongyrchol i'r BBC a hefyd mae yna bentyrru cyfrifoldebau ychwanegol ar ben y BBC, megis symud cyfrifoldeb S4C a'r World Service, heb arian digonol i ddelio â hynny. Fel sydd wedi cael ei grybwyll yn y ddacl eisoes, mae papurau newydd lleol hefyd yn chwarae rôl hanfodol yn y gwaith o ddal gwleidyddion i gyfrif a dathlu bywyd lleol. Fodd bynnag, mae perchnogion yn mynd ati yn gynyddol i dynnu adnoddau newyddiadurol o'r cymunedau hynny, sydd, yn y gorffennol, wedi bod yn ffynhonnell elw sylweddol iddyn nhw.

Mae busnesau newydd, serch hynny, yn dechrau brigo, mewn print ac ar-lein. Yn yr ardal rwyf i'n ei chynrychioli, rwy'n edrych ar waith cwmnïau megis Llanelli.com, a phapurau newydd, megis 'The Pembrokeshire Herald', 'The Llanelli Herald' a 'The Carmarthenshire Herald', sy'n dangos bod yna fywyd o hyd ym maes papurau newydd, ond mae angen mwy o gefnogaeth ddigonol a mentrau mwy saff i gefnogi'r rhain. Mae'n ddiddorol gweld bod y BBC wedi cynnig newyddiaduraeth ar gyfer papurau lleol. Nid wyf yn gwybod sut y gall hynny weithio o ran atebolrwydd newyddiadurol nac o ran atebolrwydd lleol, ond mae'n dangos o leiaf fod y cysyniad bod gennym ni gronfa o arian cyhoeddus a ddylid cael ei defnyddio, ie, ar gyfer y BBC, ond hefyd bod S4C a'r wasg leol yn dod i mewn i'r cwestiwn, yn ffordd ymlaen, efallai, i drafod a sylweddoli sut y gallwn ni wella'r arlwy ddiigidol a'r arlwy gyfryngol sydd gennym ni yng Nghymru.

Dyna pam y mae Plaid Cymru o'r farn y dylem gael datganoli cyfrifoldeb llawn, yn arbennig o ran S4C, i Gymru, gyda Llywodraeth Cymru'n chwarae rôl llawer mwy amlwg wrth benodi i awdurdod S4C. Ond rwyf o'r farn hefyd fod angen datganoli pellach ac ehangach o ran Ofcom, a'r BBC yn dod yn fwy ffederal yn ogystal. Roeddwn yn gweld fod Jon Cruddas wedi galw am y math yma o ddatblygiad yn ddiweddar i'r Blaid Lafur. Mae angen i Ofcom yn arbennig fod yn llawer mwy atebol i Gymru ac yn llawer mwy gweithgar—

With that debate commencing on the new BBC charter and the licence fee, it's clear that some of the corporation's competitors, who would like to access the corporation's audience, in the private sector are enjoying piling up stories on the failings of the BBC, casting doubt on the future of Welsh-language broadcasting, or, indeed, they are taking delight in seeing further cuts to Britain's main public broadcasters. Of courses, the cuts are being made in two different ways: there are direct cuts to the BBC and also there is the additional responsibilities being piled on the BBC's shoulders, such as the responsibility for S4C and the World Service, without sufficient funding to deal with that. As has been mentioned in the debate already, local newspapers also play a crucial role in the work of holding politicians to account and celebrating life at a local level. However, proprietors are increasingly removing journalistic resources from those communities, which, in the past, have been a source of significant profits for them.

New businesses, however, are starting to emerge, in print and online. In the area that I represent, I look at the work of companies such as Llanelli.com, and newspapers, such as 'The Pembrokeshire Herald', 'The Llanelli Herald' and 'The Carmarthenshire Herald', which all show that there is still vibrancy in the field of newspapers, but there is a need for greater and sufficient support and safer enterprises to support these. It's interesting to see that the BBC has offered to provide journalism for local newspapers. I'm not sure how that could work in terms of journalistic accountability or in terms of local accountability, but it does at least demonstrate that the concept that we do have a source of public funding that should be used, yes, for the BBC, but also that S4C and the local press also come into the question, is a way forward, perhaps, to discuss and realise how we can improve the digital and media output that we have here in Wales.

That's why Plaid Cymru is of the opinion that we should have the full devolution of responsibility, particularly for S4C, to Wales, with the Welsh Government playing a far more prominent role in appointing to S4C's authority. But I'm also of the view that we need further and broader devolution in terms of Ofcom, and the BBC becoming more federal as well. I saw that Jon Cruddas had called for this kind of development recently to the Labour Party. Ofcom in particular needs to be far more accountable to Wales and far more active—

- 15:43 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Conclude, please. Gorffennwch, os gwelwch yn dda.
- 15:43 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
[Yn parhau.]—yn yr hyn yr ydym yn ei wneud yn enw cyfryngau Cymraeg. [Continues.]—in what they do in the name of the Welsh media.
- 15:43 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Julie Morgan. Julie Morgan.

15:43

Julie Morgan [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much, Deputy Presiding Officer, for calling me to speak in this debate. I think it's absolutely essential that we have a non-London-based thriving media to shine a light on what we're doing in this Assembly and to hold us to account. We need a strong media to bounce ideas back and forth. I think it's absolutely essential for devolution that there is a strong media base in Wales and I think we need to do all we can to encourage that from this Assembly.

I wanted to raise the issue of the print media in Wales, in addition to the role of the broadcast media, because I think that many people, certainly in my constituency, do rely on newspapers to inform them of what is happening in the world. We all know that the print media in Wales is facing a declining readership. Readership is consistently going down. But this is actually a trend throughout the whole of the UK, because, for all regional papers across the UK, readership is declining and part of that is to do with the competition from online news.

As I understand it, the revenues from online advertising, which, after all, help fund the journalism we read, are growing but do not cover the falling revenue from print advertising, which is the inevitable consequence of declining readership.

I know that in the Assembly here, we really value the print media for its coverage because it still does, to some extent, set the news agenda here in Wales.

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd, am alw arnaf i siarad yn y ddadl hon. Rwy'n credu ei bod gwbl hanfodol fod gennym gyfryngau ffyniannus nad ydynt wedi'u lleoli yn Llundain i amlygu'r hyn rydym yn ei wneud yn y Cynulliad hwn ac i'n dwyn i gyfrif. Mae angen cyfryngau cryf i daflu syniadau yn ôl ac ymlaen. Rwy'n credu ei bod yn hollol hanfodol o ran datganoli fod yna sylfaen gyfryngol gref yng Nghymru, ac rwy'n credu bod angen i ni wneud popeth yn ein gallu i annog hynny gan y Cynulliad hwn

Roeddwn i eisiau crybwyll y cyfryngau print yng Nghymru, yn ogystal â rôl y cyfryngau darlledu, oherwydd credaf fod llawer o bobl, yn sicr yn fy etholaeth i, yn dibynnu ar bapurau newydd i roi gwybod iddynt am yr hyn sy'n digwydd yn y byd. Rydym i gyd yn gwybod bod y cyfryngau print yng Nghymru yn wynebu gostyngiad yn nifer y bobl sy'n eu darllen. Mae'r nifer yn gostwng yn gyson. Ond mae hon yn duedd ledled y DU mewn gwirionedd, gan fod nifer darllenwyr pob papur rhanbarthol ar draws y DU yn gostwng ac mae hynny'n ymwneud yn rhannol â'r gystadleuaeth â newyddion ar-lein.

Yn ôl yr hyn a ddeallaf, mae'r refeniw o hysbysebu ar-lein, sydd, wedi'r cyfan, yn helpu i ariannu'r newyddiaduraeth a ddarllenwn, yn tyfu ond nid yw'n gwrthbwysu'r gostyngiad yn y refeniw o hysbysebu print, sy'n ganlyniad anochel i'r gostyngiad yn nifer y darllenwyr.

Gwn ein bod yn gwerthfawrogi'r cyfryngau print yn y Cynulliad hwn oherwydd ei sylw am ei fod yn parhau, i ryw raddau, i osod yr agenda newyddion yma yng Nghymru.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

15:44

Mike Hedges [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

15:44

Julie Morgan [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Certainly.

Yn sicr.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

15:44

Mike Hedges [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Does the Member agree with me about the importance of local newspapers, such as the 'Evening Post', which actually provides local news you cannot get anywhere else?

A yw'r Aelod yn cytuno â mi ynglŷn â phwysigrwydd papurau newydd lleol, megis yr 'Evening Post', sy'n darparu newyddion lleol na allwch ei gael yn unman arall mewn gwirionedd?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

15:44

Julie Morgan [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Mike Hedges for that important intervention, because I think the 'South Wales Evening Post' has already been praised here today and is being praised here again. I would expect nothing different from Mike Hedges than to praise the 'South Wales Evening Post', but I think he makes a very serious point, because the local newspapers—it's the same locally here with the 'South Wales Echo' and some of the Valleys' papers—do cover things that otherwise, people would not be able to read.

Diolch i Mike Hedges am ei ymyriad pwysig, gan fy mod yn credu bod y 'South Wales Evening Post' eisoes wedi cael ei ganmol yma heddiw ac mae'n cael ei ganmol yma eto. Ni fyddwn yn disgwyl i Mike Hedges wneud dim heblaw canmol y 'South Wales Evening Post', ond rwy'n meddwl ei fod yn gwneud pwynt difrifol iawn, gan fod y papurau newydd lleol—mae'r un fath yma'n lleol gyda'r 'South Wales Echo' a rhai o bapurau'r Cymoedd—yn rhoi sylw i bethau na fyddai pobl yn gallu darllen amdanynt fel arall.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

But, I wanted to highlight the worrying trend here in Cardiff at Media Wales, which is owned by Trinity Mirror and to point out the fact that the operation has shrunk significantly. I'd like to declare an interest as my husband writes a weekly column for the 'Western Mail', but I want to draw attention to the fact that there has been wave after wave of redundancies in Media Wales in Cardiff, with more announced in the last two weeks. In fact, the figures I have from the National Union of Journalists show that well over 100 editorial jobs have been lost through redundancy over the last 12 years. Nobody could deny that the news operation in Cardiff, where journalists produce the 'Western Mail' and 'South Wales Echo', as well as the regional weekly titles for the Valleys, is a much smaller operation than it once was.

My concern is that that downward trend in editorial numbers means that fewer and fewer staff have to cover the ever-growing range of news, including scrutinising the policies and announcements that come out of this Assembly, and there is less and less scope to do that and less time to give in-depth coverage of serious issues. I think it's very difficult to get that in-depth coverage here in Wales in the print media.

I'm sure that Members like me who live in this area and who read both the 'Western Mail' and the 'South Wales Echo' can't have failed to realise how much of the content is now very similar in both papers, and that, in fact, you can actually read identical articles in the 'Western Mail' as you can in the 'South Wales Echo'. Obviously, they're owned by the same company, Trinity Mirror, but there used to be healthy competition between the journalists on the two papers to 'scoop' each other, and the readers really benefited from lively, entertaining news coverage when there was a bit of an edge to get to a deadline and to get something out. I fear that that has been lost.

There is too little separate content and I think, mostly, this must be due to the fact that too few journalists are trying to report on the same amount of, if not more, news. It's already been mentioned about the fact that the print media in Wales is now owned almost entirely by Trinity Mirror, and, perhaps, when it's owned by one body, it's not able to provide the full and varied examples of what's happening here in Wales. It's not good for the Welsh people that that's happening and it's not healthy for our democracy.

Mike Hedges referred to the importance of the local news. People used to read the 'South Wales Echo' for very local news and it is still there, but it is diminished and, as I say, the articles are reflected in exactly the same way in the 'Western Mail' and the 'South Wales Echo'. Thank you very much.

Ond roeddw'n i eisiau sôn am y duedd sy'n peri pryder yma yng Nghaerdydd yn Media Wales, sy'n eiddo i Trinity Mirror, a thynnu sylw at y ffaith fod y gweithgarwch wedi crebachu'n sylweddol. Hoffwn ddatgan buddiant gan fod fy ngŵr yn ysgrifennu colofn wythnosol i'r 'Western Mail', ond rwyf am dynnu sylw at y ffaith y bu ton ar ôl ton o ddiswyddiadau yn Media Wales yng Nghaerdydd, gyda mwy wedi'u cyhoeddi yn y pythefnos diwethaf. Yn wir, mae'r ffigurau sydd gennyf gan Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr yn dangos bod ymhell dros 100 o swyddi golygyddol wedi'u colli drwy ddiswyddiadau dros y 12 mlynedd diwethaf. Ni allai neb wadu bod y gweithgarwch newyddion yng Nghaerdydd, lle y mae newyddiadurwyr yn cynhyrchu'r 'Western Mail' a'r 'South Wales Echo', yn ogystal â'r papurau wythnosol rhanbarthol ar gyfer y Cymoedd, yn llawer llai nag y bu.

Fy mhryder i yw bod y duedd ar i lawr yn nifer y staff golygyddol yn golygu bod ganddynt lai a llai o staff i ymdrin â'r ystod gynyddol o newyddion, gan gynnwys craffu ar y polisiau a'r cyhoeddiadau a ddaw o'r Cynulliad hwn, ac mae llai a llai o gyfle i wneud hynny a llai o amser i roi sylw manwl i faterion difrifol. Rwy'n credu ei bod yn anodd iawn cael sylw manwl o'r math hwnnw yng Nghymru yn y cyfryngau print.

Rwy'n siwr na fydd Aelodau fel fi sy'n byw yn yr ardal hon ac sy'n darllen y 'Western Mail' a'r 'South Wales Echo' wedi methu â sylwi faint o'r cynnwys sydd bellach yn debyg iawn yn y ddau bapur, ac y gallwch ddarllen erthyglau sy'n union yr un fath yn y 'Western Mail' a'r 'South Wales Echo' mewn gwirionedd. Yn amlwg, maent yn eiddo i'r un cwmni, Trinity Mirror, ond roedd cystadleuaeth iach yn arfer bodoli rhwng newyddiadurwyr y ddau bapur i gael straeon gwell na'i gilydd, ac roedd y darllenwyr yn elwa'n wirioneddol o sylw newyddion bywiog a difyr pan oedd rhywfaint o gystadleuaeth i gael stori'n barod mewn pryd a chael rhywbeth allan. Mae arnaf ofn fod hynny wedi'i golli.

Nid oes digon o gynnwys ar wahân ac rwy'n meddwl mai'r rheswm pennaf am hyn yw'r ffaith fod rhy ychydig o newyddiadurwyr yn ceisio adrodd ar yr un faint, os nad mwy, o newyddion. Crybwyllwyd eisoes fod y cyfryngau print yng Nghymru bellach yn eiddo i Trinity Mirror bron yn llwyr, a phan fo corff yn berchen ar y cyfan, efallai na all ddarparu enghreifftiau llawn ac amrywiol o'r hyn sy'n digwydd yma yng Nghymru. Nid yw'n dda i bobl Cymru fod hynny'n digwydd ac nid yw'n iach i'n democratiaeth.

Cyfeiriodd Mike Hedges at bwysigrwydd y newyddion lleol. Arferai pobl ddarllen y 'South Wales Echo' i gael newyddion lleol iawn ac mae'n dal i fod yno, ond mae llai ohono ac fel y dywedais, caiff yr erthyglau eu cyflwyno yn yr un ffordd yn union yn y 'Western Mail' a'r 'South Wales Echo'. Diolch yn fawr iawn.

Roedd agwedd y Llywodraeth glymblaid ddiwethaf tuag at S4C yn dangos diffyg dealltwriaeth ohoni ac yn sarhaus o'r iaith Gymraeg a'i sefyllfa fregus. Mae'n amlwg, bellach, fod y Llywodraeth Doriaidd yn Llundain am danseilio a chrebachu'r BBC ei hun, ac wrth i hynny ddigwydd, mi fydd S4C ei hun, bellach, yn cael ei thanseilio a'i gwano. Mae'n amlwg imi nad yw S4C yn ddiogel yn nwylo'r Torïaid. Mi glywch chi ddigon o eiriau teg, ac mi glywn ni rai'r prynhawn yma, yn ddiau, ond mae eu gweithredoedd yn eu bradychu nhw. Mae'n debyg na fydd canlyniad yr arolwg o siarter y BBC yn cael ei gyhoeddi tan hydref 2016, ond eisoes mae DCMS, sy'n dal i ariannu S4C yn rhannol, yn chwilio am doriadau o 40 y cant yng nghyllidebau'r cyrff y mae'n eu hariannu. Mae'n ymddangos bod y Torïaid, felly, yn gwybod pris pob peth ond gwerth fawr o ddim byd.

Fe alwodd y comisiwn Silk ar i'r elfen hon o gyllideb S4C gael ei datganoli i Gymru, ac rydym ni ym Mhlaid Cymru'n credu y dylai'r elfen o'r gyllideb sy'n dal i orwedd yn DCMS gael ei throsglwyddo i Lywodraeth Cymru. Wrth i hynny ddigwydd, mae Plaid Cymru am sicrhau annibyniaeth olygyddol S4C; mae'n rhaid i bobl Cymru gael llais wrth lunio dyfodol, strwythur a chyllido S4C, wrth edych ymlaen yn y blynyddoedd nesaf hyn, lle mi fydd yna newidiadau yn nhirwedd darlledu yng Nghymru ac, mae'n debyg, trwy wledydd Prydain yn gyfan gwbl.

Nid oes dim dwywaith bod Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad ei hun â llawer gwell dealltwriaeth o, a mwy o gydymdeimlad â, rôl S4C fel darlledwr Cymraeg. Mae digon o dystiolaeth wedi ei chasglu fod cefnogaeth gyffredinol i wasanaeth S4C ymhlith siaradwyr Cymraeg a rhai di-Gymraeg fel ei gilydd. Mae llanw a thrai, wrth gwrs, yn rhan annatod o fywyd sianelau teledu, a radio hefyd, ond mae pwysigrwydd S4C yng nghyd-destun yr iaith a defnydd yr iaith yn gwbl allweddol.

Rwy'n credu ein bod ni i gyd sydd yn byw mewn ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio'n weddol gyson yn sylweddoli bod sefyllfa'r Gymraeg fel iaith lafar ac fel iaith gymunedol yn dal yn fregus iawn, iawn er gwaethaf y twf cryf ym maes addysg cyfrwng Cymraeg. Mae unrhyw iaith lai ei defnydd angen arwyddion allanol o'i gwerth a'i statws, neu mae pobl ifanc a theuluoedd ifanc yn troi eu cefnau arni. Dyna sydd wedi digwydd yn hanes y Gymraeg yng Nghymru a dyna sy'n digwydd i ieithoedd lleiafrifol ar hyd a lled y byd. Mae o'n batrwm cyffredin a dyna pam mae angen y sefydliadau hynny, a'r arwyddion allanol hynny, i ddod â statws a gwerth i'ch iaith frodorol chi.

The attitude of the coalition Government towards S4C showed a lack of understanding and was an insult to the Welsh language and its vulnerable position. It's clear, now, that the Conservative Government in London wants to undermine and shrink the BBC itself and, by doing so, S4C will also be undermined and weakened. It's clear to me that S4C isn't safe in the Conservatives' hands. You will hear lots of warm words, and no doubt we will hear some this afternoon, but their actions betray the Conservatives. It's likely that the review of the BBC's charter will not be published until autumn 2016, but the DCMS, which continues to partly fund S4C, is already looking for cuts of 40 per cent in the budget of the bodies that it funds. It appears, therefore, that the Conservatives know the price of everything but the value of almost nothing.

The Silk commission called for this element of S4C's budget to be devolved to Wales, and we in Plaid Cymru believe that this element of the budget, which still lies within DCMS, should be transferred to the Welsh Government. In doing so, Plaid Cymru wants to ensure the editorial independence of S4C, and the people of Wales need to have a voice in deciding the future, structure and funding of S4C, as we look ahead to the next few years, where there will be changes in the landscape of broadcasting in Wales and, it's likely, throughout the nations of the UK.

There's no doubt that the Welsh Government and the Assembly itself have a much better understanding of, and more sympathy with, the role of S4C as a Welsh-medium broadcaster. There's plenty of evidence that has been gathered that there is general support for S4C's services amongst Welsh speakers, and those who don't speak Welsh. Highs and lows, of course, are an intrinsic part of the history of television channels, and of radio too, but the importance of S4C for the use of the language and in the context of the language is vital.

I think that all of us who live in areas where the Welsh language is used very frequently realise that the situation of the Welsh language as a spoken language and as a community language remains very fragile, despite the strong growth in the area of Welsh-medium education. Any language that is used less needs external signs of its value and status, or young people and young families will turn their backs on that language. That's what's happened in the history of the Welsh language in Wales and that's what's happening to minority languages worldwide. It's a general pattern and that's why those institutions and those external signs are needed to bring status and value to your indigenous language.

Mae pob diwylliant hefyd angen cyfleon i weld adlewyrchiad ohono'i hun, boed hynny mewn llenyddiaeth o bob math, newyddion, drama a'r celfyddydau oll, heb sôn am lefydd gwaith lle caiff yr iaith ei defnyddio a'i pharchu. Mae S4C, wrth gwrs, yn cyflawni hyn i gyd, nid yn llwyddiannus bob tro, wrth gwrs, ond mae'n llwyfan cyhoeddus i'r diwylliant Cymraeg ac yn fwyfwy dros y blynyddoedd diwethaf hyn hefyd yn ymestyn allan i gymunedau di-Gymraeg. Rwy'n credu bod hynny wedi bod yn agwedd gadarnhaol iawn, iawn o ran gwaith S4C. Ond, yn ei hanfod, mae o'n wasanaeth Cymraeg ei iaith ac yn rhoi llwyfan i agweddau amryfal y diwylliant Cymraeg. Dyna pam ei bod yn hollbwysig fod y Cynulliad hwn a'r Llywodraeth hon yng Nghymru yn cefnogi S4C i'r carn, ac yn dod â hi, mewn amser byr, gobeithio, dan ofal pobl Cymru er mwyn sicrhau ei dyfodol a hefyd cadarnhau'r Gymraeg wrth i hynny ddigwydd.

Every culture also needs opportunities to see reflections of itself, whether in literature of all kinds, news, drama and all of the arts, not to mention workplaces where the language is used and respected. S4C, of course, achieves all of those aims, not successfully at all times, but it is a public platform for Welsh culture and, increasingly over the past few years, it has been reaching out to non-Welsh speaking communities. I think that that has been a very positive aspect of S4C's work. At its root, it's a Welsh-language service and offers a platform for various elements of Welsh culture. That's why it's vitally important that this Assembly and this Government in Wales do support S4C to the hilt and, as a matter of urgency, bring it under the wings of the people of Wales to ensure its future and also to support the Welsh language in doing so.

15:53 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Naturally, the broadcast media itself has given good coverage of the discussions around the possibilities for the BBC's future, but I think it's pleasing to see that the print and online media have been taking up the story as well, because the BBC really is a national treasure and, like the NHS, almost all of us have grown up with it. It's part of our personal histories. For all we may say that it is still failing to adequately represent all parts of the UK in its central programming, the prospect of it disappearing from all our lives would be fiercely resisted, I think, by all parts of the UK, even though all parts of the UK are far from immune to the ever-widening choice offered by other broadcasters —

Yn naturiol, mae'r cyfryngau darlledu eu hunain wedi rhoi sylw da i'r trafodaethau ynghylch y posibiladau ar gyfer dyfodol y BBC, ond mae'n braf gweld bod y cyfryngau print a'r cyfryngau ar-lein wedi bod yn rhoi sylw i'r stori hefyd, gan fod y BBC yn drysor cenedlaethol go iawn ac fel y GIG, mae bron pob un ohonom wedi tyfu i fyny gyda'r BBC. Mae'n rhan o'n hanesion personol. Er ein bod yn dweud efallai ei fod yn dal i fethu â chynrychioli pob rhan o'r DU yn ddigonol yn ei raglenni canolog, byddai unrhyw argoel ei fod yn mynd i ddiflannu o fywydau pawb ohonom yn cael ei wrthwynebu ffyrnig, rwy'n credu, ym mhob rhan o'r DU, er bod pob rhan o'r DU ymhell o fod yn rhydd rhag y dewis sy'n ehangu o hyd a gynigir gan ddarlledwyr eraill—

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:54 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you give way?

A wnewch chi ildio?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:54 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, by all means.

Gwnaf, ar bob cyfrif.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:54 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Have you had that assurance from the Minister, Mr Whittingdale, that he will protect it?

A ydych wedi cael y sicrwydd hwnnw gan y Gweinidog, Mr Whittingdale, y bydd yn ei ddiogelu?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:54 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Minister has said only this week that the prospect of the BBC disappearing isn't there. [Interruption.] There is no prospect of losing the BBC. I can't quite remember what he said, but that's the gist of his words, anyway.

Yr wythnos hon, dywedodd y Gweinidog nad oedd yna argoel y byddai'r BBC yn diflannu. [Torri ar draws.] Nid oes unrhyw argoel y bydd y BBC yn cael ei gollu. Ni allaf gofio'n iawn yr hyn a ddywedodd, ond dyna oedd swm a sylwedd ei eiriau, beth bynnag.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

But, I think that this idea of widening choice in broadcasting and refusing to face up to that is the biggest threat to the BBC that we face. So, there are two things to remember in this debate: one, the BBC is staying—there is no end of days—and the UK Government's proposals for charter renewal are just that; they are proposals. In addition to the media commentary, the parliamentary committee report and the BBC's own charter review document, I do hope that today's debate will help all of us firm up the views that we might be submitting to the DCMS consultation on those proposals.

Ond credaf mai'r syniad hwn o ehangu dewis ym maes darlledu a gwrthod wynebu hynny yw'r bygythiad mwyaf i'r BBC sy'n ein hwynebu. Felly, mae dau beth i'w cofio yn y drafodaeth hon: un, mae'r BBC yn aros—nid yw ar ben arno—ac o ran argymhellion Llywodraeth y DU ar gyfer adnewyddu'r siarter, dyna'n union ydynt; argymhellion. Yn ogystal â sylwebaeth y cyfryngau, adroddiad y pwyllgor seneddol a dogfen adolygu siarter y BBC ei hun, rwy'n gobeithio y bydd y ddadl heddiw yn helpu pob un ohonom i gadarnhau'r safbwyntiau y gallem eu cyflwyno i ymgynghoriad yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar yr argymhellion hynny.

So, I welcome Plaid's decision to table this motion, following up our discussions in the Lib Dem debate on the same subject in June, more or less, but we find that the words in points 3 and 4 make the motion too uncertain for us to support as set out, even when improved by the Lib Dem amendments.

That said, of course, we recognise the impact of the media and the creative industries, not just on our Welsh culture, but the Welsh economy. I just endorse remarks made by others in the Chamber today. I think, just by way of example, that it's worth rehearsing the fact that S4C alone returns over £2 for every £1 invested from the public purse. The role of broadcast media in our economy is one of the reasons that Welsh Conservatives have been consistent in their call that S4C—and, indeed, all public service broadcasters—be accountable to this Assembly as well as the UK Parliament. I'm not sure if that's what point 4 of the motion was aiming at, because it wasn't clear to me what 'fundamental changes' Plaid would have liked to be discussed by committees. However, I am pleased that a UK Conservative Government Bill will be delivering that joint accountability, and I look forward to a constructive period of inter-parliamentary working with our public service broadcasters about what that joint accountability process will look like, including on Welsh representation in governance, following the Silk review.

I have no more enthusiasm for the prospect of big budget cuts for the BBC and, by extension, BBC Cymru Wales and S4C, than anyone else in this Chamber. I made that plain in June. However, I am more optimistic for BBC Cymru Wales and S4C than Plaid seems to be.

First of all, there is a clear acceptance in the BBC's own pre-charter report that it, as well as commercial broadcasters, must address programming in the nations, not just within the nations but in terms of portrayal across the network. In particular, it knows that it has a job of work to do on English-language programming in Wales, which has also been mentioned, but it does flag up the 'vital part' that the Welsh language plays in the whole service, and that it will continue not to just work closely with S4C, but to 'support' it.

Secondly, it seems to have grasped that its central news output should go beyond just saying 'the health service in England' as opposed to 'the health service'. It has gone beyond that again. It accepts that devolved nations are inadequately served, and they want to resolve that. Julie Morgan is right to say that broadcasting should be non-London when it comes to Wales. The way that the BBC is looking at this is by bringing down the walls of the silo and working with others, such as local Wales-based news organisations, as possibly the best way to do that. Even so, I understand that the hint of perhaps some protection for Wales in a round of cuts may be of little comfort until we're sure what the actual figures look like.

Felly, croesawaf benderfyniad Plaid Cymru i gyflwyno'r cynnig hwn, i ddilyn ein trafodaethau yn nadl y Democratiaid Rhyddfrydol ar yr un pwnc ym mis Mehefin, fwy neu lai, ond gwelwn fod y geiriau ym mhwynt 3 a 4 yn gwneud y cynnig yn rhy ansicr i ni ei gefnogi fel y'i nodwyd, hyd yn oed o'i wella drwy welliannau'r Democratiaid Rhyddfrydol.

Wedi dweud hynny, wrth gwrs, rydym yn cydnabod effaith y cyfryngau a'r diwydiannau creadigol, nid yn unig ar ein diwylliant Cymreig, ond ar economi Cymru. Rwy'n cymeradwyo sylwadau a wnaed gan eraill yn y Siambr heddiw. Er enghraifft, rwy'n credu ei bod yn werth ailadrodd y ffaith fod S4C ar ei ben ei hun yn creu dros £2 o elw am bob £1 a fuddsoddir o'r pwrs cyhoeddus. Mae rôl y cyfryngau darlledu yn ein heconomi yn un o'r rhesymau pam y bu'r Ceidwadwyr Cymreig yn galw'n gyson am wneud S4C—a phob darlledwr gwasanaeth cyhoeddus—yn atebol i'r Cynulliad hwn, yn ogystal â Senedd y DU. Nid wyf yn sicr ai dyna oedd pwynt 4 y cynnig yn anelu tuag ato, am nad oedd yn glir i mi pa 'newidiadau sylfaenol' y byddai Plaid Cymru wedi hoffi i bwyllgorau eu trafod. Fodd bynnag, rwy'n falch y bydd Bil Llywodraeth Geidwadol y DU yn cynnig cyd-atebolrwydd o'r fath, ac edrychaf ymlaen at gyfnod adeiladol o weithio rhyngseneddol gyda'n darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar sut beth fydd y broses gyd-atebolrwydd honno, gan gynnwys cynrychioli Cymru yn y broses lywodraethu, yn sgil adolygiad Silk.

Nid oes gennyf rithyn yn fwy o frwdfrydedd ynghylch y perygl o doriadau cyllidebol mawr i'r BBC a thrwy estyniad, i BBC Cymru Wales ac S4C, na neb arall yn y Siambr hon. Gwneuthum hynny'n glir ym mis Mehefin. Fodd bynnag, mae'n ymddangos fy mod yn fwy optimistaidd ynglŷn â BBC Cymru Wales ac S4C nag y mae Plaid Cymru.

Yn gyntaf oll, ceir derbyniad clir yn adroddiad cyn-Siartr y BBC ei hun fod yn rhaid iddo, yn ogystal â darlledwyr masnachol, fynd i'r afael â rhaglennu yn y gwledydd, nid yn unig o fewn y gwledydd ond o ran y modd y mae'n eu portreadu ar draws y rhwydwaith. Yn benodol, mae'n gwybod bod ganddo waith i'w wneud ar raglennu drwy gyfrwng y Saesneg yng Nghymru, sydd hefyd yn bwynt a gafodd ei grybwyll, ond mae'n tynnu sylw at y 'rhan hanfodol' sydd i'r iaith Gymraeg yn y gwasanaeth cyfan, ac y bydd yn parhau nid yn unig i weithio'n agos gydag S4C, ond i'w 'gefnogi'.

Yn ail, mae'n ymddangos ei fod wedi deall y dylai ei allbwn newyddion canolog fynd y tu hwnt i ddweud 'y gwasanaeth iechyd yn Lloegr' yn hytrach na 'y gwasanaeth iechyd'. Mae wedi mynd y tu hwnt i hynny eto. Mae'n derbyn nad yw'r gwledydd datganoledig yn cael gwasanaeth digonol, ac maent yn awyddus i ddatrys hynny. Mae Julie Morgan yn iawn i ddweud y dylai darlledu fod yn ddi-Lundain yng Nghymru. Y ffordd y mae'r BBC yn edrych ar hyn yw drwy ostwng waliau'r seilo a gweithio gydag eraill, megis sefydliadau newyddion lleol yng Nghymru, fel y ffordd orau o wneud hynny o bosibl. Er hynny, rwy'n deall na fyddai awgrym efallai o rywfaint o ddiogelwch ar gyfer Cymru mewn rownd o doriadau'n fawr o gysur hyd nes y byddwn yn sicr sut olwg fydd ar y ffigurau gwirioneddol.

The extension of the licence fee to catch-up telly, the removal of the ring-fence on broadband roll-out and the linking of the licence fee to inflation will help set off the over-75 licence deal, but it's the demolition of the silo walls that really offers new income-generating possibilities: the creation of BBC Studios will increase income leverage and competition, and the growth of BBC Worldwide whose existing considerable commercial returns to the BBC will increase by more than 15 per cent over the next five years. Public service broadcasting isn't about meeting market failure; it's about being a market success to build the resources for the quality news, current affairs, and even the prospect of a Welsh 'Newsnight' that we might be looking for. So, thank you very much.

Bydd ymestyn ffi'r drwydded i gynnwys teledu dal i fyfny, cael gwared ar glustnodi arian ar gyfer cyflwyno'r band eang a chysylltu ffi'r drwydded â chwyddiant yn help i'w osod yn erbyn cynnig y drwydded i rai dros 75 oed, ond dymchwel y waliau seilo sy'n cynnig posibiladau go iawn ar gyfer cynhyrchu incwm newydd: bydd creu BBC Studios yn cynyddu'r gallu i ddenu incwm a chystadleuaeth, a thwf BBC Worldwide y bydd ei elw masnachol sylweddol i'r BBC ar hyn o bryd yn cynyddu mwy na 15 y cant dros y pum mlynedd nesaf. Nid yw darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn ymwneud â mynd i'r afael â methiant y farchnad; mae'n ymwneud â bod yn llwyddiant yn y farchnad i adeiladu'r adnoddau ar gyfer y newyddion o ansawdd, y materion cyfoes, a hyd yn oed y posibilrwydd o 'Newsnight' i Gymru y gallem fod eu heisiau. Felly, diolch yn fawr iawn.

15:58

Elin Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm pleased to have the opportunity to participate in today's debate. I wanted to specifically focus on the challenge that we have always faced in this country in terms of a vibrant, widely accessed indigenous media. Indeed, a recent House of Lords Communications Committee report summarised the role of news media as follows. I quote:

'A free and diverse media are an indispensable part of the democratic process. They provide the multiplicity of voices and opinions that informs the public, influences opinion, and engenders political debate. They promote the culture of dissent which any healthy democracy must have.'

It is an ever-present feature of Welsh life that we lack a distinct and widely consumed media of this nature. Many would have expected this to follow the advent of devolution, but the economic pressures on global media, coupled with severe cuts at UK level, have confounded the problem. A strong media is an integral element of a free and fully-functioning democracy in this country, not to make life easier for politicians but to make life harder for politicians. I can think of one or two politicians who have faced this hard scrutiny over the last few days. We need to enhance the opportunities people have for scrutinising their elected representatives and, in particular, their Governments. This Assembly and the Welsh Government have greater responsibilities now than they did a decade and a half ago, and yet the intensity of outside, independent scrutiny through a vibrant media has, if anything, diminished.

I want to take this opportunity too to mention the dangers posed by a shift in print media practice to set individual journalists targets relating to the number of online clicks their stories generate. This could distort the principle of an independent media. A clickbait culture could lead to a situation where sensational stories are given prominence over important matters that have a big effect on people's lives, distorting our principle of a free press. We could have a situation where the news agenda is driven by commerce rather than public interest. The move towards clickbait follows a decline in traditional print media and a growth in the consumption—especially by younger people—of media online.

Rwy'n falch o gael y cyfle i gymryd rhan yn y ddatl heddiw. Roeddwn i eisiau canolbwyntio'n benodol ar yr her yr ydym bob amser wedi ei hwynebu yn y wlad hon o ran cyfryngau cynhenid a bywiog gyda mynediad eang. Yn wir, roedd adroddiad diweddar gan Bwyllgor Cyfathrebu Tŷ'r Arglwyddi yn crynhoi rôl y cyfryngau newyddion fel a gallyn. Dyfynnaf:

'A free and diverse media are an indispensable part of the democratic process. They provide the multiplicity of voices and opinions that informs the public, influences opinion, and engenders political debate. They promote the culture of dissent which any healthy democracy must have.'

Mae'n nodwedd hollbresennol o fywyd Cymru ein bod yn brin o gyfryngau unigryw o'r math hwn sy'n cael eu darllen yn eang. Byddai llawer wedi disgwyl hyn i ddilyn dyfodiad datganoli, ond mae'r pwysau economaidd ar gyfryngau byd-eang, ynghyd â thoriadau llym ar lefel y DU, wedi dwysáu'r broblem. Mae cyfryngau cryf yn elfen hanfodol o ddemocratiaeth rydd a llwyr weithredol yn y wlad hon, nid er mwyn gwneud bywyd yn haws i wleidyddion, ond er mwyn gwneud bywyd yn anos i wleidyddion. Gallaf feddwl am un neu ddau o wleidyddion sydd wedi wynebu craffu caled o'r fath dros y dyddiau diwethaf. Mae angen i ni wella'r cyfleoedd i bobl graffu ar eu cynrychiolwyr etholedig ac yn benodol, ar eu Llywodraethau. Mae gan y Cynulliad hwn a Llywodraeth Cymru fwy o gyfrifoldebau yn awr nag a oedd ganddynt ddegawd a hanner yn ôl, ac eto mae manylder craffu annibynnol o'r tu allan drwy gyfryngau bywiog wedi lleihau, os rhywbeth.

Rwyf am fanteisio ar y cyfle hwn hefyd i sôn am y peryglon a achosir gan newid yn arfer y cyfryngau print i osod targedau ar gyfer newyddiadurwyr unigol sy'n ymwneud â nifer y cliciau ar-lein y mae eu straeon yn eu cynhyrchu. Gallai hyn ystumio'r egwyddor o gyfryngau annibynnol. Gallai diwylliant dolenni denu arwain at sefyllfa lle y mae straeon cyffrogarol yn cael mwy o amlygrwydd na materion pwysig sy'n effeithio'n fawr ar fywydau pobl, gan ystumio ein hegwyddor o wasg rydd. Gallem weld sefyllfa lle y mae'r agenda newyddion yn cael ei hysgogi gan fasnach yn hytrach na lles y cyhoedd. Mae'r symudiad tuag at y defnydd o ddolenni denu yn dilyn dirywiad yn y cyfryngau print traddodiadol a thwf yn y defnydd o gyfryngau ar-lein, yn enwedig gan bobl iau.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Wales is particularly affected due to the fact that we already lack a strong media. The UK media do not offer much coverage of issues of importance to the people of Wales, unless they are used as a source of comparison with England. It is difficult enough to gain coverage of a Welsh perspective in the UK media, and there is little hope of hearing Welsh perspectives. This change in the way we consume the media brings opportunities as well as challenges, as it encourages people to read, watch and participate in media from different sources. One way to rectify the lack of local information for citizens to base their decisions on and participate in democracy, exacerbated by the struggling local newspaper industry, is through facilitating other ways of transmitting and consuming local news. But this issue also profoundly impacts on the very concept of Welsh democracy and Welsh nationhood itself. It is my view that public broadcasting can and should set the bar. One obvious way in which it could do so would be for the main prime-time news to be run, edited and broadcast from Wales and for Wales. In this way, we could get a Welsh perspective on UK and international news. We could have that in Welsh as well as in English, and this would, I believe, lead to a new direction for indigenous Welsh media and news.

Effeithir yn arbennig ar Gymru oherwydd ein bod eisoes yn brin o gyfryngau cryf. Nid yw cyfryngau'r DU yn cynnig llawer o sylw i faterion sydd o bwys i bobl Cymru, oni bai eu bod yn cael eu defnyddio fel ffynhonnell ar gyfer cymharu â Lloegr. Mae'n ddigon anodd cael sylw i bersbectif Cymreig yng nghyfryngau'r DU, ac nid oes fawr o obaith o glywed persbectif Cymreig. Mae'r newid hwn yn y ffordd yr ydym yn defnyddio'r cyfryngau yn creu cyfleoedd yn ogystal â heriau, gan ei fod yn annog pobl i ddarllen, gwyllo a chymryd rhan mewn cyfryngau o wahanol ffynonellau. Un ffordd o unioni diffyg gwybodaeth leol i ddinasyddion seilio eu penderfyniadau arni a chymryd rhan mewn democratiaeth, diffyg a waethygir gan ddiwydiant papurau newydd lleol sy'n ei chael hi'n anodd, yw hwyluso ffyrdd eraill o drosglwyddo a defnyddio newyddion lleol. Ond mae'r mater hwn hefyd yn effeithio'n helaeth ar yr union gysyniad o ddemocratiaeth yng Nghymru a chenedligrwydd Cymru ei hun. Gallai, a dylai, darlledu cyhoeddus osod y bar, yn fy marn i. Un ffordd amlwg y gallai wneud hynny fyddai i'r prif newyddion oriau brig gael ei drefnu, ei olygu a'i ddarlledu o Gymru ac ar gyfer Cymru. Yn y ffordd hon, galleu gael persbectif Cymreig ar newyddion y DU a newyddion rhyngwladol. Galleu gael hynny yn Gymraeg yn ogystal ag yn Saesneg, a byddai hyn, yn fy marn i, yn arwain at gyfeiriad newydd i gyfryngau a newyddion Cymreig cynhenid.

16:02

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I would like to try to answer the question this afternoon: are we well served by the current model of governance and regulation of the media in Wales? Clearly, at the moment, we are seeing the process of the BBC charter renewal taking place, and that has focused and dominated the debate. But I hope—and, certainly, speakers throughout this debate this afternoon have taken a much wider and rounded perspective, and I'd like to do the same. Over the last few years, we've seen rapid and fundamental change taking place, which has certainly changed the whole environment in which we debate and discuss and consume the media. The tragedy is that, all too often, policymakers in different places have used the fact of this change to reflect away from the failures of decisions that they themselves have taken. All too often, policymakers have said that, 'Because change is taking place, it is impossible for us to take a decision now, today, because we might have to review it again tomorrow'.

Hoffwn geisio ateb y cwestiwn y prynhawn yma: a yw'r model presennol ar gyfer llywodraethu a rheoleiddio'r cyfryngau yng Nghymru yn fuddiol i ni? Yn amlwg, ar hyn o bryd, gwelwn y broses o adnewyddu siarter y BBC yn mynd rhagddi, ac mae hi wedi rhoi ffocws i'r ddadl ac wedi'i llywio. Ond rwy'n gobeithio—ac yn sicr, mae'r siaradwyr drwy gydol y ddadl hon y prynhawn yma wedi arddel persbectif ehangach a llawer mwy cyflawn, a hoffwn wneud yr un peth. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, rydym wedi gweld newid cyflym a sylfaenol yn digwydd, sy'n sicr wedi newid yr amgylchedd cyfan lle rydym yn defnyddio, yn trafod ac yn dadlau ynghylch ein cyfryngau. Y drasiedi, yn rhy aml, yw bod gwneuthurwyr polisi mewn gwahanol leoedd wedi defnyddio'r newid hwn i dynnu sylw oddi ar fethiannau penderfyniadau a wnaethant hwy eu hunain. Yn rhy aml, mae gwneuthurwyr polisi wedi dweud, 'Am fod newid yn digwydd, mae'n amhosibl i ni wneud penderfyniad yn awr, heddiw, gan y bydd yn rhaid i ni ei adolygu eto yfory o bosibl'.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I don't think that Wales has been well served over the last few years in the way that we regulate or ensure the governance and accountability of broadcasting and the media. If you look at the funding issue, we recognise—and the Welsh Government has already said—that the media in Wales, the BBC I think that is, needs and requires an additional £30 million to maintain its current integrity. We have seen the most vicious, nasty attack on and bullying of S4C that I can think of in any mature western democracy. A Government that treats S4C in the way that it has done cannot be itself committed to either an open, free, democratic society, or the independence of public broadcasters that operate within that society. The attacks on S4C have really been appalling. I'm frozen with fear sometimes when I consider the attitude of the present UK Government to the BBC at this critical time. I think many of us are absolutely terrified at the prospect of charter renewal taking place with a Government that has scant respect for the institution, for its independence, and for the challenge it sometimes gets from broadcasters in a free society.

We've also seen a decline in plurality in Wales. I do not believe that Trinity Mirror has been good for this country and good for democracy and good for the citizen or the consumer of this democracy. We have seen extraordinary diminution in the coverage from local media, local papers, across the south Wales valleys. We have seen declining investment in the media outlets owned by Trinity Mirror, and I agree very much with what has been said by people about the future of the 'South Wales Evening Post'. We need a plurality of ownership as well as plurality of voices if we are to have an effective media in Wales.

In terms of access to news, we know that Wales is the invisible nation in the United Kingdom. We know that too many people in Wales no longer know who governs them. We know that, when Anthony King issued his first report on the coverage of Wales in the UK media, all that happened in the BBC particularly was simply that the words 'in England' were added to too many stories. Again, the politics, the policy, the people and the culture of Wales are missing from the news agenda of United Kingdom broadcasters. I give way.

Nid wyf yn credu bod Cymru wedi cael gwasanaeth da dros y blynyddoedd diwethaf o ran y ffordd yr ydym yn rheoleiddio neu'n sicrhau atebolrwydd darlledu a'r cyfryngau a'r modd y cânt eu llywodraethu. Os edrychwch ar ariannu, rydym yn cydnabod—ac mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi dweud—fod y cyfryngau yng Nghymru, hynny yw, y BBC rwy'n credu, angen £30 miliwn ychwanegol i gynnal ei uniondeb ar hyn o bryd. Rydym wedi gweld yr ymosodiad mwyaf dieflig a chas ar S4C, a'r bwlio gwaethaf y gallaf feddwl amdano mewn unrhyw ddemocratiaeth aeddfed orllewinol. Ni all Llywodraeth sy'n trin S4C yn y modd a wnaeth fod wedi ymrwymo i gymdeithas agored, rydd a democrataidd, nac i annibyniaeth darlledwyr cyhoeddus sy'n gweithredu yn y gymdeithas honno. Mae'r ymosodiadau ar S4C wedi bod yn wirioneddol warthus. Rwy'n rhewi gan ofn weithiau pan fyddaf yn ystyried agwedd Llywodraeth bresennol y DU tuag at y BBC ar yr adeg dyngedfennol hon. Rwy'n meddwl bod llawer ohonom yn llawn o arswyd ynglŷn â'r posibilrwydd o adnewyddu siarter gan Lywodraeth nad os ganddi fawr o barch at y sefydliad, at ei annibyniaeth, nac at yr her y mae'n ei wynebu weithiau gan ddarlledwyr mewn cymdeithas rydd.

Rydym hefyd wedi gweld lleihad mewn lluosogrwydd yng Nghymru. Nid wyf yn credu bod Trinity Mirror wedi bod yn dda i'r wlad hon nac i ddemocratiaeth, na'r dinesydd a'r defnyddiwr yn y ddemocratiaeth hon. Rydym wedi gweld lleihad eithriadol yn y sylw gan y cyfryngau lleol, papurau lleol, ar draws cymoedd de Cymru. Rydym wedi gweld llai a llai o fuddsoddi yn y cyfryngau sy'n eiddo i Trinity Mirror, a chytunaf yn fawr iawn â'r hyn y mae pobl wedi'i ddweud am ddyfodol y 'South Wales Evening Post'. Mae arnom angen lluosogrwydd o ran perchnogaeth yn ogystal â lluosogrwydd o ran lleisiau os ydym i gael cyfryngau effeithiol yng Nghymru.

O ran mynediad at newyddion, gwyddom mai Cymru yw'r genedl anweledig yn y Deyrnas Unedig. Gwyddom fod gormod o bobl yng Nghymru bellach nad ydynt yn gwybod pwy sy'n eu llywodraethu. Pan gyhoeddodd Anthony King ei adroddiad cyntaf ar y sylw a roddir i Gymru yng nghyfryngau'r DU, gwyddom mai'r cyfan a ddigwyddodd yn y BBC yn arbennig oedd bod y geiriau 'yn Lloegr' wedi'u hychwanegu at ormod o straeon. Unwaith eto, mae gwleidyddiaeth, polisi, pobl a diwylliant Cymru ar goll o agenda newyddion darlledwyr y Deyrnas Unedig. Rwy'n ildio.

16:06

Suzy Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for taking this intervention. I wouldn't disagree with what you said on that point, but do you have any views on the BBC's proposals for overcoming that deficit?

Diolch i chi am gymryd yr ymyriad. Ni fyddwn yn anghytuno â'r hyn a ddywedasochn ar y pwynt hwnnw, ond a oes gennych unrhyw farn ar argymhellion y BBC ar gyfer goresgyn y diffyg?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:06

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I remain an optimist and believe that these things can be fixed. I do not believe that everything is broken beyond repair. What I am not convinced by is the fact that those things will actually happen in the newsroom when critical decisions are taken. All too often, we've spoken to the senior management of the BBC particularly, who have said that they are committed to all sorts of different things, to coverage of Wales, to fair coverage of the whole of the United Kingdom outside of London, but what they haven't been able to do is to deliver that in their bulletins on a day-by-day basis, and that reflects poorly on the senior management of the BBC and others. But let's look at the portrayal of Wales on UK networks. Wales is rarely seen on any network, be it the BBC, ITV, Channel 4 or any of the Sky channels, and, all too often, the programmes that we do see simply emphasise the poor nature of the provision elsewhere. So, we do not see our lives, our country, our people, our communities reflected back to us from the UK networks. And what about the place of Wales in the commissioning of programming? We have seen, and we welcome, the investment in Roath Lock, just across the way from us, but we need to see further commissioning from other broadcasters at the same time.

Rwy'n parhau'n optimist ac yn credu y gellir datrys y pethau hyn. Nid wyf yn credu bod popeth wedi dirywio i'r fath raddau fel na ellir eu hunioni. Yr hyn nad wyf wedi fy argyhoeddi yn ei gylch yw y bydd y pethau hynny'n digwydd yn yr ystafell newyddion mewn gwirionedd pan fydd penderfyniadau allweddol yn cael eu gwneud. Yn rhy aml, rydym wedi siarad ag uwch reolwyr y BBC yn arbennig, sydd wedi dweud eu bod wedi ymrwymo i bob math o wahanol bethau, i roi sylw i Gymru, i roi sylw teg i'r Deyrnas Unedig yn ei chyfanrwydd y tu allan i Lundain, ond yr hyn nad ydynt wedi gallu ei wneud yw cyflawni hynny yn eu bwletinâu o ddydd i ddydd, ac mae hynny'n adlewyrchu'n wael ar uwch reolwyr y BBC ac eraill. Ond gadewch i ni edrych ar y portread o Gymru ar rwydweithiau'r DU. Anaml y caiff Cymru ei gweld ar unrhyw rwydwaith, boed y BBC, ITV, Channel 4 neu unrhyw un o sianelau Sky, ac yn rhy aml, nid yw'r rhaglenni a welwn ond yn pwysleisio natur wael y ddarpariaeth mewn manau eraill. Felly, nid ydym yn gweld ein bywydau, ein gwlad, ein pobl, ein cymunedau yn cael eu hadlewyrchu'n ôl atom o rwydweithiau'r DU. A beth am le Cymru yn y broses o gomisiynu rhaglenni? Gwelsom y buddsoddiad ym Mhorth y Rhath, ar draws y ffordd oddi wrthym, ac rydym yn ei groesawu, ond mae angen i ni weld comisiynu pellach gan ddarlledwyr eraill ar yr un pryd.

I'll finish with this final remark, if I might, Deputy Presiding Officer. All of this is a failure of public policy and a failure of public accountability and a failure of public regulation. We have the structures in place—

Gorffennaf gyda'r sylw olaf hwn, os caf, Ddirprwy Lywydd. Mae hyn i gyd yn fethiant o ran polisi cyhoeddus, yn fethiant o ran atebolrwydd cyhoeddus ac yn fethiant o ran rheoleiddio cyhoeddus. Mae gennym y strwythurau yn eu lle—

16:08

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Quickly now, please.

Yn gyflym yn awr, os gwelwch yn dda.

16:08

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

[Continues.]—but what they don't do is to deliver for the people of Wales. We need greater openness—

[Yn parhau.]—ond yr hyn nad ydynt yn ei wneud yw cyflawni dros bobl Cymru. Rydym angen agwedd fwy agored—

16:08

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Finish.

Gorffennwch.

16:08

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

[Continues.]—greater transparency and greater accountability to Wales and in Wales.

[Yn parhau.]—mwy o dryloywder a mwy o atebolrwydd i Gymru ac yng Nghymru.

16:08

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I call the Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism, Ken Skates.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth, Ken Skates.

Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth / The Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism

Thank you, Deputy Presiding Officer, and can I thank Members for their contributions during this very timely debate? There is agreement on the majority of issues under consideration today, as reflected in the statement jointly signed in July by three party leaders. The Welsh Government is extremely concerned at the current state of the media in Wales, which is undoubtedly facing a crisis at a local and national level. A vibrant media is essential in democracy, and it's essential that people are able to participate. The role of public service broadcasters is even more important in Wales in the context of a weak print media sector, and they are a vital part of our thriving creative industries sector—a fast-growing part of the Welsh economy, as identified by Peter Black. Over the next few years, there are key decisions to be taken in relation to broadcasting and regulatory arrangements in the UK and in Wales, with the forthcoming renewal of the BBC charter and further consideration of the findings of the Silk commission on devolution in Wales, the St David's Day announcement, and the Smith Commission in Scotland.

Now, we're fully aware of the importance of the renewal of the BBC charter, which has significant implications for BBC Cymru Wales, S4C and the independent production companies across Wales that provide content for them both and for the other broadcasters. We expect the BBC to stand by its own public statements that the pre-budget deal announced in July between itself and the UK Government in relation to the licence fee will be cash neutral for the BBC and will not affect services. We also expect the UK Government to honour the terms of that agreement and not impose further budget cuts or top-slicing of licence fee revenues on the BBC. The statement signed by the three party leaders in the Assembly expressed concern that neither the Welsh Government nor the National Assembly for Wales were consulted before this deal was reached. Indeed, we have concerns about a number of aspects of the charter renewal process. I wrote to the Secretary of State for Culture, Media and Sport on 29 July to express our disappointment that the UK Government had established an advisory group on charter renewal without any consultation with the Welsh Government or any of the devolved nations. There is no representative to reflect the views and needs of Wales, and I also noted the limited public service broadcasting expertise on that group.

We've been reassured that the advisory group will consider the needs of all the UK's nations and regions. We will expect its advice to reflect and take full account of the needs of the people of Wales.

Charter renewal raises a number of questions about how the BBC will be governed in the future. There is much speculation about the future of the BBC Trust and the Audience Council Wales. Whatever structure is put in place, it is absolutely vital that Wales is fully represented.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd, ac a gaf i ddiolch i'r Aelodau am eu cyfraniadau yn ystod y ddaidl amserol hon? Ceir cytundeb ar y rhan fwyaf o'r materion sy'n cael eu hystyried heddiw, fel y mae'r datganiad a lofnodwyd ar y cyd ym mis Gorffennaf gan dri arweinydd plaid yn ei adlewyrchu. Mae Llywodraeth Cymru yn pryderu'n fawr am gyflwr presennol y cyfryngau yng Nghymru, sydd heb os yn wynebu argyfwng ar lefel leol a chenedlaethol. Mae cyfryngau bywiog yn hanfodol mewn democratiaeth, ac mae'n hanfodol fod pobl yn gallu cyfranogi. Mae rôl darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus hyd yn oed yn bwysicach yng Nghymru yng nghyd-destun sector cyfryngau print sy'n wan, ac maent yn rhan hanfodol o'n sector diwydiannau creadigol ffyniannus—rhan sy'n tyfu'n gyflym o economi Cymru, fel y nododd Peter Black. Dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, mae yna benderfyniadau allweddol i'w gwneud mewn perthynas â darlledu a threfniadau rheoleiddio yn y DU ac yng Nghymru, gydag adnewyddu siarter y BBC sydd ar y ffordd ac ystyriaeth bellach o ganfyddiadau comisiwn Silk ar ddatganoli yng Nghymru, cyhoeddiad Dydd Gŵyl Dewi, a Chomisiwn Smith yn yr Alban.

Nawr, rydym yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd adnewyddu siarter y BBC, sydd â goblygiadau sylweddol i BBC Cymru Wales, S4C a'r cwmnïau cynhyrchu annibynnol ledled Cymru sy'n darparu cynnwys ar eu cyfer ac ar gyfer y darlledwyr eraill. Rydym yn disgwyl i'r BBC gadw at ei ddatganiadau cyhoeddus ei hun y bydd y cytundeb rhag-gyllidebol a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf rhyngddo a Llywodraeth y DU mewn perthynas â ffi'r drwydded yn arian niwtral i'r BBC ac na fydd yn effeithio ar wasanaethau. Rydym hefyd yn disgwyl i Lywodraeth y DU barchu telerau'r cytundeb hwnnw a pheidio â thorri rhagor ar y gyllideb na chymryd cyfran o refeniw ffi drwydded y BBC. Roedd y datganiad a lofnodwyd gan y tri arweinydd plaid yn y Cynulliad yn mynegi pryder nad ymgynghorwyd â Llywodraeth Cymru na Chynulliad Cenedlaethol Cymru cyn llunio'r cytundeb hwn. Yn wir, rydym yn bryderus ynglŷn â nifer o agweddau ar broses adnewyddu'r siarter. Ysgrifennais at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar 29 Gorffennaf i fynegi ein siom fod Llywodraeth y DU wedi sefydlu grŵp cynghori ar adnewyddu'r siarter heb ymgynghori â Llywodraeth Cymru nac unrhyw un o'r gwledydd datganoledig. Ni cheir cynrychiolydd i gyfleu safbwyntiau ac anghenion Cymru, a nodais hefyd y prinder arbenigedd ym maes darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y grŵp hwnnw.

Rydym wedi cael ein sicrhau y bydd y grŵp cynghori yn ystyried anghenion holl wledydd a rhanbarthau'r DU. Byddwn yn disgwyl i'w gyngor adlewyrchu anghenion pobl Cymru, a rhoi ystyriaeth lawn iddynt.

Mae adnewyddu'r siarter yn tynnu sylw at nifer o gwestiynau ynglŷn â sut y bydd y BBC yn cael ei lywodraethu yn y dyfodol. Ceir llawer o ddyfalu ynglŷn â dyfodol Ymddiriedolaeth y BBC a Chyngor Cynulleidfa Cymru. Pa strwythur bynnag a roddir ar waith, mae'n gwbl hanfodol fod Cymru yn cael ei chynrychioli'n llawn.

Turning to S4C, I very much agree with the assessment made by my colleague Alun Davies: we were extremely concerned to hear the comments of the Secretary of State for Culture, Media and Sport in July when he said that it was 'reasonable' that S4C should make

'the same kind of efficiency savings'

asked of the BBC. Since the comprehensive spending review in 2010, the Welsh Government has consistently expressed concern to the UK Government about the impact of major funding cuts on S4C. It's vital that S4C has sufficient funding, as well as editorial and managerial independence, for it to maintain its ability to serve the Welsh audience, and to continue to play its crucial role in supporting the Welsh language and the creative industries in Wales. I give way.

16:12 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

You just said that you've made representations to the Government. How have you made these representations? What form have they taken?

16:12 **Kenneth Skates** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

On numerous occasions, in writing. We've also held—I've held meetings with my colleagues in the other devolved nations as well, and together we have raised this matter with the UK Government. Now, all formal agreements regarding S4C funding will expire during the next two years. This uncertainty regarding future funding makes forward planning very difficult. We remain very concerned about S4C's financial position, and we will continue to raise this with the UK Government. We therefore support amendment 1 in the name of Aled Roberts.

It is also vital that the new charter ensures sufficient funding for BBC Cymru Wales, for news and non-news programming in both Welsh and English. We do not see the development of Cardiff as an important centre for network productions as any sort of justification for reducing the BBC's investment in local services. In fact, there should be a clear commitment to safeguarding and strengthening the core services that are aimed at Welsh viewers and listeners.

Gan droi at S4C, cytunaf yn llwyr â'r asesiad a wnaed gan fy nghyd-Aelod Alun Davies: roeddem yn bryderus iawn o glywed sylwadau'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ym mis Gorffennaf pan ddywedodd ei bod yn 'rhesymol' disgwyl i S4C wneud

'yr un math o arbedion effeithlonrwydd'

ag y gofynnwyd i'r BBC eu gwneud. Ers yr adolygiad cynhwysfawr o wariant yn 2010, mae Llywodraeth Cymru wedi mynegi pryder cyson wrth Lywodraeth y DU am effaith toriadau cyllid mawr ar S4C. Mae'n hanfodol fod gan S4C ddigon o arian, yn ogystal ag annibyniaeth olygyddol a rheolaethol, er mwyn iddi gynnal ei gallu i fod o fudd i'r gynulleidfa Gymreig, ac i barhau i chwarae ei rhan hanfodol yn cefnogi'r iaith Gymraeg a'r diwydiannau creadigol yng Nghymru. Rwy'n ildio.

Rydych newydd ddweud eich bod wedi cyflwyno sylwadau i'r Llywodraeth. Sut ydych chi wedi cyflwyno'r sylwadau hyn? Pa ffurf oedd arnynt?

Ar sawl achlysur, yn ysgrifenedig. Rydym hefyd wedi cynnal—rwyf wedi cynnal cyfarfodydd gyda fy nghydweithwyr yn y gwledydd datganoledig eraill yn ogystal, a chyda'n gilydd rydym wedi dwyn y mater i sylw Llywodraeth y DU. Nawr, bydd yr holl gytundebau ffurfiol mewn perthynas â chyllid S4C yn dod i ben yn ystod y ddwy flynedd nesaf. Mae'r ansicrwydd hwn ynghylch cyllid yn y dyfodol yn gwneud blaengynllunio'n anodd iawn. Rydym yn parhau i fod yn bryderus iawn ynghylch sefyllfa ariannol S4C, a byddwn yn parhau i ddwyn hyn i sylw Llywodraeth y DU. Felly, rydym yn cefnogi gwelliant 1 yn enw Aled Roberts.

Mae hefyd yn hanfodol fod y siarter newydd yn sicrhau cyllid digonol ar gyfer BBC Cymru Wales, ar gyfer rhaglenni newyddion a rhaglenni nad ydynt yn newyddion yn y Gymraeg a'r Saesneg. Nid ydym yn gweld datblygu Caerdydd fel canolfan bwysig ar gyfer cynyrchiadau rhwydwaith fel unrhyw fath o gyfiawnhad dros leihau buddsoddiad y BBC mewn gwasanaethau lleol. Yn wir, dylai fod ymrwymiad clir i ddiogelu a chryfhau'r gwasanaethau craidd sydd wedi'u hanelu at wylwyr a gwrandawyr yng Nghymru.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

There was, of course, much interest in the speech by the BBC's director-general, Lord Hall, on 7 September, and in the paper that the BBC subsequently published, envisioning a more open BBC, providing services that can be tailored for who you are and where you live. We were pleased that the BBC has strengthened its commitment to reflecting the full diversity of life across the UK, including Wales, and especially that it is committed to investing in drama and comedy programming that better reflects the nations and regions. The BBC's commitment to further development of Welsh-language services is welcome, as is its recognition that the provision of English-language programming for Wales has declined at a faster rate than that for any other nation, and must be addressed in the next charter period. Of course, Lord Hall raised a number of these issues when he spoke in Cardiff last year. However, we have yet to see any significant improvements.

There are further areas of grave concern. In the context of the cuts that BBC Cymru Wales have absorbed over the last 10 years, the First Minister wrote to Lord Hall last month stating that an additional £30 million is required specifically for English-language programming in Wales. This would allow Welsh audiences to have a credible national television station that can provide quality content in English, including drama, comedy and network contributions. Worryingly, though, the proposals published by the BBC fall far short of this. I would question how the BBC can deliver on commitments made in its recent paper—to invest in improved services to the nations, including digital news, education and entertainment services for each nation—when it has ruled out any net increase in spending and has committed to protecting funding for the nations only to the extent that it will be cut less than other areas. I accept that the BBC finds itself in difficult situations due to the cuts in its budget, but these proposals simply raise further questions over its future output in

During recent months, Welsh Ministers and officials have liaised closely with the UK Government to ensure that the Welsh Government is fully involved in the charter renewal discussions from the outset. We have agreed a memorandum of understanding with the BBC and the UK Government, giving the Welsh Government a formal consultative role in the charter review process in full parity with arrangements in Scotland and Northern Ireland. The signatories are committed to working with the National Assembly to further develop a memorandum that will enshrine our ongoing role in the scrutiny and accountability of the BBC in Wales. Welsh Government and National Assembly for Wales officials are already in discussions about this.

I note that, tomorrow, the Communities, Equality and Local Government Committee is due to begin consideration of its inquiry into the BBC charter review. We, therefore, support amendment 2 in the name of Aled Roberts.

Wrth gwrs, roedd yna lawer o ddiddordeb yn yr araith gan gyfarwyddwr cyffredinol y BBC, yr Arglwydd Hall, ar 7 Medi, ac yn y papur a gyhoeddodd y BBC yn sgil hynny, yn rhagweld BBC sy'n fwy agored, yn darparu gwasanaethau y gellir eu teilwra ar gyfer pwy ydych chi a lle rydych chi'n byw. Roeddem yn falch fod y BBC wedi cryfhau ei ymrwymiad i adlewyrchu amrywiaeth llawn bywyd ar draws y DU, gan gynnwys Cymru, ac yn arbennig, ei fod wedi ymrwymo i fuddsoddi mewn rhaglenni drama a chomedi sy'n adlewyrchu'r gwledydd a'r rhanbarthau'n well. Mae ymrwymiad y BBC i ddatblygu gwasanaethau yn y Gymraeg ymhellach i'w groesawu, fel y mae ei gydnybuddiaeth fod y ddarpariaeth o raglenni yn Saesneg ar gyfer Cymru wedi lleihau'n gyflymach nag ar gyfer unrhyw un o'r gwledydd eraill, ac mae'n rhaid rhoi sylw i hyn dros gyfnod nesaf y siarter. Wrth gwrs, crybwyllodd yr Arglwydd Hall nifer o'r materion hyn pan siaradodd yng Nghaerdydd y llynedd. Fodd bynnag, rydym eto i weld unrhyw welliannau sylweddol.

Ceir meysydd pellach sy'n peri pryder difrifol. Yng nghydestun y toriadau y mae BBC Cymru Wales wedi eu hamsugno yn ystod y 10 mlynedd diwethaf, ysgrifennodd Prif Weinidog Cymru at yr Arglwydd Hall fis diwethaf yn datgan bod angen £30 miliwn ychwanegol yn benodol ar gyfer rhaglenni Saesneg yng Nghymru. Byddai hyn yn caniatáu i gynulleidfaoedd yng Nghymru gael gorsaf dedeu genedlaethol gredadwy a all ddarparu cynnwys o safon yn y Saesneg, gan gynnwys drama, comedi a chyfraniadau rhwydwaith. Mae'n destun pryder, fodd bynnag, fod yr argymhellion a gyhoeddwyd gan y BBC yn bell iawn o allu cyflawni hyn. Byddwn yn cwestiynu sut y gall y BBC gyflawni'r ymrwymadau a wnaed yn ei bapur diweddar—i fuddsoddi mewn gwell gwasanaethau ar gyfer y gwledydd, gan gynnwys gwasanaethau newyddion, addysg ac adloniant digidol ar gyfer pob un o'r gwledydd—er ei fod wedi diystyru unrhyw gynnydd net mewn gwariant, a'i fod wedi ymrwymo i ddiogelu cyllid ar gyfer y gwledydd ond i'r graddau y bydd llai o dorri ar y cyllid hwn na meysydd eraill. Rwy'n derbyn bod y BBC mewn sefyllfa anodd oherwydd y toriadau yn ei gyllideb, ond codi cwestiynau pellach ynglŷn â'i allbwn yn y dyfodol yng Nghymru a wna'r argymhellion hyn.

Yn ystod y misoedd diwethaf, mae Gweinidogion Cymru a swyddogion wedi cysylltu'n agos â Llywodraeth y DU i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cymryd rhan lawn yn y trafodaethau ar adnewyddu'r siarter o'r cychwyn cyntaf. Rydym wedi cytuno ar femorandwm o gyd-ddealltwriaeth gyda'r BBC a Llywodraeth y DU, sy'n rhoi rôl ymgynghorol ffurfiol i Lywodraeth Cymru yn y broses o adolygu'r siarter gyda chydarddoldeb llawn o ran y trefniadau yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'r llofnodwyr wedi ymrwymo i weithio gyda'r Cynulliad Cenedlaethol i ddatblygu memorandwm a fydd yn ymgorffori ein rôl barhaus yn craffu ar y BBC yng Nghymru ac yn ei wneud yn atebol. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru eisoes yn rhan o'r trafodaethau ynglŷn â hyn.

Sylwaf fod y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol i fod i ddechrau ystyried ei ymchwiliad i'r adolygiad o siarter y BBC yfory. Felly, rydym yn cefnogi gwelliant 2 yn enw Aled Roberts.

We have naturally focused today on the impact of the charter renewal on BBC Cymru Wales and S4C. The Welsh Government is also fully aware of the importance of ensuring plurality of English-language television in Wales in news and also in general programming aimed at Welsh viewers. Therefore, ITV Cymru Wales continues to have a vital role to play as an alternative to the BBC, for news and non-news programming. A number of the issues we have discussed today are also relevant to the other devolved nations, and so earlier this year I wrote to my counterparts in Scotland and Northern Ireland, seeking a meeting to discuss broadcasting issues. We met in Glasgow in August and agreed to work together to ensure that the new BBC charter reflects and prioritises our shared interests.

This Welsh Labour Government will continue to play a full and active role in the charter renewal negotiations to ensure that the new charter truly reflects the interests of the people of Wales and the current and changing devolved settlement. We will use our formal position at the table to stand up for the services the Welsh people deserve.

Heddiw, rydym wedi canolbwyntio, wrth reswm, ar effaith adnewyddu'r siarter ar BBC Cymru Wales ac ar S4C. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd sicrhau lluosogrwydd o ran teledu drwy gyfrwng y Saesneg yng Nghymru ym maes newyddion a hefyd mewn rhaglenni cyffredinol a anelir at wylwyr yng Nghymru. Felly, mae ITV Cymru Wales yn parhau i fod â rôl hanfodol i'w chwarae fel dewis amgen yn lle'r BBC, ar gyfer rhaglenni newyddion a heb fod yn newyddion. Mae nifer o'r materion yr ydym wedi'u trafod heddiw hefyd yn berthnasol i'r gwledydd datganoledig eraill, ac felly, yn gynharach eleni, ysgrifennais at fy nghymheiriaid yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, yn gofyn am gyfarfod i drafod materion yn ymwneud â darlledu. Cyfarfuom yn Glasgow ym mis Awst a chytunwyd i weithio gyda'n gilydd i sicrhau bod siarter newydd y BBC yn adlewyrchu ac yn blaenoriaethu'r diddordebau a rannwn.

Bydd Llywodraeth Lafur Cymru yn parhau i chwarae rhan lawn a gweithredol yn y trafodaethau ar adnewyddu'r siarter i sicrhau bod y siarter newydd yn adlewyrchu diddordebau pobl Cymru a'r setliad datganoledig presennol a newidiol yn iawn. Byddwn yn defnyddio ein safle ffurfiol wrth y bwrdd i sefyll dros y gwasanaethau y mae'r Cymry yn eu haeddu.

16:17 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on Bethan Jenkins to reply to the debate.

Galwaf ar Bethan Jenkins i ymateb i'r ddadl.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:18 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much to everybody who has contributed here today. What we're all saying, I think, is that we should have fully-functioning, free and independent media that will not only scrutinise Assembly Members here, but will also provide comprehensive news and analysis for the nation and, on the drama and current affairs front, provide something new and interesting for viewers. I think the most worrying thing for me came from what Elin Jones said, which was that the content and the base of journalism here in Wales has decreased since devolution, when it should be expanding by nature of the fact that our powers are expanding. I think that's quite tragic, for us here today in this National Assembly, to have to be debating that.

I hope that this debate will form part of, perhaps, what we can put into the charter renewal via the committee as well, so that we can show, to the BBC and to DCMS, that we have taken their considerations seriously. I was surprised to hear from the Minister that the setting up of the advisory group on the charter renewal was not done with any consultation with the Welsh Government. So, I would hope that he is again seeking assurances that our views will be heard loud and clear given the severity of the situation.

Diolch yn fawr iawn i bawb sydd wedi cyfrannu yma heddiw. Yr hyn yr ydym i gyd yn ei ddweud, rwy'n meddwl, yw y dylem gael cyfryngau rhydd, annibynnol a llwyddiannus weithredol a fydd nid yn unig yn craffu Aelodau'r Cynulliad yma, ond hefyd yn darparu newyddion a dadansoddiadau cynhwysfawr ar gyfer y genedl, ac o ran drama a materion cyfoes, yn darparu rhywbeth newydd a diddorol ar gyfer y gwylwyr. Rwy'n meddwl mai'r peth mwyaf pryderus i mi o'r hyn a ddywedodd Elin Jones, oedd bod y cynnwys a'r sylfaen newyddiaduraeth yma yng Nghymru wedi crebachu ers datganoli, pan ddylai fod yn ehangu yn rhinwedd y ffaith fod ein pwerau'n ehangu. Rwy'n credu ei bod yn eithaf trasig ein bod ni yma heddiw, yn y Cynulliad Cenedlaethol, yn gorfod trafod hynny.

Gobeithiaf y bydd y ddadl hon yn ffurfio rhan, efallai, o'r hyn y gallwn ei gyfrannu at adnewyddu'r siarter drwy'r pwyllgor hefyd, er mwyn i ni allu dangos i'r BBC ac i'r Adran dros Ddiwylliant y Cyfryngau a Chwaraeon ein bod o ddirif ynglŷn â'u hystyriaethau. Roeddwn yn synnu o glywed gan y Gweinidog nad ymgynghorwyd â Llywodraeth Cymru ynghylch sefydlu'r grŵp cynghori ar adnewyddu'r siarter. Felly, byddwn yn gobeithio ei fod unwaith eto yn ceisio sicwydd y bydd ein barn yn cael ei chlywed yn glir o ystyried difrifoldeb y sefyllfa.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I hear what he says in terms of uncertainty over future funding, especially with regards to S4C, but again—Alun Davies made the point too—it comes down to what we want to do as a nation as well, which is why, as Alun Ffred said, we want to devolve the responsibility, especially over S4C, to Wales because we believe we have the power and the responsibility here to make those decisions. If we are so worried about what the Tories will do to the future of S4C and the BBC, surely having those powers here in Wales is better so that we can at least know and hold accountable in our own Chamber those decision-making processes that would follow in line with the finances.

Rwy'n clywed yr hyn y mae'n ei ddweud o ran yr ansicrwydd ynghylch cyllid yn y dyfodol, yn enwedig o ran S4C, ond unwaith eto—gwnaeth Alun Davies y pwynt hefyd—mae'n fater o beth ydym am ei wneud fel cenedl hefyd, a dyna pam, fel y dywedodd Alun Ffred, ein bod am ddatganoli'r cyfrifoldeb, yn enwedig dros S4C, i Gymru am ein bod yn credu bod gennym y grym a'r cyfrifoldeb yma i wneud y penderfyniadau hynny. Os ydym yn poeni cymaint am yr hyn y bydd y Toriaid yn ei wneud i ddyfodol S4C a'r BBC, mae'n sicr y bydd cael y pwerau hynny yma yng Nghymru yn well er mwyn i ni allu gwybod o leiaf beth yw'r prosesau gwneud penderfyniadau a fyddai'n dilyn yn unol â'r trefniadau ariannol, a bod yn atebol amdanynt yn ein Siambr ein hunain.

16:20 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I don't necessarily disagree with some of what you've been saying, but do you not think that it would be profoundly wrong to separate S4C from all the other broadcasting networks and broadcasters in the United Kingdom, because what we need is accountability for Welsh-language broadcasting and English-language broadcasting as well? That doesn't necessarily mean that responsibility passes to the Welsh Government.

Nid wyf o reidrwydd yn anghytuno â rhai o'r pethau rydych wedi bod yn eu dweud, ond onid ydych yn credu y byddai'n gwbl anghywir i wahanu S4C oddi wrth yr holl rwydweithiau darlledu a darlledwyr eraill yn y Deyrnas Unedig, oherwydd yr hyn sydd ei angen arnom yw atebolrwydd am ddarlledu yn y Gymraeg a darlledu yn y Saesneg hefyd? Nid yw hynny o reidrwydd yn golygu bod y cyfrifoldeb yn trosglwyddo i Lywodraeth Cymru.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:20 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I'm quite happy to go further. I'm saying about S4C, because obviously, sometimes, it's quite hard to pull people with us on many of these things. Of course we would like to see BBC and English-language content being determined from this building, too. So, we will agree on that to the nth degree.

Wel, rwy'n ddigon hapus i fynd ymhellach. Rwy'n dweud am S4C, oherwydd yn amlwg, weithiau, mae'n eithaf anodd tynnu pobl gyda ni ar lawer o'r pethau hyn. Wrth gwrs, byddem yn hoffi gweld y BBC a chynnwys Saesneg yn cael ei bennu o'r adeilad hwn, hefyd. Felly, byddwn yn cytuno'n bendant iawn ar hynny.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

On the BBC and the consultation document, I hear what the Minister's saying with regard to, possibly, how they could commit to the proposals. Some of them are far-reaching proposals, within the document. But, for me, I think what they're trying to do is to set the bar for the Department for Culture, Media and Sport to say, 'Well, look at what we could do, if you didn't cut our budget'. When I had a meeting with the BBC this week, they said that the flat-rate cut this time will mean that there will be more to face next year when the charter renewal process has come to an end. So, I think what they're trying to do is put those ideas out there to say, 'If you cut us even further, we will not be able to put these new, innovative ideas in place', as opposed to, perhaps, saying to the BBC, 'Well, how are you going to fund this?' I don't think, really, that it's their fault that they may not be able to fund some of those new ideas.

Ar y BBC a'r ddogfen ymgynghori, rwy'n clywed yr hyn y mae'r Gweinidog yn ei ddweud o ran sut y gallent ymrwymo i'r argymhellion o bosibl. Mae rhai o'r argymhellion yn y ddogfen yn bellgyrhaeddol. Ond i mi, rwy'n meddwl mai'r hyn y maent yn ceisio'i wneud yw gosod y bar ar gyfer yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i ddweud, 'Wel, edrychwch ar yr hyn y gallem ei wneud, pe na baech yn torri ein cyllideb'. Pan gefais gyfarfod gyda'r BBC yr wythnos hon, roeddent yn dweud y bydd cyfradd safonol y toriad y tro hwn yn golygu y bydd mwy i'w wynebu y flwyddyn nesaf pan fydd y broses o adnewyddu'r siarter wedi dod i ben. Felly, rwy'n meddwl mai'r hyn y maent yn ceisio'i wneud yw cyflwyno'r syniadau hyn er mwyn dweud, 'Os ydych yn torri hyd yn oed ymhellach, ni fyddwn yn gallu rhoi'r syniadau newydd, arloesol hyn ar waith', yn hytrach na dweud wrth y BBC efallai, 'Wel, sut ydych chi'n mynd i ariannu hyn?' Nid wyf yn credu, mewn gwirionedd, mai eu bai hwy yw na fyddant yn gallu ariannu rhai o'r syniadau newydd hynny.

Again, as we mentioned—

Unwaith eto, fel y soniwyd gennym—

16:21 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Sorry, would you take an intervention, just on that point?

Mae'n ddrwg gennyf, a fyddech dderbyn ymyriad, ar y pwynt hwnnw'n unig?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:21 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes.

Gwnaf.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:21 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much. I didn't have a chance to finish my point off completely in my own contribution, but the BBC has come up with ideas of its own on how it can make money, and I'm just wondering how that fits into the argument you're making at the moment.

Diolch yn fawr iawn. Ni chefais gyfle i orffen fy mhwynt yn iawn yn fy nghyfraniad fy hun, ond mae'r BBC wedi meddwl am syniadau ei hun ar sut y gall wneud arian, ac roeddwn i'n meddwl tybed sut y mae hynny'n cyd-fynd â'r ddadl rydych yn ei gwneud ar hyn o bryd.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

16:21 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

That's what I'm trying to say; they have new ideas, which they are proposing. I believe that they're saying to DCMS, 'These are our ideas; if you come out next year saying there'll be an extra cut to our services, how are we then going to be able to put those ideas into place, if you're going to continue to cut our services? It's not going to be possible for us to be able to do these new things if you cut our services in this way.' That's how I see that particular argument.

Dyna beth rwy'n ceisio'i ddweud; mae ganddynt syniadau newydd y maent yn eu cynnig. Credaf eu bod yn dweud wrth yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, 'Dyma ein syniadau; os byddwch yn dweud y flwyddyn nesaf y bydd toriad ychwanegol yn ein gwasanaethau, sut y gallwn ni roi'r syniadau hynny ar waith, os ydych yn mynd i barhau i dorri ein gwasanaethau? Nid yw'n mynd i fod yn bosibl i ni wneud y pethau newydd hyn os ydych yn torri ein gwasanaethau yn y ffordd hon.' Dyna sut rwy'n gweld y ddadl benodol honno.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Of course, other people have mentioned other elements of the media, such as the clickbait journalism. I'm very concerned about that in terms of how it may sensationalise journalism. If journalism isn't already sensationalised somewhat, it will get even worse if we have to rely on something like the Facebook 'likes', so to speak, rather than journalists being judged on their merit. It will, I think, take away from the investigative nature of journalism that we really want to nurture here in Wales, and I know that the National Union of Journalists feel passionate about that, too.

Wrth gwrs, mae pobl eraill wedi crybwyll elfennau eraill o'r cyfryngau, megis newyddiaduraeth dolenni denu. Rwy'n bryderus iawn am hynny o ran sut y gallai wneud newyddiaduraeth yn gyffrogarol. Os nad yw newyddiaduraeth yn gyffrogarol braidd yn barod, bydd yn gwaethygu fwy fyth os oes rhaid i ni ddbynnu ar bethau fel botwm 'hoffi' Facebook, fel petai, yn hytrach na newyddiadurwyr yn cael eu barnu yn ôl eu teilyngdod. Rwy'n credu y bydd yn dibrisio natur ymchwilol newyddiaduraeth yr ydym eisiau ei feithrin o ddirif yma yng Nghymru, a gwn fod Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr yn teimlo'n angerddol ynglŷn â hyn hefyd.

Julie Morgan mentioned print journalism, and I think that's very important. Also, she mentioned the difference between the 'Western Mail' and the 'South Wales Echo', but we also know that many Valleys newspapers now have the same content across Valleys communities, and we will know how different some of the challenges are from Pontypridd to the Cynon Valley. I think fewer people are buying it because they don't see their own lives reflected back in their newspapers, and so that is worrying, too. Of course, when the offices existed in Merthyr and Neath, I, for one, know that people popped in every day and they gave their titbits as to what was happening in their communities. That's something that really can't be done easily any more.

Crybwyllodd Julie Morgan newyddiaduraeth brint, ac rwy'n credu bod hynny'n bwysig iawn. Hefyd, roedd hi'n sôn am y gwahaniaeth rhwng y 'Western Mail' a'r 'South Wales Echo', ond rydym hefyd yn gwybod bod llawer o bapurau newydd y Cymoedd bellach â'r un cynnwys ar draws cymunedau'r Cymoedd, a gwyddom pa mor wahanol yw rhai o'r heriau o Bontypridd i Gwm Cynon. Rwy'n meddwl bod llai o bobl yn eu prynu oherwydd nad ydynt yn gweld eu bywydau eu hunain yn cael eu hadlewyrchu'n ôl yn eu papurau newydd, felly mae hynny'n peri pryder hefyd. Wrth gwrs, pan oedd y swyddfeydd ym Merthyr Tudful a Chastell-nedd, rwyf fi'n gwybod bod pobl yn taro heibio bob dydd i roi eu tameidiau bach o straeon ynglŷn â'r hyn oedd yn digwydd yn eu cymunedau. Mae hynny'n bendant yn rhywbeth na ellir ei wneud yn hawdd mwyach.

Wrth gwrs, rydym yn dod yn ôl i S4C, gydag Alun Ffred Jones yn dweud mai sarhad i'r iaith Gymraeg oedd yr hyn roedd y glymblaid wedi ei wneud yn y gorffennol, a nawr mae'r sefyllfa yn mynd i grebachu'r BBC ac S4C hyd yn oed yn fwy yn y dyfodol. Wrth gwrs, mae'n allweddol bod S4C yn cario ymlaen gyda'r cynlluniau i symud i Gaerfyrddin, ond pa mor effeithiol ydyn nhw'n mynd i allu bod gyda'u rhaglenni os ydyn nhw'n mynd i gael eu torri yn fwy byth? Nid ydym eisiau bod yn negyddol, ond rydym ni'n gwybod mai dyma fydd yn digwydd yn y dyfodol os na fydd mwy o arian yn mynd at S4C.

Of course, we come back to S4C, with Alun Ffred Jones saying that it was an insult to the Welsh language what the coalition did in the past, and now the situation is going to actually deteriorate things within the BBC and S4C even more. Of course, it is crucial that S4C continues with their plans for a move to Carmarthen, but how effective can they be with their programming if they are going to face even more cuts? We don't want to be negative, but we do know that this is what will happen in the future if more funding isn't allocated for S4C.

16:24 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch am wneud y pwynt yna. Mae hefyd yn bwysig i S4C ddeall beth fydd ei gyllid ymhen blwyddyn neu ddwy, achos mae'n rhaid cynllunio nawr ar gyfer y creadigrwydd a ddaw mewn blwyddyn neu ddwy. Dyna sy'n hollbwysig, hefyd.

Thank you for making that point. It's important also for S4C to know what its funding will be in a year or two's time, because it has to plan now for the creativity that comes forth in a year or two. That is also crucial.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:24 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch yn fawr. Mae hynny'n bwysig iawn, yn enwedig gan eu bod nhw'n creu rhaglenni newydd cynhenid ac maen nhw angen siarad â staff penodol ac actorion penodol er mwyn iddyn nhw allu dod â'r syniadau hynny ymlaen.

Thank you very much. That is very important, particularly as they are creating new, indigenous programmes and they need to talk to specific staff and specific actors in order to be able to bring those ideas forward.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you also to Suzy Davies; I know I intervened on you as well earlier. I'm glad that you see the BBC and S4C as national treasures. I just hope that your colleagues in Westminster will see that too, and that that will reflect what they do next year for the charter renewal. You know, the BBC is staying, you say, and obviously we're very pleased to hear that, but how sustainable can it be in the future if it will have more cuts to its budget? There's only so much they can cut, I'm led to understand from staff at the BBC, and so with this new responsibility with the over-75s—I know you say that that will balance the budget from other changes that they've made to the licence fee—I am concerned about why they've made that decision and how they've made that decision without public consultation. And I think for next year, that's a lesson to them—that they do need to consult fully in the future.

Diolch hefyd i Suzy Davies; gwn fy mod wedi ymyrryd ar eich cyfraniad chi hefyd yn gynharach. Rwy'n falch eich bod yn ystyried bod y BBC ac S4C yn drysorau cenedlaethol. Rwy'n gobeithio y bydd eich cydweithwyr yn San Steffan yn gweld hynny hefyd, ac y bydd hynny'n adlewyrchu'r hyn y byddant yn ei wneud y flwyddyn nesaf o ran adnewyddu'r siarter. Wyddoch chi, mae'r BBC yn aros, rydych yn dweud, ac yn amlwg rydym yn falch iawn o glywed hynny, ond pa mor gynaliadwy y gall fod yn y dyfodol os ceir rhagor o doriadau i'w gyllideb? Dim ond hyn a hyn y gallant ei dorri, yn ôl yr hyn a ddeallaf gan staff yn y BBC, felly gyda'r cyfrifoldeb newydd hwn o ran pobl 75 oed a hŷn—gwn eich bod yn dweud y bydd modd cydbwysu'r gyllideb drwy newidiadau eraill a wnaethant i ffi'r drwydded—rwy'n bryderus ynglŷn â pham y gwnaethant y penderfyniad hwnnw a'r modd y gwnaethant y penderfyniad hwnnw, heb ymgynghori â'r cyhoedd. Ac rwy'n meddwl bod honno'n wers iddynt ar gyfer y flwyddyn nesaf—fod angen iddynt ymgynghori'n llawn yn y dyfodol.

I think people have made valid points and, again, like I said in the beginning, I hope that they will form part of our discussion for the future and that we will not only discuss broadcasting when we have perhaps negative issues to discuss, but that we will discuss the issue about how we can create a better situation for the economic prospects of Wales with more jobs created in the creative industries, and how we can move the industry forward. I hope that's something we can all take positively from today. Diolch yn fawr.

Rwy'n credu bod pobl wedi gwneud pwyntiau dilys ac unwaith eto, fel y dywedais ar y dechrau, rwy'n gobeithio y byddant yn rhan o'n trafodaeth ar gyfer y dyfodol ac na fyddwn ond yn trafod darlledu pan fydd gennym faterion negyddol i'w trafod yn unig, o bosibl, ond y byddwn yn trafod sut y gallwn greu sefyllfa well o ran rhagolygon economaidd Cymru gyda mwy o swyddi'n cael eu creu yn y diwydiannau creadigol, a sut y gallwn ddatblygu'r diwydiant. Rwy'n gobeithio y bydd hynny'n rhywbeth y gall pawb ohonom fod yn gadarnhaol yn ei gylch ar ôl heddiw. Diolch yn fawr.

16:26 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? [Objection]. I defer voting until voting time.

Y cynnig yw derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad]. Gohiriaf y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Voting deferred until voting time.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

6. Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru: Y Rhaglen Cefnogi Pobl

Detholwyd y gwelliant canlynol: gwelliant 1 yn enw Paul Davies.

6. Welsh Liberal Democrats Debate: The Supporting People Programme

The following amendment has been selected: amendment 1 in the name of Paul Davies.

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Eitem 6 yw dadl y Democratiaid Rhyddfrydol Cymru: y rhaglen Cefnogi Pobl. Galwaf ar Peter Black i wneud y cynnig.

Item 6 is the Welsh Liberal Democrats debate: the Supporting People programme. I call on Peter Black to move the motion.

Cynnig NDM5826 Aled Roberts

Motion NDM5826 Aled Roberts

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn cydnabod pwysigrwydd y Rhaglen Cefnogi Pobl, sy'n cynnig cefnogaeth amhrisiadwy i bobl fregus fyw'n annibynnol yn eu cymunedau ac i roi terfyn ar allgáu cymdeithasol.

1. Recognises the importance of the Supporting People Programme which offers invaluable support for vulnerable people to live independently within their community and to end social exclusion;

2. Yn nodi bod y rhaglen wedi cynorthwyo dros 60,000 o bobl yng Nghymru y llynedd, gan gynnwys pobl ddigartref, pobl mewn perygl o drais yn y cartref, pobl hŷn, pobl anabl neu bobl sydd ag anghenion cymhleth.

2. Notes that last year the programme supported over 60,000 people in Wales including those who are homeless, at risk of domestic violence, elderly, disabled, or have complex needs;

3. Yn nodi y torrwyd cyllid y Rhaglen Cefnogi Pobl 8.3 y cant mewn termau real rhwng 2014-15 a 2015-16.

3. Notes that the Supporting People Programme had an 8.3 per cent real terms cut in funding between 2014-15 and 2015-16.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

4. Calls on the Welsh Government to:

a) adolygu gofynion gweinyddu a monitro'r Rhaglen Cefnogi Pobl i sicrhau bod cyllid yn cael ei flaenoriaethu ar gyfer darpariaeth rheng flaen; a

a) review the administration and monitoring requirements of the Supporting People programme to ensure that funding is prioritised for front-line provision; and

b) amddiffyn y Grant Cefnogi Pobl o fewn cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016-17.

b) protect the Supporting People grant within the 2016-17 Welsh Government budget.

Cynigiwyd y cynnig.

Motion moved.

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Welsh Liberal Democrats have tabled this motion today to debate the future of the Support People programme grant in advance of the 2016-17 draft budget.

Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi cyflwyno'r cynnig hwn heddiw i drafod dyfodol grant y rhaglen Cefnogi Pobl cyn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2016-17.

The Supporting People programme provides support to the most vulnerable people in Wales, including those who are homeless, at risk of domestic violence, elderly, disabled, young people leaving care, people with mental health problems, veterans or those with complex needs. It offers housing-related support to help people live independently in their community, whether in their own homes or in hostels, sheltered housing or other supported accommodation. Last year, it supported over 60,000 people in Wales despite a real-terms budget cut of 8.3 per cent.

Mae'r rhaglen Cefnogi Pobl yn darparu cymorth i'r bobl fwyaf agored i niwed yng Nghymru, gan gynnwys y rhai sy'n ddigartref, mewn perygl o drais yn y cartref, yr henoed, yr anabl, pobl ifanc sy'n gadael gofal, pobl â phroblemau iechyd meddwl, cyn-filwyr neu'r rhai sydd ag anghenion cymhleth. Mae'n cynnig cymorth sy'n gysylltiedig â thai i helpu pobl i fyw'n annibynnol yn eu cymuned, boed yn eu cartrefi eu hunain neu mewn hosteli, tai gwarchod neu fathau eraill o lety â chymorth. Y llynedd, cynorthwyodd dros 60,000 o bobl yng Nghymru, er gwaethaf toriad o 8.3 y cant yn y gyllideb mewn termau real.

Funding for the scheme has fallen significantly over recent years—from £136 million in 2013-14 to £134.4 million in 2014-16 and £124.5 million in 2015-16. This is a decrease of £10 million in the last year alone, which has put significant pressure on the delivery of services. The Welsh Liberal Democrats recognise the vital role that the Supporting People programme plays in helping those most in need. In our 2013 budget deal with the Welsh Government, we secured £5.5 million to mitigate against planned cuts to the scheme. Today, we call on the Welsh Government to protect this funding in the forthcoming budget.

Reducing funding for Supporting People is a false economy. Providing high-quality preventative support offers huge savings to the public purse. It eases the pressure on health and social services by preventing homelessness, aiding recovery and reducing reliance on hospitalisation and other acute services. As the Conservative amendment highlights, a study by Carmarthenshire County Council on the costs and benefits of the Supporting People programme, published in 2010, concluded that every £1 spent can save up to £2.30 for the public purse. In 2006, the Welsh Assembly Government published a report 'Costs and Benefits of the Supporting People Programme', which reported that the programme makes a significant contribution to the public purse, with an estimated saving of £1.68 for every £1 spent on housing-related support services. In January of this year, research by the Northern Ireland Council for Voluntary Action revealed that every £1 spent on Supporting People services in Northern Ireland saves £1.90 for the public purse.

These figures provide strong evidence that the programme does make huge savings and has great value as a preventative programme, reducing the need for statutory services such as health and social care and reducing pressure on the criminal justice system. In Wales, funding for Supporting People is ring-fenced, which we welcome. In contrast, in England the Government removed the ring-fencing of Supporting People funding in 2009 so that councils could spend the money elsewhere. The Isle of Wight took this approach in 2010 and a study into the consequences of its 50 per cent cut to supported housing found an increase in homelessness, offending, self-harm, substance misuse and anti-social behaviour. With local authority budgets in Wales under pressure and councils cutting services for vulnerable people, the Supporting People grant is even more important. With new duties on local authorities under the Housing (Wales) Act 2014 to help all eligible applicants to keep or find a home, Supporting People-funded projects will assist councils in fulfilling these new homelessness duties. While homelessness applications were down last year, 2013-14 saw the highest figures in the last five years, a total of 15,855 applications. The regulatory impact assessment for the housing Act suggests that these proposed changes in homelessness legislation are likely to result in an increase in applications by up to 10 per cent, with additional costs, including prevention costs. We welcome that the grant is ring-fenced in Wales, but funding must also be protected for the future.

Mae cyllid ar gyfer y cynllun wedi lleihau'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf—o £136 miliwn yn 2013-14 i £134.4 miliwn yn 2014-16 a £124.5 miliwn yn 2015-16. Dyma ostyngiad o £10 miliwn yn ystod y flywyddyn ddiwethaf yn unig, sydd wedi rhoi pwysau sylweddol ar y modd y darperir gwasanaethau. Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn cydnabod y rôl hollbwysig y mae'r rhaglen Cefnogi Pobl yn ei chwarae yn helpu'r bobl fwyaf anghenus. Yn ein cytundeb cyllidebol gyda Llywodraeth Cymru yn 2013, sicrhawyd £5.5 miliwn gennym i liniaru effaith y toriadau arfaethedig i'r cynllun. Heddiw, galwn ar Lywodraeth Cymru i ddiogelu'r cyllid hwn yn y gyllideb sydd i ddod.

Mae lleihau cyllid ar gyfer Cefnogi Pobl yn economi ffug. Mae darparu cefnogaeth ataliol o ansawdd uchel yn cynnig arbedion enfawr i'r pwrs cyhoeddus. Mae'n lleddfu'r pwysau ar iechyd a gwasanaethau cymdeithasol drwy atal digartrefedd, gan helpu adferiad a lleihau dibyniaeth ar ysbytai a gwasanaethau aciwt eraill. Fel y mae gwlliant y Ceidwadwyr yn ei amlygu, casglodd astudiaeth gan Gyngor Sir Caerfyrddin o gostau a manteision y rhaglen Cefnogi Pobl, a gyhoeddwyd yn 2010, fod pob £1 a werir yn gallu arbed hyd at £2.30 i bwrs y wlad. Yn 2006, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru 'Costau a Manteision y Rhaglen Cefnogi Pobl', a oedd yn dweud bod y rhaglen yn gwneud cyfraniad sylweddol i bwrs y wlad, gan arbed y swm amcangyfrifedig o £1.68 am bob £1 a werir ar wasanaethau cymorth sy'n gysylltiedig â thai. Ym mis Ionawr eleni, datgelodd ymchwil gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Gogledd Iwerddon fod pob £1 a werir ar wasanaethau Cefnogi Pobl yng Ngogledd Iwerddon yn arbed £1.90 i bwrs y wlad.

Mae'r ffigurau hyn yn darparu tystiolaeth gref fod y rhaglen yn gwneud arbedion enfawr a'i bod yn werthfawr iawn fel rhaglen ataliol, gan leihau'r angen am wasanaethau statudol, megis iechyd a gofal cymdeithasol ac yn lleihau'r pwysau ar y system cyfiawnder troseddol. Yng Nghymru, caiff cyllid ar gyfer Cefnogi Pobl ei glustnodi, ac rydym yn croesawu hynny. Ar y llaw arall, yn Lloegr, rhoddodd y Llywodraeth y gorau i glustnodi arian Cefnogi Pobl yn 2009 er mwyn i gynghorau allu gwario'r arian ar bethau eraill. Dilynodd Ynys Wyth y llwybr hwn yn 2010 a gwelodd astudiaeth ar ganlyniadau ei doriad o 50 y cant ar gyfer tai â chymorth gynnydd yn lefelau digartrefedd, troseddau, hunan-niweidio, camddefnyddio sylweddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Gyda chyllidebau awdurdodau lleol yng Nghymru dan bwysau a chynghorau'n torri gwasanaethau ar gyfer pobl sy'n agored i niwed, mae'r grant Cefnogi Pobl yn bwysicach fyth. Gyda dyletswyddau newydd i awdurdodau lleol o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 i helpu pob ymgeisydd cymwys i gadw neu i ddod o hyd i gartref, bydd prosiectau drwy gymorth Cefnogi Pobl yn cynorthwyo cynghorau i gyflawni'r dyletswyddau digartrefedd newydd. Er bod llai o geisiadau digartrefedd y llynedd, yn 2013-14 gwelwyd y ffigurau uchaf yn y pum mlynedd diwethaf, sef cyfanswm o 15,855 o geisiadau. Mae asesiad effaith rheoleiddiol ar gyfer y Ddeddf tai yn awgrymu bod y newidiadau arfaethedig hyn i'r ddeddfwriaeth ddigartrefedd yn debygol o arwain at gynnydd o hyd at 10 y cant yn nifer y geisiadau, gyda chostau ychwanegol, gan gynnwys costau ataliol. Rydym yn croesawu'r ffaith fod y grant yn yng Nghymru wedi'i glustnodi, ond rhaid diogelu cyllid ar gyfer y dyfodol hefyd.

It's not just about the financial impact. I've visited a number of excellent projects in my region supported by this vital funding and have seen first-hand the transformational impact it can have on the lives of those in need. So many of those who benefit from the Supporting People programme are truly inspirational, overcoming some of the most difficult times in their lives and going on to achieve success and to rebuild a better future for themselves and their families. Take, for example, the case of Joanne, a 19-year-old female who has been with Llamau's service in Bridgend since October 2014. In April that year, Joanne suffered the passing away of her mother. Due to the enormous pressures on the family and personal issues around her father—he was an alcoholic—the relationship with her father broke down and he evicted Joanne from the family home. Joanne slept on her sister's sofa from July until October 2014, before being awarded homeless status by Bridgend County Borough Council, when she was referred to Llamau's Bridgend tenancy crisis service by Bridgend County Borough Council. Eventually, the crisis worker was able to source and secure a suitable private rented property with support for the bond and a discretionary assistance fund award to provide some basic household appliances and goods. Joanne worked closely with all support staff to set up utilities, make payment plans and also deal with the debt that she had accrued whilst trying to find a settled home. Through this difficult time, she remained at college studying for a childcare qualification and was awarded the student of the year award. Supporting People funding helped Joanne to get back on her feet, remain in education, build her confidence and self-esteem and help her on the path to employment.

Or there's the case of the Ozzy, who has received support from the Wallich after his marriage broke down in 2010. Ozzy started drinking more and more, eventually lost his job and started sleeping rough. He came across the Wallich breakfast run in Bridgend, which gave him hot food and drink and encouraged him to go to their drop-in, but at first he was reluctant. Ozzy spent time drinking with his friends, trying to block out what was happening and seeing his little boy less and less. He hit rock bottom when a friend killed himself because he couldn't cope with living on the streets. Ozzy overdosed and it hit him that he needed help. He started going to the drop-in at the Wallich. They helped him to get a flat and to address his drinking. He joined their residents and services user volunteer programme, and this gave him a purpose again and boosted his confidence. He started to get involved at a higher level, talking in tender presentations and speaking at events in front of 300 people. He completed 700 hours of volunteering that year and now works as a maintenance officer in the Wallich head office. Supporting People funding helped Ozzy to make this amazing turnaround, and now he's determined to make his son proud.

Nid yw'n ymwneud yn unig â'r effaith ariannol. Rwyf wedi ymweld â nifer o brosiectau ardderchog yn fy rhanbarth sy'n cael eu cefnogi gan y cyllid hanfodol hwn ac wedi gweld tystiolaeth uniongyrchol o'r effaith drawsnewidiol y gall ei chael ar fywydau pobl mewn angen. Mae cymaint o'r rhai sy'n elwa o'r rhaglen Cefnogi Pobl yn wirioneddol ysbrydoledig, o ran y modd y maent yn goresgyn rhai o'r adegau mwyaf anodd yn eu bywydau ac yn mynd ymlaen i gael llwyddiant ac i ailadeiladu dyfodol gwell i'w hunain a'u teuluoedd. Er enghraifft, cymerwch achos Joanne, dynes 19 oed sydd wedi bod gyda gwasanaeth Llamau ym Mhen-y-bont ar Ogwr ers mis Hydref 2014. Ym mis Ebrill y flwyddyn honno, bu farw mam Joanne. Oherwydd y pwysau enfawr ar y teulu a materion personol yn ymwneud â'i thad—roedd yn alcoholig—chwalodd y berthynas â'i thad a throdd yntau Joanne allan o gartref y teulu. Cysgai Joanne ar sofffa ei chwaer o fis Gorffennaf tan fis Hydref 2014, cyn cael statws digartrefedd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr pan gafodd ei hatgyfeirio at wasanaeth tenantiaeth mewn argyfwng Llamau gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Yn y pen draw, gallodd y gweithiwr argyfwng ddod o hyd i eiddo addas ar rent preifat a chymorth ar gyfer y bond a chyfraniad o gronfa cymorth disgresynol ar gyfer darparu offer a nwyddau sylfaenol ar gyfer y cartref. Gweithiodd Joanne yn agos gyda'r holl staff cymorth i drefnu cyfleustodau, gwneud cynlluniau talu a hefyd i ymdrin â'r ddyled a oedd wedi cronni wrth iddi geisio dod o hyd i gartref sefydlog. Drwy'r cyfnod anodd hwn, daliodd ati yn y coleg i astudio ar gyfer cymhwyster gofal plant a dyfarnwyd gwobr myfyriwr y flwyddyn iddi. Helpodd cyllid Cefnogi Pobl Joanne i gael ei thraed oddi tani, i aros mewn addysg, ac i feithrin ei hyder a'i hunan-barch, a'i helpu ar y llwybr i gyflogaeth.

Neu mae achos Ozzy, sydd wedi cael cymorth gan Wallich ar ôl i'w briodas chwalu yn 2010. Dechreuodd Ozzy yfed mwy a mwy, ac yn y pen draw collodd ei waith a dechreuodd gysgu ar y stryd. Daeth ar draws cynllun darparu brecwast Wallich ym Mhen-y-bont ar Ogwr, a roddodd fwyd a diod poeth iddo ac a'i hanogodd i fynd i'w canolfan galw heibio, ond ar y dechrau roedd yn amharod i wneud hynny. Treuliodd Ozzy amser yn yfed gyda'i ffrindiau, yn ceisio anghofio'r hyn oedd yn digwydd ac yn gweld llai a llai ar ei fab bach. Cyrhaeddodd y gwaelod pan laddodd ffrind iddo ei hun am na allai ymdopi â byw ar y stryd. Cymerodd Ozzy orddos a sylweddolodd ei fod angen help. Dechreuodd fynd i ganolfan galw heibio Wallich. Cafodd help ganddynt i ddod o hyd i fflat ac i fynd i'r afael â'i broblem yfed. Ymunodd â'u rhaglen wirfoddol ar gyfer preswylwyr a defnyddwyr gwasanaethau, a rhoddodd hyn ddiben iddo eto a hwb i'w hyder. Dechreuodd gymryd rhan ar lefel uwch, gan siarad mewn cyflwyniadau tendro ac mewn digwyddiadau o flaen 300 o bobl. Cwblhaodd 700 awr o waith gwirfoddol y flwyddyn honno ac erbyn hyn mae'n gweithio fel swyddog cynnal a chadw ym mhrif swyddfa Wallich. Mae arian Cefnogi Pobl wedi helpu Ozzy i gyflawni'r newid anhygoel hwn, a bellach mae'n benderfynol o wneud ei fab yn falch ohono.

These cases are inspirational, but they also highlight how fragile our lives can be. The death of a family member or a marriage breakdown could affect any one of us, and the Supporting People programme offers vital funding for those in vulnerable situations. The funding provides a safety net but also helps people to fulfil their potential even after immensely difficult situations. It helps them to develop life skills such as budgeting, shopping or cooking on a low income and gives many the skills and experience through volunteering and training to help them move into employment. I appreciate the efforts that the Minister has made to date to protect the programme despite difficult budget pressures facing the Welsh Government. However, the reality is that these support services are being squeezed from all angles and many are already stretched to capacity. We hope all Members will support our motion today to safeguard this invaluable funding for the future because, no matter how difficult the budgets become over the next few years, we know that the Supporting People programme, this preventative funding, is going to help to save money and reduced costs to the Welsh Government. It is a long-term investment that is worth while making, and it's a long-term investment that we cannot afford not to make.

Mae'r achosion hyn yn ysbrydoledig, ond maent hefyd yn tynnu sylw at ba mor fregus y gall ein bywydau fod. Gallai marwolaeth aelod o'r teulu neu chwalu priodas effeithio ar unrhyw un ohonom, ac mae'r rhaglen Cefnogi Pobl yn cynnig arian hanfodol ar gyfer pobl mewn sefyllfaoedd bregus. Mae'r cyllid yn darparu rhwyd ddiogelwch, ond hefyd yn helpu pobl i gyflawni eu potensial hyd yn oed ar ôl dioddef sefyllfaoedd hynod o anodd. Mae'n eu helpu i ddatblygu sgiliau byw megis cyllidebu, siopa neu goginio ar incwm isel ac yn rhoi sgiliau a phrofiad i lawer o bobl drwy waith gwirfoddol a hyfforddiant i'w helpu i ddod o hyd i waith. Rwy'n gwerthfawrogi'r ymdrechion y mae'r Gweinidog wedi'u gwneud hyd yn hyn i ddiogelu'r rhaglen er gwaethaf y pwysau anodd sy'n wynebu cyllideb Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, y realiti yw bod y gwasanaethau cymorth hyn yn cael eu gwasgu o bob cwr ac mae llawer eisoes wedi eu hymestyn i'r pen. Rydym yn gobeithio y bydd pob Aelod yn cefnogi ein cynnig heddiw i ddiogelu'r cyllid hynod werthfawr hwn ar gyfer y dyfodol oherwydd, ni waeth pa mor anodd y bydd cyllidebau dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, gwyddom fod y rhaglen Cefnogi Pobl, y cyllid ataliol hwn, yn mynd i helpu i arbed arian a lleihau costau i Lywodraeth Cymru. Mae'n fuddsoddiad hirdymor sy'n werth ei wneud, ac mae'n fuddsoddiad hirdymor na allwn fforddio peidio â'i wneud.

16:35

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Rwyf wedi dethol y gwelliant i'r cynnig. Galwaf ar Mark Isherwood i gynnig gwelliant 1 a gyflwynwyd yn enw Paul Davies.

I have selected the amendment to the motion. I call on Mark Isherwood to move amendment 1, tabled in the name of Paul Davies.

Gwelliant 1—Paul Davies

Amendment 1—Paul Davies

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add as new point at end of motion:

Yn nodi bod y rhaglen Cefnogi Pobl yn lleihau pwysau diangen ar wasanaethau statudol megis iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ac yr amcangyfrifir y gall pob £1 a fuddsoddir yn y rhaglen hon arbed hyd at £2.30 i bwrs y wlad.

Notes that the Supporting People programme reduces unnecessary pressures on statutory services such as health and social services and that it is estimated that every £1 invested in this programme can save up to £2.30 for the public purse.

Cynigiwyd gwelliant 1.

Amendment 1 moved.

16:35

Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I was pleased to jointly sponsor and speak at the Cymorth Cymru and Community Housing Cymru, Let's Keep on Supporting People event, in the Senedd on 18 May. The event was positive with providers and service users rallying to celebrate the good work of this programme after it had been running for 12 years.

Roeddwn yn falch i gyd-noddi a siarad yn nigwyddiad Cymorth Cymru a Cartrefi Cymunedol Cymru, Gadewch i ni Barhau i Gefnogi Pobl, yn y Senedd ar 18 Mai. Roedd y digwyddiad yn gadarnhaol gyda darparwyr a defnyddwyr gwasanaeth yn dod ynghyd i ddathlu gwaith da'r rhaglen hon wedi iddi fod ar waith ers 12 mlynedd.

As I said in last November's draft budget debate, proposed cuts for the Supporting People programme present a false economy. This programme saves £2.30 for every £1 spent, preventing homelessness, preventing spending on health and social care and increased community safety, minimising the need for high-cost interventions and reducing avoidable pressure on statutory services. I therefore urged Ministers to listen and to act positively in the final budget to address these very real issues. Unfortunately, they did not and we are, therefore, pleased to support this motion.

Fel y dywedais yn y ddadl ar y gyllideb ddrafft fis Tachwedd diwethaf, mae'r toriadau arfaethedig ar gyfer y rhaglen Cefnogi Pobl yn economi ffug. Mae'r rhaglen hon yn arbed £2.30 am bob £1 a werir, yn atal digartrefedd, yn atal gwariant ar iechyd a gofal cymdeithasol ac yn cynnig mwy o ddiogelwch cymunedol, gan leihau'r angen am ymyriadu costus a lleihau'r pwysau diangen ar wasanaethau statudol. Felly, anogais y Gweinidogion i wrando a gweithredu'n gadarnhaol yn y gyllideb derfynol er mwyn mynd i'r afael â'r materion real hyn. Yn anffodus, ni wnaethant hynny ac rydym ninnau, felly, yn falch o gefnogi'r cynnig hwn.

As Cymorth Cymru, Community Housing Cymru, the Chartered Institute of Housing Cymru, Shelter Cymru, Tenant Participation Advisory Service Cymru, Tai Pawb, Welsh Tenants and Citizens Advice Cymru have jointly stated this is crunch time for the Supporting People programme. I therefore move amendment 1 based on their statement to me that, last year, the programme supported over 60,000 people, and this year, they said they hope they can continue to work with those people and more if they need it. There's an obvious reason to continue investing in this programme, they said, and that by providing high quality support, Supporting People could prevent greater harm and cost further down the line, reducing unnecessary pressures on statutory services such as health and social services.

They said, again, that it's estimated that spending £1 on this programme can save up to £2.30 for the public purse, and that continuing to invest in this programme makes financial sense, reducing the impact in the future, ensuring that people who need it are supported to remain independent and able to take up their part in society, and that it is not just limited to the financial impact.

They said, to be clear, the Supporting People programme can have a transformational impact on people themselves; it isn't just about providing a safety net, although it does that as well, but about letting people live to their potential, even after terrible experiences. They said their members' work is full of people's inspirational tales: a woman seeking the shelter of a women's refuge and then deciding to go to university and take control of her life; a veteran who experienced a lack of support after serving his country being able to find somewhere safe and supportive to rebuild his life; and a young teenager who had survived abuse and was lashing out being encouraged to find positive outlets for his anger. At the core of these stories are two elements: the positive, personal strengths of people who constantly surprise expectations and the tireless work of colleagues across the Supporting People programme who make it happen.

During the summer, I was pleased to attend events across north Wales where I met and was photographed with local Let's Keep Supporting People campaigners. Speaking at the community housing debate held at this year's National Eisteddfod with the Minister, I noted that over my years as an Assembly Member, I visited many Supporting People and welfare-to-work programmes being delivered by housing associations in Wales, most recently, the Erw Groes family centre and Clwyd Alyn Housing Association's women's aid office in Holywell in Flintshire. I added that housing related support both delivers essential preventative services for vulnerable people and saves health and social services significantly larger sums than those spent.

Fel y mae Cymorth Cymru, Cartrefi Cymunedol Cymru, Sefydliad Tai Siartredig Cymru, Shelter Cymru, Gwasanaeth Ymgynghorol Cyfranogiad Tenantiaid Cymru, Tai Pawb, Tenantiaid Cymru a Chyngor ar Bopeth Cymru wedi datgan ar y cyd, mae'n adeg dyngedfennol ar raglen Cefnogi Pobl. Felly cynigiau welliant 1 yn seiliedig ar eu datganiad i mi fod y rhaglen wedi cynorthwyo dros 60,000 o bobl y llynedd, ac eleni, roeddent yn dweud eu bod yn gobeithio gallu parhau i weithio gyda'r bobl hynny a mwy os oes angen. Mae yna reswm amlwg dros barhau i fuddsoddi yn y rhaglen hon, meddent, a thrwy ddarparu cefnogaeth o ansawdd uchel, gallai Cefnogi Pobl atal mwy o niwed a chostau yn nes ymlaen, gan leihau'r pwysau diangen ar wasanaethau statudol megis iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

Unwaith eto, yn ôl yr hyn roeddent yn ei ddweud, amcangyfrifir y gallai gwario £1 ar y rhaglen hon arbed hyd at £2.30 i bwrs y wlad, a bod parhau i fuddsoddi yn y rhaglen hon yn gwneud synnwyr ariannol, yn lleihau'r effaith yn y dyfodol, gan sicrhau bod y bobl sydd ei hangen yn cael cefnogaeth i aros yn annibynnol a gallu gwneud eu rhan mewn cymdeithas, ac nad yw'n gyfyngedig i'r effaith ariannol.

I fod yn glir, roeddent yn dweud wrthyf y gall y rhaglen Cefnogi Pobl gael effaith drawsnewidiol ar bobl; nid yw'n ymwneud yn unig â darparu rhwyd ddiogelwch, er ei fod yn gwneud hynny hefyd, ond mae hefyd yn gadael i bobl fyw i'w potensial llawn, hyd yn oed ar ôl profiadau ofnadwy. Roeddent yn dweud bod gwaith eu haelodau yn llawn o hanesion ysbrydoledig pobl: gwraig yn ceisio lloches mewn lloches i fenywod, yna'n penderfynu mynd i'r brifysgol ac yn cymryd rheolaeth dros ei bywyd; cyn-filwr a ddiodefodd yn sgil diffyg cymorth ar ôl gwasanaethu ei wlad yn gallu dod o hyd i rywle diogel a chefnogol i ailadeiladu ei fywyd; a llanc ifanc yn ei arddegau a oedd wedi goroesi cael ei gam-drin ac a oedd yn ymddwyn yn ymosodol yn cael ei annog i ddod o hyd i ffordd gadarnhaol o wyntyllu ei ddieter. Wrth wraidd y straeon hyn, ceir dwy elfen: cryfderau cadarnhaol personol pobl sy'n gyson yn rhagori ar y disgwyladau a gwaith diflino cydweithwyr ar draws y rhaglen Cefnogi Pobl sy'n gwneud i hyn ddigwydd.

Yn ystod yr haf, roeddwn yn falch o fynd i ddiwyddiadau ar draws gogledd Cymru lle y cyfarfûm ag ymgyrchwyr lleol Gadewch i ni Barhau i Gefnogi Pobl, a chael fy llun wedi'i dynnu gyda hwy. Wrth siarad yn y ddatl ar dai cymunedol a gynhaliwyd yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni gyda'r Gweinidog, nodais fy mod, dros y blynyddoedd a dreuliais yn Aelod o'r Cynulliad, wedi ymweld â sawl rhaglen Cefnogi Pobl a rhaglenni o fudd-dâl i waith a ddarparwyd gan gymdeithasau tai yng Nghymru, ac yn fwyaf diweddar, canolfan deuluol Erw Groes a swyddfa cymorth i ferched Cymdeithas Tai Clwyd Alyn yn Nhreffynnon, Sir y Fflint. Ychwanegais fod cymorth sy'n gysylltiedig â thai yn darparu gwasanaethau ataliol hanfodol i bobl sy'n agored i niwed ac yn arbed costau gryn dipyn yn uwch i'r gwasanaeth iechyd a gwasanaethau cymdeithasol na'r hyn a wariwyd.

This is the same argument we successfully used a decade ago when the then Welsh Government Minister, who still sits in Cabinet, had proposed to cut the Supporting People budget. The Welsh Local Government Association document, 'In Defence of Localism', details a new settlement between citizens, communities and the state, engaging all in shared responsibility for achieving better social outcomes.

Given the removal of protected funding with the removal of the former Supporting People revenue grant, it's therefore also vital that we heed the Wales Council for Voluntary Action's statement that Welsh Government and the sector need to refresh current engagement mechanisms to develop, promote and monitor a programme for action based on co-production and common ground. But as the Bevan Foundation stated this month, the challenge is more than just co-production; it's about the distribution of power and self-determination. So, let us support and enable people to rebuild and maintain their lives, building resilient communities, seeing everyone as equal partners in local services.

16:40

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

In bringing this motion today, we don't, in any way, underestimate the difficulty that the Welsh Government has with its budgetary position and that's why part of the motion seeks to ask the Government to consider, perhaps, ways in which information that's been provided to us by the service providers themselves actually states that there ought to be, at this stage, a reconsideration of some of the administration and monitoring arrangements for the Supporting People programme. There's a great deal of paperwork currently, monitoring and recording, which we accept are required to justify expenditure funding, but, at the moment, a significant percentage of resources within those providers is being wasted on burdensome and unnecessary administration and monitoring.

We think it's most important that we actually look at the outcomes that are achieved for the individual service user, rather than judging the achievements of Welsh Government or local authority targets. As far as outcomes are concerned, they will vary widely between service users. Support for people with learning disabilities, for example, which are typically permanent, cannot be compared with that for homeless persons for whom temporary intervention is required.

Performance data, we believe, should be aggregated from the bottom-up to be more person-centred, rather than being based top-down on the expectations of Welsh Government outcomes into which individuals sometimes do not fit. Allowing providers to use Supporting People resources more flexibly and a reduction in the amount of administration involved in the scheme would, we think, be welcome. We think this is particularly important given the cuts that have already been sustained by Supporting People schemes in the current year, with rumours, certainly in north Wales, of a further two years of cuts. Certainly, the authorities themselves currently are planning on 10 per cent cuts over the next two years. If these cuts go ahead, of course, services will be reduced, and could be removed altogether in some instances.

Dyma'r un ddadl a ddefnyddiwyd gennym yn llwyddiannus ddegawd yn ôl pan oedd Gweinidog Llywodraeth Cymru bryd hynny, sy'n dal i fod yn aelod o'r Cabinet, wedi argymhell torri'r gyllideb Cefnogi Pobl. Mae dogfen Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, 'O blaid atebolrwydd lleol', yn manylu ar setliad newydd rhwng dinasyddion, cymunedau a'r wladwriaeth, gan rannu'r cyfrifoldeb am gyflawni canlyniadau cymdeithasol gwell.

Gan fod diogelu cyllid wedi dod i ben gyda dileu grant refeniw blaenorol Cefnogi Pobl, mae'n hanfodol hefyd felly ein bod yn gwrandao ar ddatganiad Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru fod angen i Lywodraeth Cymru a'r sector adfywio systemau ymgysylltu presennol er mwyn datblygu, hyrwyddo a monitro rhaglen weithredu yn seiliedig ar gydgyhyrchu a thir cyffredin. Ond fel y dywedodd Sefydliad Bevan y mis hwn, mae'r her yn fwy na chydgyhyrchu yn unig; mae'n ymwneud â dosbarthiad grym a phobl yn penderfynu drostynt eu hunain. Felly, gadewch i ni gefnogi a galluogi pobl i ailadeiladu a chynnal eu bywydau, gan adeiladu cymunedau gwydn, a gweld pawb fel partneriaid cyfartal mewn gwasanaethau lleol.

Wrth gyflwyno'r cynnig hwn heddiw, nid ydym mewn unrhyw fodd yn bychanu'r anhawster y mae Llywodraeth Cymru yn ei gael gyda'i sefyllfa gyllidebol a dyna pam y mae rhan o'r cynnig yn gofyn i'r Llywodraeth, o bosibl, i ystyried ffyrdd y mae'r wybodaeth a roddwyd i ni gan ddarparwyr y gwasanaeth eu hunain ar hyn o bryd yn nodi y dylid ailystyried peth o'r gwaith gweinyddol a'r trefniadau monitro ar gyfer y rhaglen Cefnogi Pobl. Mae yna lawer iawn o waith papur ar hyn o bryd, gwaith monitro a chofnodi, a derbyniwn ei bod hi'n ofynnol i ni gyfiawnhau cyllid gwariant, ond ar hyn o bryd, mae canran sylweddol o adnoddau'r darparwyr hynny'n cael ei wastraffu ar weinyddu a monitro beichus a diangen.

Credwn ei bod yn bwysig i ni edrych ar y canlyniadau sy'n cael eu cyflawni i'r defnyddiwr gwasanaeth unigol, yn hytrach na barnu llwyddiannau yn erbyn targedau Llywodraeth Cymru neu awdurdodau lleol. O ran canlyniadau, byddant yn amrywio'n helaeth o un defnyddiwr gwasanaeth i'r llall. Ni ellir cymharu cymorth i bobl ag anableddau dysgu, er enghraifft, sydd fel arfer yn barhaol, â chymorth i bobl ddigartref sydd angen ymyrraeth dros dro.

Yn ein barn ni, dylid cydgrynhoi data perfformiad o'r gwaelod i fyny er mwyn canolbwyntio mwy ar yr unigolyn, yn hytrach na'i seilio o'r brig i lawr ar ddisgwyliadau ar gyfer canlyniadau Llywodraeth Cymru nad oes lle ynddynt weithiau i unigolion. Credwn fod caniatáu i i ddefnyddwyr ddefnyddio adnoddau Cefnogi Pobl yn fwy hyblyg a lleihau'r gwaith gweinyddol sydd ynghlwm wrth y cynllun i'w groesawu. Credwn fod hyn yn arbennig o bwysig o ystyried y toriadau a wnaed eisoes i gynlluniau Cefnogi Pobl yn y flwyddyn gyfredol, gyda sibrydion, yn sicr yn y gogledd, y gwelir dwy flynedd arall o doriadau. Yn sicr, mae'r awdurdodau eu hunain ar hyn o bryd yn cynllunio toriadau o 10 y cant dros y ddwy flynedd nesaf. Os ceir y toriadau hyn, wrth gwrs, bydd gwasanaethau'n crebachu, a gallent ddiflannu'n llwyr mewn rhai achosion.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I think it's important that we remind ourselves of the types of services that are currently provided through people whom we've been visiting as a group over the summer. Glenda is a lady in her 50s with a history of mental health problems and alcohol misuse, as well as mobility difficulties. She was referred to CAIS by the local community's substance misuse nurse, and through CAIS she received support to end her tenancy and go into accommodation. After her detox, she moved into Northgate House, a supported living scheme for people recovering from substance misuse issues. Glenda received support from staff at Northgate House for issues such as budgeting, benefits and daily living skills. This support prevented her from having a relapse. She now has a busy diary, attending church, gym and IT classes, and is also attending an emotional coping skills group. Thanks to Supporting People workers and the support provided through Welsh Government funding, she's now confident in managing her accommodation and money and is, again, an active member of her community.

Or there are people like Audrey, who was homeless before she moved into Pendinas Hostel in Bangor. She'd previously overcome heroin addiction, but a tragic family event resulted in a relapse. She suffered from problems with her physical and mental health and was suffering with severe depression. At the hostel, she took part in a detox programme and coaching to understand the root of her addiction, and she now is again attending a course in September to study health and social sciences at Coleg Menai.

We all have experiences of Supporting People helping care leavers and other young people at risk, often lacking in life skills and experiences and who may be particularly prone to exploitation. Kirsty recently visited the Gwalia Foyer project in Brecon, which offers safe and secure housing for people aged 16 to 25. These case studies highlight the range of services offered through Supporting People.

I know from experience that local government have had to streamline services as a result of changes to the system in recent years, to the point, in some instances, where funding now doesn't even cover overheads. Housing associations are self-funding some costs of Supporting People by diverting resources away from new house building, at a time when we are facing a national housing shortage. Funding for this programme, if at all possible, must be protected for the tremendous value that it offers to so many vulnerable people in Wales, as well as—as Peter Black has mentioned—the fact that the preventative service does actually lead to savings to the public purse in the long term. I know, from the events that Mark Isherwood referred to in the summer, that the Minister is ready to seriously consider this in advance of the draft budget this year.

Rwy'n credu ei bod hi'n bwysig i ni atgoffa ein hunain am y mathau o wasanaethau sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd drwy bobl y buom yn ymweld â hwy fel grŵp yn ystod yr haf. Dynes yn ei 50au yw Glenda sydd â hanes o broblemau iechyd meddwl a chamddefnyddio alcohol, yn ogystal ag anawsterau symudedd. Fe'i cyfeiriwyd at CAIS gan nyrs camddefnyddio sylweddau y gymuned leol, a thrwy CAIS cafodd gymorth i roi'r gorau i'w thenantiaeth a symud i lety. Ar ôl dadwenwyno, symudodd i Northgate House, cynllun byw â chymorth ar gyfer pobl sy'n gwella o broblemau camddefnyddio sylweddau. Cafodd Glenda gymorth gan staff yn Northgate House gyda materion megis cyllidebu, budd-daliadau a sgiliau byw bob dydd. Rhwystrodd y cymorth hwn hi rhag atglafychu. Mae'n brysur iawn bellach, yn mynychu'r eglwys, y gampfa a dosbarthiadau TG, ac mae hefyd yn mynychu grŵp sgiliau ymdopi emosiynol. Diolch i weithwyr Cefnogi Pobl a'r cymorth a ddarparwyd drwy gyllid gan Lywodraeth Cymru, mae hi bellach yn hyderus wrth reoli ei llety a'i harian ac unwaith eto, mae'n aelod gweithgar o'i chymuned.

Neu mae yna bobl fel Audrey, a oedd yn ddigartref cyn iddi symud i Hostel Pendinas, Bangor. Roedd hi wedi goresgyn dibyniaeth ar heroin cyn hynny, ond llithrodd yn ôl i'r arfer yn sgil digwyddiad teuluol trasig. Roedd hi'n dioddef o broblemau iechyd corfforol a meddyliol ac roedd yn dioddef o iselder difrifol. Yn yr hostel, cymerodd ran mewn rhaglen ddadwenwyno a hyfforddi i ddeall gwraidd ei dibyniaeth, ac mae hi bellach, ym mis Medi, yn mynychu cwrs i astudio iechyd a gwyddorau cymdeithasol yng Ngholeg Menai.

Mae gan bawb ohonom brofiadau o Cefnogi Pobl yn helpu pobl sy'n gadael gofal a phobl ifanc eraill sydd mewn perygl, yn aml heb fawr o sgiliau byw a phrofiad ac a allai fod yn arbennig o agored i gael eu hecshloetio. Yn ddiweddar ymwelodd Kirsty â phrosiect Gwalia Foyer yn Aberhonddu, sy'n cynnig tai saff a diogel i bobl rhwng 16 a 25 oed. Mae'r astudiaethau achos hyn yn tynnu sylw at yr amrywiaeth o wasanaethau a gynigir drwy Cefnogi Pobl.

Gwn o brofiad fod llywodraeth leol wedi gorfod symleiddio gwasanaethau o ganlyniad i newidiadau i'r system yn y blynyddoedd diwethaf, i'r pwynt, mewn rhai achosion, lle nad yw'r cyllid bellach hyd yn oed yn talu costau cyffredinol. Mae cymdeithasau tai yn talu rhai o gostau Cefnogi Pobl eu hunain drwy ddargyfeirio adnoddau o adeiladu tai newydd, ar adeg pan ydym yn wynebu prinder tai cenedlaethol. Os yn bosibl o gwbl, rhaid diogelu arian ar gyfer y rhaglen hon oherwydd y gwerth aruthrol y mae'n ei gynnal i gymaint o bobl agored i niwed yng Nghymru, yn ogystal â'r ffaith—fel y mae Peter Black wedi sôn—fod y gwasanaeth ataliol mewn gwirionedd yn arwain at arbedion i'r pwrs cyhoeddus yn y tymor hir. O'r digwyddiadau y cyfeiriodd Mark Isherwood atynt dros yr haf, gwn fod y Gweinidog yn barod i ystyried hyn o ddifrif cyn y gyllideb ddrafft eleni.

16:45

Jocelyn Davies [Bywgraffiad Biography](#)

The Supporting People programme is a lifeline for those who are vulnerable and at risk. By stepping in before those in need are at crisis point and helping those who need support to live independently, the Supporting People programme can, and has, transformed lives.

Mae'r rhaglen Cefnogi Pobl yn rhaff achub i bobl sy'n agored i niwed ac mewn perygl. Drwy gamu i mewn cyn y daw'n argyfwng ar bobl sydd mewn angen a helpu'r rheini sydd angen cymorth i fyw'n annibynnol, mae'r rhaglen Cefnogi Pobl yn gallu, ac wedi, trawsnewid bywydau.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I'm a longstanding supporter of Supporting People. When in Government, we protected the Supporting People budget, and since have made it a priority in budget negotiations. In fact, I also have a personal connection because, as you know, my daughter was a Supporting People caseworker for a while. So, I am very aware of the fantastic work being carried out in our communities, giving people the stability that they need. There are many, many stories like Joanne's and Ozzy's that Peter Black told us about earlier, and the examples mentioned by Mark Isherwood and Aled Roberts. So, I think that the argument for preventative intervention is well-rehearsed. By providing support as early as possible, Supporting People helps to reduce demand on some of the most under-pressure public services.

The financial impact of this, of course, can be very hard to measure, but I think that the evidence that we have is still very clear: Supporting People provides value for money. Early intervention prevents more expensive, less effective interventions later on; and the people affected are happier, healthier and more fulfilled, which is why, of course, this programme has widespread support within this institution and elsewhere.

This year, the Welsh Government cut the Supporting People grant by almost £10 million. As part of the budget scrutiny process, the Finance Committee heard evidence from a number of organisations that work to deliver the programme itself or see its benefits at first hand. They told us that the cuts to Supporting People were short-sighted and risked undermining the implementation of Welsh Government legislation, like the Housing (Wales) Act 2014 and the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014. The evidence from them was compelling.

So, of course, we were hugely disappointed that the Government chose to reject the committee's recommendation to reconsider this funding decision. We have yet to see any evidence from the Government that the reduction has not resulted in increased hardship for vulnerable people across Wales, although the Minister did give us assurance that that cut was being managed. Perhaps she can tell us today how it was managed.

Now, I understand that budgets are shrinking and that further cuts to public spending are on the horizon. This is, of course, one more reason to protect a programme that can ease the pressure on our stretched public services. Spend to save should be a priority, especially for those with the least resources themselves, and this is genuinely a spend-to-save programme.

Finally, behind, of course, every argument about budgets and statistics, are individuals, each with their own story of the Supporting People programme offering them the support that they need to live a life that is independent and fulfilled. These are stories of transformation, hope and new opportunity. It is those people who Supporting People has helped who may not be able to speak for themselves that we must remember. It is for these reasons that we will be supporting the Lib Dem motion and the Conservative amendment today.

Rwy'n un o gefnogwyr Cefnogi Pobl ers tro. Pan oeddem mewn grym, diogelwyd y gyllideb Cefnogi Pobl gennym, ac ers hynny, rydym wedi rhoi blaenoriaeth i'r rhaglen yn y trafodaethau cyllidebol. A dweud y gwir, mae gennyf gysylltiad personol hefyd oherwydd, fel y gwyddoch, bu fy merch yn un o weithwyr achosion Cefnogi Pobl am gyfnod. Felly, rwy'n ymwybodol iawn o'r gwaith rhagorol sy'n cael ei wneud yn ein cymunedau, gan roi'r sefydlogrwydd sydd ei angen arnynt i bobl. Mae yna lu o straeon fel rhai Joanne ac Ozzy y soniodd Peter Black wrthym amdanynt yn gynharach, a'r enghreifftiau a grybwyllodd Mark Isherwood ac Aled Roberts. Felly, credaf fod y ddatl dros ymyrraeth ataliol wedi cael ei chlywed yn fynych. Drwy ddarparu cefnogaeth cyn gynted ag y bo modd, mae Cefnogi Pobl yn helpu i leihau'r galw ar rai o'r gwasanaethau cyhoeddus sydd o dan fwyaf o bwysau.

Wrth gwrs, gall effaith ariannol hyn fod yn anodd iawn ei mesur, ond credaf fod y dystiolaeth sydd gennym yn dal yn glir iawn: mae Cefnogi Pobl yn darparu gwerth am arian. Mae ymyrraeth gynnar yn atal ymyriadau mwy costus, llai effeithiol yn nes ymlaen; ac mae'r bobl yr effeithir arnynt yn hapusach, yn iachach ac yn fwy bodlon, a dyna pam, wrth gwrs, y mae'r rhaglen hon yn cael cefnogaeth eang yn y sefydliad hwn ac mewn mannau eraill.

Eleni, torrodd Llywodraeth Cymru bron i £10 miliwn oddi ar y grant Cefnogi Pobl. Yn rhan o'r broses o graffu ar y gyllideb, clywodd y Pwyllgor Cyllid dystiolaeth gan nifer o sefydliadau sy'n gweithio i gyflwyno'r rhaglen ei hun neu sy'n gweld ei manteision drostynt eu hunain. Dywedodd y bobl hyn wrthym fod y toriadau i gyllid Cefnogi Pobl yn annoeth ac mewn perygl o danseilio gweithrediad deddfwriaeth Llywodraeth Cymru, megis Deddf Tai (Cymru) 2014 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Roedd y dystiolaeth a roesant yn rymus.

Felly, wrth gwrs, roeddem yn hynod o siomedig fod y Llywodraeth wedi dewis gwrthod argymhelliaid y pwyllgor i ailystyried y penderfyniad ariannu hwn. Rydym eto i weld unrhyw dystiolaeth gan y Llywodraeth nad yw'r gostyngiad wedi arwain at fwy o galedi i bobl sy'n agored i niwed ledled Cymru, er i'r Gweinidog roi sicrwydd i ni fod y toriad yn cael ei reoli. Efallai y gall ddweud wrthym heddiw sut y cafodd ei reoli.

Nawr, rwy'n deall bod cyllidebau'n crebachu a bod toriadau pellach i wariant cyhoeddus ar y gorwel. Wrth gwrs, dyma un rheswm arall dros amddiffyn rhaglen a all leddfu'r pwysau ar ein gwasanaethau cyhoeddus sydd o dan bwysau. Dylai gwario i arbed fod yn flaenoriaeth, yn enwedig ar gyfer y rhai â'r lleiaf o adnoddau eu hunain, ac mae hon yn rhaglen gwario i arbed go iawn.

Yn olaf, wrth wraidd pob datl am gyllidebau ac ystadegau, ceir unigolion wrth gwrs, pob un â'i stori ei hun am y rhaglen Cefnogi Pobl yn cynnig y gefnogaeth sydd ei angen arnynt i fyw bywyd annibynnol a chyflawn. Straeon am drawsnewid, gobaith a chyfle newydd yw'r rhain. Y rhain yw'r bobl y mae Cefnogi Pobl wedi'u helpu, pobl nad ydynt yn gallu siarad drostynt eu hunain efallai, rhaid i ni gofio hynny. Am y rhesymau hyn, byddwn yn cefnogi cynnig y Democratiaid Rhyddfrydol a gwelliant y Ceidwadwyr heddiw.

As many of you will know, mental health is an issue that's very close to my heart, and Supporting People does play a key role in assisting many people who do have mental health issues. I've had the privilege, over the last year or so, of seeing that human value of this support in person when I've visited a shared house in Penarth and had a fantastic afternoon chatting with the residents there. I've visited education projects from Llamau in both Cardiff and Pontypridd. But, this preventative support also offers potential cost savings to the public purse; it has a financial value as well as a human value that, as policy makers, we ought to acknowledge.

Supporting People can play a key role in people's recovery, enabling them to avoid hospitalisation and other acute services, which are, of course, far more expensive. It can also reduce the need for social services input for the individual, but also, in some cases, for family and children as well. It can potentially help people to avoid interaction with the criminal justice system as well, at huge personal cost to them emotionally, but also huge public cost in terms of the legal system, prison services, potentially, and the massively increased likelihood of future unemployment and disengagement. So, it does make economic sense to invest in Supporting People, especially when we're seeing lots of pressure on other parts of the public services in Wales.

A case study by Homesearch in Monmouthshire has calculated the cost-benefit of Supporting People in terms of the impact on other service areas. It estimated that, for a service user who is street homeless, lacking independent living skills, and has substance or alcohol misuse or mental health issues, Supporting People funding helps save around £8,500 on other services. This includes £2,000 in alcohol misuse support, £3,600 on drug misuse support, £130 per A&E admittance, almost £1,800 per hospital admission, and £950 on adult mental health support. This gives an idea of the immense savings that Supporting People offers, reducing pressure on other key service areas.

But Supporting People, of course, isn't just about the money; it's about the people. Some of the individuals with mental health issues have a greater call, perhaps, on our duty than others do—for example, former military personnel, as various studies have demonstrated, are between a quarter and a fifth of the people sleeping rough in Britain today. That is really a shocking statistic. Anyone leaving an institution such as the army for a non-institutional life will suffer a certain degree of culture shock. The mix of toughness and dependence on structures and orders from others, which make up military life, can leave their mark on ex-servicemen who, when they come out of that life, can feel lost and isolated. Those veterans, and all of those benefiting from Supporting People funding, need this essential grant to be protected.

Fel y bydd llawer ohonoch yn gwybod, mae iechyd meddwl yn fater sy'n agos iawn at fy nghalon, ac mae Cefnogi Pobl yn chwarae rôl allweddol yn cynorthwyo llawer o bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl. Rwyf wedi cael y fraint, yn ystod y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf, o weld gwerth dynol y cymorth hwn drosof fy hun wrth i mi ymweld â thŷ a rennir ym Mhenarth a chael prynhawn gwych yn sgwrsio gyda'r trigolion yno. Ymwelais â phrosiectau addysg Llamau yng Nghaerdydd a Phontypridd. Ond mae'r gefnogaeth ataliol hon hefyd yn cynnig arbedion posibl i bwrs y wlad; mae iddo werth ariannol yn ogystal â gwerth dynol y dylem ni, fel llunwyr polisi, ei gydnabod.

Gall Cefnogi Pobl chwarae rhan allweddol yn adferiad pobl, gan eu galluogi i osgoi mynd i'r ystybytu a gwasanaethau aciwt eraill, sydd, wrth gwrs, yn llawer mwy costus. Gall hefyd leihau'r angen am fewnbwn gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer yr unigolyn, ond hefyd, ar gyfer teuluoedd a phlant hefyd mewn rhai achosion. Mae ganddo botensial i helpu pobl i osgoi dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol yn ogystal, ar gost bersonol enfawr iddynt hwy yn emosïynol, ond hefyd ar gost enfawr i'r cyhoedd o ran y system gyfreithiol, gwasanaethau carchar, o bosibl, a'r tebygolrwydd llawer iawn mwy o ddiweithdra ac ymddiethrio yn y dyfodol. Felly, mae'n gwneud synnwyr economaidd i fuddsoddi yn Cefnogi Pobl, yn enwedig pan welwn lawer o bwysau ar rannau eraill o'r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Mae astudiaeth achos gan Homesearch yn Sir Fynwy wedi cyfrifo cost a budd Cefnogi Pobl o ran yr effaith ar feysydd gwasanaeth eraill. I ddefnyddiwr gwasanaeth sy'n ddiartref ar y stryd, heb sgiliau byw'n annibynnol, ac sy'n camddefnyddio sylweddau neu alcohol neu'n dioddef o broblemau iechyd meddwl, amcangyfrifir bod cyllid Cefnogi Pobl yn helpu i arbed tua £8,500 ar wasanaethau eraill. Mae hyn yn cynnwys £2,000 ar gymorth camddefnyddio alcohol, £3,600 ar gymorth camddefnyddio cyffuriau, £130 ar bob ymweliad ag adran ddamweiniau ac achosion brys, bron i £1,800 ar bob arhosiad yn yr ystybytu, a £950 ar gymorth iechyd meddwl i oedolion. Mae hyn yn rhoi syniad o'r arbedion enfawr y mae Cefnogi Pobl yn eu cynnig, gan leihau'r pwysau ar feysydd gwasanaeth allweddol eraill.

Ond nid ymwneud ag arian yn unig y mae Cefnogi Pobl, wrth gwrs; mae'n ymwneud â'r bobl. Mae mwy o alw arnom i wneud ein dyletswydd mewn perthynas â rhai unigolion â phroblemau iechyd meddwl yn fwy nag eraill, efallai—er enghraifft, cyn-filwyr, gan fod gwahanol astudiaethau wedi dangos mai cyn-filwyr yw rhwng chwarter ac un rhan o bump o'r bobl sy'n cysgu ar y stryd ym Mhrydain heddiw. Mae'n ystadegyn hynod o frawychus. Bydd unrhyw un sy'n gadael sefydliad fel y fyddin i fyw bywyd nad yw'n sefydliadol yn dioddef rhywfaint o ysgytwad. Gall y gymysgedd o galedwch a dibyniaeth ar strwythurau a gorchmynion gan eraill sy'n creu'r bywyd milwrol, adael eu hól ar gyn-filwyr, a gallant deimlo ar goll ac yn ynysig wrth symud o'r bywyd hwnnw. Mae angen y grant allweddol hwn ar gyn-filwyr o'r fath, a phawb sy'n elwa ar gyllid Cefnogi Pobl, er mwyn eu diogelu.

We do recognise that there needs to be reform. We appreciate that the recommendations of the Aylward review are still being implemented, but we do think that there can be greater co-ordination between Welsh Government departments. Issues such as mental health cross portfolio boundaries and there needs to be a greater linkage between other policy areas such as health and social care and the Supporting People project. We would also ask the Minister to review other housing, homelessness and anti-poverty grant streams in her portfolio to ensure the best possible use of money, and a reduction in duplication. Obviously, this is a drain on resources that can be targeted at those front-line initiatives.

Turning to a case study, just to illustrate that human angle again in my own region: from Cwm Taf, one service user was a 16-year-old living in a women's refuge, trying to study for A-levels and aiming for university, but finding herself overwhelmed by the pressures of the rest of her life. She had no idea how to pay bills. She had no family nearby to support her. She was in serious debt at the age of just 16, while doing things like paying for a TV licence without owning a TV and being overcharged on her utilities and not knowing how to get that money back. She couldn't afford a bed and was actually sleeping on a second-hand sofa in her flat and living off 11p noodle packets every day. She was referred to Action for Children and assigned a support worker who helped her to sort out her finances, learn how to budget, learn how to shop wisely and healthily, and it has changed her life. She was able to complete her A-levels. She was able to go to university. At the end of her first year at university, she struggled again, and again went back to her support worker, who put her back on track. She has got a first in the second year of her university course in law. She is on target for her career ambition of being a lawyer. Supporting People did that for her. She is an inspiration, and that programme has made it happen for her.

Rydym yn cydnabod bod angen diwygio. Rydym yn gwerthfawrogi bod argymhellion adolygiad Aylward yn dal i gael eu gweithredu, ond credwn y gellid sicrhau mwy o gydweithio rhwng adrannau Llywodraeth Cymru. Mae materion yn codi fel ffiniau rhwng portffolios iechyd meddwl ac angen mwy o gyswllt rhwng meysydd polisi eraill megis iechyd a gofal cymdeithasol a'r prosiect Cefnogi Pobl. Byddem hefyd yn gofyn i'r Gweinidog adolygu ffrydiau grantiau tai, digartrefedd a gwrth-dlodi eraill yn ei phortffolio i sicrhau'r defnydd gorau posibl o arian, a lleihau dyblygu gwaith. Yn amlwg, mae hyn yn dreth ar adnoddau y gellir eu targedu ar gyfer cynlluniau rheng flaen.

I droi at astudiaeth achos, er mwyn dangos yr elfen ddynol eto yn fy rhanbarth i: roedd un defnyddiwr gwasanaeth o Gwm Taf, merch 16 oed sy'n byw mewn lloches i fenywod, yn ceisio astudio ar gyfer Safon Uwch ac yn anelu i fynd i'r brifysgol, ond yn teimlo wedi'i llethu gan y pwysau arni o bob rhan arall o'i bywyd. Nid oedd ganddi syniad sut i dalu biliau. Nid oedd ganddi unrhyw deulu agos i'w chefnogi. Roedd hi mewn dyled ddifrifol a hithau ond yn 16 oed, ac yn gwneud pethau fel talu am drwydded deledu heb fod ganddi deledu ac yn talu gormod am ei chyfleustodau heb wybod sut i gael yr arian yn ôl. Ni allai fforddio gwely ac mewn gwirionedd roedd hi'n cysgu ar sofffa ail-law yn ei fflat ac yn byw ar becynnau o nwdls 11c bob dydd. Fe'i hatgyfeiriwyd at Gweithredu dros Blant a phennywyd gweithiwr cymorth ar ei chyfer a'i helpodd i gael trefn ar ei harian, i ddysgu sut i gyllidebu, sut i siopa'n ddoeth ac yn iach, ac mae hynny wedi newid ei bywyd. Gallodd gwblhau ei Safon Uwch. Gallodd fynd i'r brifysgol. Ar ddiwedd ei blwyddyn gyntaf yn y brifysgol, cafodd drafferth eto, ac unwaith eto aeth yn ôl at ei gweithiwr cymorth, a'i rhoddodd yn ôl ar y trywydd iawn. Mae hi wedi cael dosbarth cyntaf yn ail flwyddyn ei chwrs prifysgol yn y gyfraith. Mae hi ar y trywydd i gyflawni ei huchelgais o ran gyrfa sef bod yn gyfreithiwr. Cefnogi Pobl a wnaeth hynny iddi. Mae hi'n ysbrydoliaeth, a'r rhaglen sydd wedi gwneud i hyn ddigwydd iddi.

16:54 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf ar y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, Lesley Griffiths.

I call on the Minister for Communities and Tackling Poverty, Lesley Griffiths.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:54 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty

Thank you, Deputy Presiding Officer. I very much welcome the motion's recognition of the value of our Supporting People programme. As Members have said, it provides vital support to people who find themselves in very difficult circumstances. It helps some of Wales's most vulnerable people to live independently in their own home and accommodation. It has been inspirational listening to Members talk about the individuals that they have met who access the programme.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Croesawaf yn fawr y ffaith fod y cynnig yn cydnabod gwerth ein rhaglen Cefnogi Pobl. Fel y mae'r Aelodau wedi'i ddweud, mae'n darparu cymorth hanfodol i bobl mewn amgylchiadau anodd iawn. Mae'n helpu rhai o bobl fwyaf agored i niwed Cymru i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi a'u llety eu hunain. Mae gwranddo ar yr Aelodau yn siarad am yr unigolion y maent wedi'u cyfarfod sy'n defnyddio'r rhaglen wedi bod yn ysbrydoliaeth.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

There is no-one, either in this Chamber or out there, who accesses the programme or delivers the programme who needs to persuade me about the benefits of Supporting People. I'm incredibly privileged, as Minister, to have visited many settings and met with many people who access the programme, which is, of course, early intervention and preventative funding. It's delivered in partnership between the Welsh Government, local authorities, housing associations and other third sector organisations. It makes a significant contribution to preventing homelessness, so helping to implement our new legislation in the Housing (Wales) Act 2014. It also makes an important contribution to the effective implementation of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 and the ending violence against women and domestic abuse Act.

People are absolutely at the heart of this programme, and, as the motion acknowledges, it makes a difference to the lives of around 60,000 people. It helps keep people out of hospital and it stops families from losing their homes as a consequence of debt or illness, all of which carry significant impacts for people's health and wellbeing. And it also very much complements the care delivered by health and social services. Last year, the programme supported more than 2,200 families experiencing domestic abuse, 2,700 young vulnerable people at risk of homelessness, and 4,800 people with mental health issues. We all know that prevention is really better than cure, and the programme does turn around people's lives, very much as we've heard.

We have very committed staff working within the programme, and they make that happen every day, and from the point of view of the wider public, prevention is better than cure because it offers long-term sustainability. However—and I think I can reassure Aled Roberts here—the successes of the Supporting People programme don't mean that we don't need to improve it; we do. We need to ensure we've got the right balance between services that are preventative and those that support a person to regain their independence following a crisis; we need to avoid duplication, as Jocelyn Davies mentioned; and we need to make sure that we support local authorities that want to align all the different preventative programmes to make sure that we can cut down on bureaucracy. We need very much—and this is something that I've been very keen on over the past year—to improve the evidence that we collect on outcomes, and I think we have seen a huge rise in that amount of evidence over the past year. And there's also, of course, room to improve commissioning and planning.

The programme is one of our biggest, and I'm determined to ensure we make the best use of the money we are putting into it, and I've asked my officials to review each local authority, to make sure that they are spending that grant as effectively as possible. The regional consultative committees are already working on this agenda, and we've carried out work looking at management changes to see if that will help make sure that funds are being targeted at front-line services. I've also commissioned a study to better understand how support commissioned through the programme affects the demand for NHS services.

Nid oes angen i neb, yn y Siambr hon, na'r tu allan iddi, sy'n defnyddio neu'n cyflwyno'r rhaglen, fy mherswadio ynghylch manteision Cefnogi Pobl. Rwy'n hynod o freintiedig, fel Gweinidog, i fod wedi ymweld â llawer o leoliadau a chyfarfod â llawer o'r bobl sy'n defnyddio'r rhaglen, sydd, wrth gwrs, yn ymwneud ag ymyrraeth gynnar a chyllid ataliol. Fe'i darperir mewn partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, cymdeithasau tai a sefydliadau eraill yn y trydydd sector. Mae'n cyfrannu'n sylweddol at atal digartrefedd, gan helpu i weithredu ein deddfwriaeth newydd yn Neddf Tai (Cymru) 2014. Mae hefyd yn gwneud cyfraniad pwysig i weithrediadau effeithiol y Ddeddf i roi diwedd ar drais yn erbyn menywod a cham-drin domestig.

Mae pobl yn gwbl ganolog i'r rhaglen hon, ac fel y mae'r cynnig yn cydnabod, mae'n gwneud gwahaniaeth i fywydau tua 60,000 o bobl. Mae'n helpu i gadw pobl allan o'r ysbty ac mae'n atal teuluoedd rhag colli eu cartrefi o ganlyniad i ddyled neu salwch, ac mae pob un o'r pethau hyn yn effeithio'n sylweddol ar iechyd a lles pobl. Ac mae hefyd yn ategu'n fawr iawn y gofal a ddarperir gan y gwasanaeth iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Y llynedd, cefnogodd y rhaglen dros 2,200 o deuluoedd sy'n wynebu cam-drin domestig, 2,700 o bobl ifanc agored i niwed sydd mewn perygl o fod yn ddigartref, a 4,800 o bobl â phroblemau iechyd meddwl. Rydym i gyd yn gwybod bod atal yn bendant yn well na gwella, ac mae'r rhaglen yn ymwneud â bywydau pobl, fel y clywsom yn glir iawn.

Mae gennym staff ymroddedig iawn yn gweithio ar y rhaglen, ac maent yn gwneud i hynny ddigwydd bob dydd, ac o safbwynt y cyhoedd yn ehangach, mae atal yn well na gwella am ei fod yn cynnig cynaliadwyedd hirdymor. Fodd bynnag—ac rwy'n meddwl y gallaf dawelu meddwl Aled Roberts yma—nid yw llwyddiannau'r rhaglen Cefnogi Pobl yn golygu nad oes angen i ni ei gwella; mae angen i ni wneud hynny. Mae angen i ni sicrhau ein bod wedi sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng gwasanaethau sy'n ataliol a rhai sy'n cynorthwyo person i adennill ei annibyniaeth yn sgil argyfwng; mae angen i ni osgoi dyblygu gwaith, fel y crybwyllodd Jocelyn Davies; ac mae angen i ni sicrhau ein bod yn cefnogi awdurdodau lleol sy'n awyddus i alinio'r holl wahanol raglenni ataliol i wneud yn siŵr ein bod yn gallu cyfyngu ar fiwrocratiaeth. Mae gwir angen gwella'r dystiolaeth a gasglwn ar ganlyniadau—ac mae hyn yn rhywbeth rwyf wedi bod yn awyddus iawn i'w wneud dros y flwyddyn ddiwethaf—ac rwy'n meddwl ein bod wedi gweld cynnydd enfawr o ran maint y dystiolaeth honno dros y flwyddyn ddiwethaf. Hefyd, wrth gwrs, mae lle i wella gwaith comisiynu a chynllunio.

Mae'n un o'n rhaglenni mwyaf, ac rwy'n benderfynol o sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o'r arian yr ydym yn ei roi iddi. Rwyf wedi gofyn i fy swyddogion adolygu pob awdurdod lleol, er mwyn sicrhau eu bod yn gwario'r grant mor effeithiol â phosibl. Mae'r pwyllgorau ymgynghorol rhanbarthol eisoes yn gweithio ar yr agenda hon, ac rydym wedi gwneud gwaith yn edrych ar newidiadau ym maes rheoli i weld a fyddai hynny'n helpu i sicrhau bod arian yn cael ei dargedu at wasanaethau rheng flaen. Rwyf hefyd wedi comisiynu astudiaeth i ddeall yn well sut y mae cymorth a gomisiynir drwy'r rhaglen yn effeithio ar y galw am wasanaethau'r GIG.

The Welsh Government is absolutely committed to continuing to support people. We'll work with all partners to address the challenges that we all face. We've got to look at different ways of delivering those services with an even greater emphasis on preventative action. We also need to ensure a greater degree of integration between housing, health and social services. I mentioned helping local authorities that are looking at aligning the programmes, and I'm looking at how I can align the programme within my portfolio with other programmes, such as Families First. But, of course, programmes have to be funded and now, more than in previous years, there are intense pressures and competing demands and priorities. Jocelyn Davies referred to the Finance Committee and the recommendations made last year. We did make a very difficult decision in the last budget to cut the funding by £10 million. We cannot afford to do everything at the same level—that's absolutely obvious. But, unlike England, we maintain the ring-fence for the budget, so our service has not been subject to the reductions that in some English areas are up to 80 per cent.

Members will be aware that, as a Government, and obviously as an Assembly, we'll not be able to set our budgets until after the UK Government's comprehensive spending review towards the end of November. So, as I said, I'm in no doubt as to the importance of the programme, and we will do all we can to protect the services through what is clearly going to be a very difficult time. So, at this point, I can't pre-empt a very difficult budget by guaranteeing the funding levels for particular programmes. I think we've got to have a bit of realism here. The UK Government has made it very clear it will again be making substantial cuts to our budget. They've already taken £1.4 billion off us over the past term. We've got to consider, and balance, competing priorities when we're setting our budgets, and those who cut our 2014-15 budget as part of the UK coalition, and those who now plan to cut it still further in 2015-16, simply can't run away from the consequences of those decisions.

The Conservative amendment rightly highlights the savings to the public purse. I'm going to actually disagree with your statistics again on this one. I actually think it's more than £2.30. I think the £2.30 is a bit of an underestimate, but the key point is, of course, that it does produce savings, and on that basis, I will support the amendment.

Whilst I welcome the consensus across the Chamber on the importance and value of the programme, I cannot accept the proposal in part 4(b) of the motion, seeking to pre-empt our consideration of the budget as a whole. So, it's for that reason and that reason alone that I have to oppose the motion. Diolch.

Mae Llywodraeth Cymru yn gwbl ymrwymedig i barhau i gefnogi pobl. Byddwn yn gweithio gyda'r holl bartneriaid i fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu pawb ohonom. Mae'n rhaid i ni edrych ar wahanol ffyrdd o ddarparu'r gwasanaethau hynny gyda hyd yn oed mwy o bwyslais ar gamau ataliol. Hefyd, mae angen sicrhau mwy o integreiddio rhwng tai, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Soniais am helpu awdurdodau lleol sy'n ystyried alinio'r rhaglenni, ac rwy'n edrych i weld sut y gallaf alinio'r rhaglen yn fy mhortffolio gyda rhaglenni eraill, megis Teuluoedd yn Gyntaf. Ond wrth gwrs, rhaid ariannu rhaglenni ac yn awr, yn fwy nag yn y blynyddoedd blaenorol, mae yna bwysau dwys a galwadau a blaenoriaethau sy'n cystadlu. Cyfeiriodd Jocelyn Davies at y Pwyllgor Cyllid a'r argymhellion a wnaed y llynedd. Gwnaethom benderfyniad anodd iawn yn y gyllideb ddiwethaf i dorri £10 miliwn oddi ar y cyllid. Ni allwn ffordio gwneud popeth ar yr un lefel—mae hynny'n gwbl amlwg. Ond yn wahanol i Loegr, rydym yn dal i glustnodi arian ar gyfer y gyllideb, felly nid yw ein gwasanaeth wedi dioddef y gostyngiadau o hyd at 80 y cant a welwyd mewn rhai ardaloedd yn Lloegr.

Bydd yr Aelodau'n ymwybodol na fyddwn, fel Llywodraeth, ac yn amlwg fel Cynulliad, yn gallu gosod ein cyllidebau tan ar ôl adolygiad cynhwysfawr o wariant Llywodraeth y DU tuag at ddiwedd mis Tachwedd. Felly, fel y dywedais, nid oes gennyf unrhyw amheuaeth ynghylch pwysigrwydd y rhaglen, a byddwn yn gwneud popeth a allwn i warchod y gwasanaethau drwy'r hyn sy'n amlwg yn mynd i fod yn gyfnod anodd iawn. Felly, ar hyn o bryd, ni allaf achub y blaen ar gyllideb anodd iawn drwy warantu lefelau ariannu ar gyfer rhaglenni penodol. Rwy'n credu bod yn rhaid i ni fod yn eithaf realistig yma. Mae Llywodraeth y DU wedi dweud yn glir iawn y bydd unwaith eto'n gwneud toriadau sylweddol i'n cyllideb. Maent eisoes wedi cymryd £1.4 biliwn oddi wrthym dros y tymor diwethaf. Mae'n rhaid i ni ystyried, a chydbywso, blaenoriaethau sy'n cystadlu pan fyddwn yn gosod ein cyllidebau, ac ni all y rhai a dorrodd ein cyllideb ar gyfer 2014-15 fel rhan o glymblaid y DU, a'r rhai sydd yn awr yn cynllunio i'w thorri ymhellach yn 2015-16, droi eu cefnau ar ganlyniadau'r penderfyniadau hynny.

Mae gwelliant y Ceidwadwyr yn iawn i dynnu sylw at yr arbedion i bwrs y wlad. Rwy'n mynd i anghytuno gyda'ch ystadegau unwaith eto yn y fan hon. Rwy'n meddwl ei fod yn fwy na £2.30. Rwy'n meddwl bod y £2.30 yn amcangyfrif rhy isel braidd, ond y pwynt allweddol, wrth gwrs, yw ei fod yn cynhyrchu arbedion, ac ar y sail honno, byddaf yn cefnogi'r gwelliant.

Er fy mod yn croesawu'r consensws ar draws y Siambr ar bwysigrwydd a gwerth y rhaglen, ni allaf dderbyn yr argymhelliad yn rhan 4(b) y cynnig, sy'n ceisio achub y blaen ar ein hystyriaeth o'r gyllideb yn ei chyfanrwydd. Felly, am y rheswm hwnnw, a'r rheswm hwnnw'n unig, bydd yn rhaid i mi wrthwynebu'r cynnig. Diolch.

17:00 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf ar Peter Black i ymateb i'r ddadl.

I call on Peter Black to reply to the debate.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:00 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I want to start with a quote from the Welsh Government 2010 report on the Supporting People programme in Wales. It said:

Rwyf am ddechrau gyda dyfyniad o adroddiad Llywodraeth Cymru 2010 ar y rhaglen Cefnogi Pobl yng Nghymru. Roedd yn dweud hyn:

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

'the Supporting People Programme in Wales looks beyond the bricks and mortar and the roof overhead. It manifestly seeks to provide the necessary further support, interventions, counselling and skills to the people for whom it is designed to enable them to move along a trajectory away from disadvantage, vulnerability and social exclusion'.

I think that the debate today has underlined that particular point, and how important Supporting People is—not just to those it helps, but also to the Welsh Government itself in terms of making further savings elsewhere in its budget. That's why I think it's so crucial in saying that the realistic thing to do is not to say, 'You have to face up to cuts in Supporting People', but to say, 'This is an investment that will make savings elsewhere in the budget, and enable you to cut other budgets because of that investment'. That's what we're emphasising today, and underlining as part of this process.

In terms of the contributions to the debate, I very much welcome Mark Isherwood's, which emphasised the positive strength of people who confound expectations and who have been helped by Supporting People, and of course, the work of Supporting People support workers, who help to transform lives. I very much agree with him in terms of how Supporting People achieves both of those particular aims.

Aled Roberts underlined the section in the motion calling on the Welsh Government to review the administration and monitoring requirements of the Supporting People programme, and the Minister partly addressed that, I think, in her response. He said that allowing providers to use Supporting People resources more flexibly, and a reduction in the administration involved in the scheme, would be welcome, and I certainly support that.

Jocelyn Davies underlined again that Supporting People is a lifeline that helps to reduce demand on the most under-pressure public services. She said early intervention prevents more expensive, less effective intervention later on, and I think that is crucial to this debate. And of course, she referred to the evidence received by the Finance Committee, and the recommendation of the Finance Committee that cuts in the programme are short-sighted and undermine provisions in the housing Act and the social services Act. Supporting People is a genuine spend-to-save programme, and I think that again underlines the point we're making here.

'the Supporting People Programme in Wales looks beyond the bricks and mortar and the roof overhead. It manifestly seeks to provide the necessary further support, interventions, counselling and skills to the people for whom it is designed to enable them to move along a trajectory away from disadvantage, vulnerability and social exclusion'.

Credaf fod y ddadl heddiw wedi tanlinellu'r pwynt penodol hwnnw, a pha mor bwysig yw Cefnogi Pobl—nid yn unig i'r rhai y mae'n eu helpu, ond hefyd i Lywodraeth Cymru ei hun o ran gwneud arbedion pellach mewn rhannau eraill o'i chyllideb. Dyna pam rwy'n meddwl ei fod mor hanfodol o ran dweud mai'r peth realistig i'w wneud yw peidio â dweud, 'Rhaid i chi wynebu toriadau i'r rhaglen Cefnogi Pobl', ond dweud yn hytrach, 'fod hwn yn fuddsoddiad a fydd yn arbed arian mewn rhannau eraill o'r gyllideb, ac yn eich galluogi i dorri cyllidebau eraill oherwydd y buddsoddiad hwnnw'. Dyna'r hyn rydym yn ei bwysleisio heddiw, ac yn ei danlinellu'n rhan o'r broses hon.

O ran y cyfraniadau at y ddadl, croesawaf yn fawr gyfraniad Mark Isherwood, a bwysleisiodd gryfder cadarnhaol y bobl sy'n mynd yn groes i'r disgwyliadau ac sydd wedi cael cymorth gan Cefnogi Pobl, ac wrth gwrs, gwaith gweithwyr cymorth Cefnogi Pobl, sy'n helpu i drawsnewid bywydau. Cytunaf yn llwyr ag ef o ran y modd y mae Cefnogi Pobl yn cyflawni'r nodau penodol hynny.

Tynnodd Aled Roberts sylw at yr adran yn y cynnig sy'n galw ar Lywodraeth Cymru i adolygu gofynion gweinyddu a monitro'r rhaglen Cefnogi Pobl, ac aeth y Gweinidog i'r afael â hynny'n rhannol, rwy'n credu, yn ei hymateb. Dywedodd y byddai caniatáu i ddarparwyr ddefnyddio adnoddau Cefnogi Pobl yn fwy hyblyg, a chyfyngu ar y gwaith gweinyddol sy'n gysylltiedig â'r cynllun, i'w groesawu, ac rwy'n sicr yn cefnogi hynny.

Tanlinellodd Jocelyn Davies eto fod Cefnogi Pobl yn rhaff achub sy'n helpu i leihau'r galw ar y gwasanaethau cyhoeddus sydd o dan fwyaf o bwysau. Dywedodd fod ymyrraeth gynnar yn atal ymyrraeth fwy drud a llai effeithiol yn nes ymlaen, ac rwy'n meddwl bod hynny'n allweddol i'r ddadl hon. Ac wrth gwrs, cyfeiriodd at y dystiolaeth a gafodd y Pwyllgor Cyllid, ac argymhelliad y Pwyllgor fod toriadau i'r rhaglen yn annoeth ac yn tansellio darpariaethau yn y Ddeddf tai a'r Ddeddf gwasanaethau cymdeithasol. Mae Cefnogi Pobl yn rhaglen gwario i arbed ddilys, ac rwy'n credu bod hynny eto yn tanlinellu'r pwynt rydym yn ei wneud yma.

Eluned Parrott estimated that, for a service user who is street homeless, lacking independent living skills, with substance and alcohol misuse and mental health issues, Supporting People funding helped to save around £8,500 on other services. She also touched on the value of Supporting People in supporting former military personnel, and called for greater linkages between other policy areas, such as health and social care. Of course, I welcomed the Minister's recognition of the importance of Supporting People, and hope that this debate will help her defend that budget when the Finance Minister considers departmental spending later this year. I note that the Finance Minister has been listening to this debate as well. I welcome the Minister's acknowledgement that improvements are possible, especially in terms of administration, though when cuts were first mooted in the Supporting People programme some years ago, we were promised that improvements could be made then, and I'm pleased that she's now picked up that pledge and is actually delivering on it.

I think, Deputy Presiding Officer, I just wanted to finish this summing up by referring to some of the impacts that Community Housing Cymru members have highlighted that the £10 million cut to their Supporting People-funded services had last year in key areas. One member said that services had been lost or reconfigured, including additional units of domestic abuse floating support services for women and men in Torfaen and Bridgend; floating support services for vulnerable families in Denbighshire and Carmarthenshire; and a pilot floating support service for young people experiencing domestic abuse in Gwynedd. This means a reduction in specialist service provision for victims and survivors of domestic abuse at the same time as the Welsh Government was introducing legislation to protect this specialist group through the Violence Against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Act 2015.

Another Member highlighted that areas such as staff training have been reduced to allow for reduced income. Over time, this will have an impact on the quality of support delivered, and on the retention of high-quality, experienced staff in the future. Many Supporting People services help people with multiple and increasingly complex needs, so it is imperative that staff receive training to ensure their knowledge and skills are up to date and to acquire new skills. If staff are not to receive training, then the services provided will be of a lesser standard and will likely result in poorer outcomes for service users. Small local services who are almost wholly dependent on Supporting People funding are particularly at risk from further cuts. Alternatively, there is likely to be a move towards the provision of non-specialist services in order to achieve greater savings. This loss of specialist services means a loss of expertise, which could impact on other budgets such as social services, safeguarding, police, health and more, and a loss of jobs for the local economy.

Amcangyfrifodd Eluned Parrott fod Cefnogi Pobl wedi helpu i arbed oddeutu £8,500 ar wasanaethau eraill i ddefnyddiwr gwasanaeth sy'n ddiogelwch ar y stryd, heb sgiliau byw'n annibynnol, yn camddefnyddio sylweddau ac alcohol ac yn dioddef o broblemau iechyd meddwl. Cyfeiriodd hefyd at werth Cefnogi Pobl yn cynorthwyo cyn-filwyr, a galwodd am fwy o gysylltiadau rhwng meysydd polisi eraill, megis iechyd a gofal cymdeithasol. Wrth gwrs, rwy'n croesawu'r ffaith fod y Gweinidog wedi cydnabod pwysigrwydd Cefnogi Pobl, a gobeithio y bydd y ddadl hon yn ei helpu i ddiogelu'r gyllideb honno pan fydd y Gweinidog Cyllid yn ystyried gwariant adrannol yn ddiweddarach eleni. Sylwaf fod y Gweinidog Cyllid wedi bod yn gwranddo ar y ddadl hon hefyd. Rwy'n croesawu cydnabyddiaeth y Gweinidog fod gwelliannau'n bosibl, yn enwedig o ran gweinyddiaeth, ond pan grybwyllwyd toriadau i'r Rhaglen Cefnogi Pobl am y tro cyntaf rai blynyddoedd yn ôl, cawsom addewid y gellid gwneud gwelliannau bryd hynny, ac rwy'n falch ei bod bellach wedi ailedrych ar yr addewid hwnnw ac yn ei gyflawni.

Ddirprwy Lywydd, roeddwn i am orffen crynhoi, rwy'n credu, drwy gyfeirio at rai o'r effeithiau y tynnodd aelodau Cartrefi Cymunedol Cymru atynt yn sgil y toriad o £10 miliwn i'w gwasanaethau Cefnogi Pobl y llynedd mewn meysydd allweddol. Dywedodd un aelod fod y gwasanaethau wedi'u colli neu eu had-drefnu, gan gynnwys unedau ychwanegol o wasanaeth cymorth fel y bo'r angen i fenywod a dynion yn Nhorfaen a Phen-y-bont ar Ogwr sy'n dioddef cam-drin domestig; gwasanaethau cymorth fel y bo'r angen i deuluoedd sy'n agored i niwed yn Sir Ddinbych a Sir Gaerfyrddin; a chynllun peilot gwasanaeth cymorth fel y bo'r angen i bobl ifanc sy'n dioddef cam-drin domestig yng Ngwynedd. Mae hyn yn golygu lleihad yn y ddarpariaeth o wasanaethau arbenigol i ddiodeffwyr a goroeswyr cam-drin domestig ar yr un pryd ag yr oedd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno deddfwriaeth i ddiogelu'r grŵp arbenigol hwn drwy Ddeddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.

Soniodd Aelod arall fod meysydd megis hyfforddiant staff wedi cael eu lleihau i ganiatáu ar gyfer llai o incwm. Dros amser, bydd hyn yn effeithio ar ansawdd y cymorth a ddarperir, ac ar gadw staff profiadol o safon yn y dyfodol. Mae llawer o wasanaethau Cefnogi Pobl yn helpu pobl sydd ag anghenion lluosog a mwyfwy cymhleth, felly mae'n hanfodol i staff gael hyfforddiant er mwyn sicrhau bod eu gwybodaeth a'u sgiliau'n gyfredol ac i ddysgu sgiliau newydd. Os nad yw staff yn cael hyfforddiant, yna bydd y gwasanaethau a ddarperir o safon is ac yn debygol o arwain at ganlyniadau gwaeth i ddefnyddwyr gwasanaethau. Mae gwasanaethau lleol bach sydd bron yn gyfan gwbl ddibynnol ar gyllid Cefnogi Pobl mewn perygl arbennig o doriadau pellach. Fel arall, mae'n debygol y ceir symud tuag at ddarparu gwasanaethau nad ydynt yn arbenigol er mwyn arbed mwy o arian. Mae colli gwasanaethau arbenigol yn y ffordd hon yn golygu colli arbenigedd, a allai effeithio ar gyllidebau eraill fel gwasanaethau cymdeithasol, diogelu, yr heddlu, iechyd a rhagor, a cholli swyddi o'r economi leol.

Supporting People funding goes to the very heart of the Welsh Government's programme in terms of helping the most vulnerable in our society. It supports some of the most advanced and progressive legislation that we have passed in this Assembly term in the last five years, and underpins much of what that legislation is trying to do. It is absolutely crucial that we try to protect it as best as possible and that we take account of that in setting budgets. It's absolutely crucial that we recognise, in setting those budgets, that if we cut Supporting People, then that will lead to costs elsewhere and that will put up budgets elsewhere. That's why it's so crucial and important, in my view, that we do what we can in this budgeting round to protect that Supporting People funding and ensure that we take account of the savings that can be delivered elsewhere as well as help those myriads and thousands of people all around Wales re-establish their lives, get back onto an even keel, and actually fulfil their own potential. I hope we can support this motion.

Mae cyllid Cefnogi Pobl yn mynd at galon rhaglen Llywodraeth Cymru o ran helpu'r mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas. Mae'n cefnogi peth o'r ddeddfwriaeth fwyaf datblygedig a blaengar a basiwyd gennym yn ystod tymor y Cynulliad hwn yn y pum mlynedd diwethaf, ac yn sail i lawer o'r hyn y mae'r ddeddfwriaeth honno'n ceisio'i wneud. Mae'n gwbl hanfodol ein bod yn ceisio'i amddiffyn cystal ag y bo modd a'n bod yn ystyried hynny wrth osod cyllidebau. Mae'n gwbl hanfodol ein bod yn cydnabod, wrth osod y cyllidebau hynny, os ydym yn torri Cefnogi Pobl, y bydd hynny'n arwain at gostau mewn mannau eraill gan greu mwy o alw ar gyllidebau eraill. Dyna pam y mae mor hanfodol a phwysig, yn fy marn i, ein bod yn gwneud yr hyn a allwn yn ystod y cylch cyllideb hwn i ddiogelu cyllid Cefnogi Pobl a sicrhau ein bod yn ystyried yr arbedion y gellir eu creu mewn mannau eraill, yn ogystal â helpu llu o bobl, y miloedd ym mhob cwr o Gymru, i ailadeiladu eu bywydau, i adfer rhywfaint o gydbwysedd, a chyflawni eu potensial o ddirif. Rwy'n gobeithio y gallwn gefnogi'r cynnig hwn.

17:06

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y cwestiwn yw a ddyliid derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw wrthwynebiad? [Gwrthwynebiad.] Gohiriaf y bleidlais o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? [Objection.] I defer all voting under this item until voting time.

Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Voting deferred until voting time.

17:06

7. Cyfnod Pleidleisio

7. Voting Time

Y Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to voting time. We'll vote first on the Welsh Conservative debate. I call for a vote on the motion tabled in the name of Paul Davies. If the proposal is not agreed, we will vote on the amendments tabled to the motion. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 11; there voted against 39; there were no abstentions. So, the motion without amendment is not agreed.

Symudwn yn awr at y cyfnod pleidleisio. Byddwn yn pleidleisio yn gyntaf ar ddatl y Ceidwadwyr Cymreig. Galwaf am bleidlais ar y cynnig a gyflwynwyd yn enw Paul Davies. Os gwrthodir y cynnig, byddwn yn pleidleisio ar y gwelliannau a gyflwynwyd i'r cynnig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 11 o blaid; pleidleisiodd 39 yn erbyn; nid oedd neb yn ymatal. Felly, gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.

Gwrthodwyd y cynnig: O blaid 11, Yn erbyn 39, Ymatal 0.

Motion not agreed: For 11, Against 39, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5825](#)

[Result of the vote on motion NDM5825](#)

17:06

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

We'll now vote on the amendments. I call for a vote on amendment 1, tabled in the name of Aled Roberts. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 25; there voted against 26. Therefore, amendment 1 is not agreed.

Pleidleisiwn yn awr ar y gwelliannau. Galwaf am bleidlais ar welliant 1, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 25 o blaid; pleidleisiodd 26 yn erbyn. Felly, gwrthodwyd gwelliant 1.

Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 25, Yn erbyn 26, Ymatal 0.

Amendment not agreed: For 25, Against 26, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnig NDM5825](#)

[Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5825](#)

17:07

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I call for a vote on amendment 2, tabled in the name of Elin Jones. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 51; there were no votes against. Therefore, amendment 2 is agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 2, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 51 o blaid; nid oedd unrhyw bleidleisiau yn erbyn. Felly, derbyniwyd gwelliant 2.

Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 51, Yn erbyn 0, Ymatal 0.

Amendment agreed: For 51, Against 0, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnis NDM5825](#)

[Result of the vote on amendment 2 to motion NDM5825](#)

17:07

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I call for a vote on amendment 3, tabled in the name of Elin Jones. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 51; there were no votes against. Therefore, amendment 3 is agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 3, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 51 o blaid; nid oedd unrhyw bleidleisiau yn erbyn. Felly, derbyniwyd gwelliant 3.

Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 51, Yn erbyn 0, Ymatal 0.

Amendment agreed: For 51, Against 0, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 3 i gynnis NDM5825](#)

[Result of the vote on amendment 3 to motion NDM5825](#)

17:08

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I now call for a vote on the motion as amended.

Galwaf yn awr am bleidlais ar y cynnis fel y'i diwygiwyd.

Cynnig NDM5825 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM5825 as amended:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn gresynu at y ffaith bod ystadegau diweddar y Local Data Company yn nodi bod 15.6 y cant o siopau yn wag yn nhrefi Cymru, sef y gyfradd uchaf yn y DU o bell ffordd;

1. Regrets that recent Local Data Company statistics put Wales's town vacancy rate at 15.6 per cent, by far the highest in the UK;

2. Yn gresynu at fethiant parhaus Llywodraeth Cymru i hyrwyddo strydoedd mawr a chanol trefi, helpu busnesau bach a sicrhau bod swyddi'n cael eu creu; a

2. Regrets the Welsh Government's persistent failure to promote high streets and town centres, help small businesses and ensure job creation; and

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried o ddirif y cynigion a amlinellir yn nogfennau'r Ceidwadwyr Cymreig, 'A Vision for the Welsh High Street' ac 'Invest Wales', a fyddai'n helpu busnesau bach a chanolig ac yn adfywio ein strydoedd mawr.

3. Calls on the Welsh Government to seriously consider the proposals outlined in the Welsh Conservative documents 'A Vision for the Welsh High Street' and 'Invest Wales' which would help SMEs and regenerate our high streets.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i annog awdurdodau lleol i weithio ar arallgyfeirio eu strydoedd mawr er mwyn cynyddu nifer y bobl sy'n eu defnyddio.

4. Calls on the Welsh Government to encourage local authorities to work on diversifying their high streets in order to increase footfall.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried ystod eang o fesurau i helpu busnesau bach, gan gynnwys y rhai sydd ar y stryd fawr, a fydd yn hwyluso mynediad at gyllid ac yn ymestyn rhyddhad ardrethi busnes.

5. Calls on the Welsh Government to consider a wide range of measures to help small businesses, including those on the high street, to include easing access to finance and extending business rate relief.

17:08

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Open the vote. Close the vote. There voted in favour 11; there voted against 40. Therefore, the motion as amended is not agreed.

Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 11 o blaid; pleidleisiodd 40 yn erbyn. Felly, gwrthodwyd y cynnis fel y'i diwygiwyd.

Gwrthodwyd cynnis NDM5825 fel y'i diwygiwyd: O blaid 11, Yn erbyn 40, Ymatal 0.

Motion NDM5825 as amended not agreed: For 11, Against 40, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnis NDM5825 fel y'i diwygiwyd.](#)

[Result of the vote on motion NDM5825 as amended.](#)

17:08	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>We'll now vote on the Plaid Cymru debate. I call for a vote on the motion tabled in the name of Elin Jones. If the proposal is not agreed, we will vote on the amendments tabled to the motion. Open the vote. [Interruption.] You have voted, yes—it is showing on mine that you have voted. Close the vote. There voted in favour 10; there voted against 41. Therefore, the motion without amendment is not agreed.</p>	<p>Pleidleisiwn yn awr ar ddadl Plaid Cymru. Galwaf am bleidlais ar y cynnig a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Os gwrthodir y cynnig, byddwn yn pleidleisio ar y gwelliannau a gyflwynwyd i'r cynnig. Agorwch y bleidlais. [Torri ar draws.] Rydych wedi pleidleisio, ydych—mae'n dangos ar fy un i eich bod wedi pleidleisio. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 10 o blaid; pleidleisiodd 41 yn erbyn. Felly, gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
	<i>Gwrthodwyd y cynnig: O blaid 10, Yn erbyn 41, Ymatal 0.</i>	<i>Motion not agreed: For 10, Against 41, Abstain 0.</i>	
	Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5827	Result of the vote on motion NDM5827	
17:09	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>We'll now vote on the amendments. I call for a vote on amendment 1, tabled in the name of Aled Roberts. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 51; there were no votes against. Therefore, amendment 1 is agreed.</p>	<p>Pleidleisiwn ar y gwelliannau yn awr. Galwaf am bleidlais ar welliant 1, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 51 o blaid; nid oedd unrhyw bleidleisiau yn erbyn. Felly, derbyniwyd gwelliant 1.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
	<i>Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 51, Yn erbyn 0, Ymatal 0.</i>	<i>Amendment agreed: For 51, Against 0, Abstain 0.</i>	
	Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnig NDM5827	Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5827	
17:09	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>I call for a vote on amendment 2, tabled in the name of Aled Roberts. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 41; there voted against 10. Therefore, amendment 2 is agreed.</p>	<p>Galwaf am bleidlais ar welliant 2, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 41 o blaid; pleidleisiodd 10 yn erbyn. Felly, derbyniwyd gwelliant 2.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
	<i>Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 41, Yn erbyn 10, Ymatal 0.</i>	<i>Amendment agreed: For 41, Against 10, Abstain 0.</i>	
	Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnig NDM5827	Result of the vote on amendment 2 to motion NDM5827	
17:09	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>I now call for a vote on the motion as amended.</p> <p>Cynnig NDM5827 fel y'i diwygiwyd:</p> <p>Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Yn cefnogi cyfryngau cryf fel elfen annatod o ddemocratiaeth rydd a llawn weithredol yng Nghymru; 2. Yn cydnabod effaith sylweddol y cyfryngau a'r diwydiannau creadigol ar economi Cymru; 3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau sefydlogrwydd ariannol ac annibyniaeth olygyddol S4C. 4. Yn pryderu am gynigion presennol Llywodraeth y DU ar gyfer y BBC cyn adnewyddu ei siarter yn 2016, gyda golwg arbennig ar ddarlledu yn Gymraeg ac yn Saesneg a BBC Cymru ac S4C cryf; 	<p>Galwaf yn awr am bleidlais ar y cynnig fel y'i diwygiwyd.</p> <p>Motion NDM5827 as amended:</p> <p>To propose that the National Assembly for Wales:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Supports a strong media as an integral element of a free and fully-functioning democracy in Wales; 2. Recognises the significant impact of the media and creative industries on the Welsh economy; 3. Calls on the Welsh Government to work with the UK Government to ensure the financial stability and editorial independence of S4C. 4. Is concerned about the UK Government's current proposals for the BBC ahead of its charter renewal in 2016 with particular regard to broadcasting in both English and Welsh and a strong BBC Wales and S4C; 	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

5. Yn galw ar ei bwyllgorau i ymchwilio i newidiadau sylfaenol i'r diwydiant cyfryngau er mwyn cefnogi ei swyddogaethau democrataidd yng Nghymru a gweithredu'r newidiadau hynny; a

5. Calls upon its committees to inquire into and act upon fundamental changes to the media industry in order to support its democratic functions in Wales; and

6. Yn croesawu'r ffaith bod y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol wedi cytuno i gynnal ymchwiliad i'r adolygiad o siarter y BBC.

6. Welcomes the agreement of the Communities, Equality and Local Government Committee to undertake an inquiry into the BBC charter review.

17:09

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Open the vote. Close the vote. There voted in favour 40; there voted against 11. Therefore, the motion as amended is agreed.

Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 40 o blaid; pleidleisiodd 11 yn erbyn. Felly, derbyniwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd.

Derbyniwyd y cynnig NDM5827 fel y'i diwygiwyd: O blaid 40, Yn erbyn 11, Ymatal 0.

Motion NDM5827 as amended agreed: For 40, Against 11, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnis NDM5827 fel y'i diwygiwyd.](#)

[Result of the vote on motion NDM5827 as amended.](#)

17:09

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

We'll now vote on the Welsh Liberal Democrats' debate, and I call for a vote on the motion tabled in the name of Aled Roberts. If the proposal is not agreed, we will vote on the amendment tabled to the motion. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 25, there voted against 26. Therefore the motion without amendment is not agreed.

Pleidleisiwn yn awr ar ddadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, a galwaf am bleidlais ar y cynnig a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Os gwrthodir y cynnig, byddwn yn pleidleisio ar y gwelliant a gyflwynwyd i'r cynnig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 25 o blaid, pleidleisiodd 26 yn erbyn. Felly, gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.

Gwrthodwyd y cynnig: O blaid 25, Yn erbyn 26, Ymatal 0.

Motion not agreed: For 25, Against 26, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnis NDM5826.](#)

[Result of the vote on motion NDM5826.](#)

17:10

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I call for a vote on amendment 1, tabled in the name of Paul Davies. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 51, there were no votes against. Therefore, amendment 1 is agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 1, a gyflwynwyd yn enw Paul Davies. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 51 o blaid, nid oedd unrhyw bleidleisiau yn erbyn. Felly, derbyniwyd gwelliant 1.

Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 51, Yn erbyn 0, Ymatal 0.

Amendment agreed: For 51, Against 0, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnis NDM5826.](#)

[Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5826.](#)

17:10

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I now call for a vote on the motion as amended.

Galwaf yn awr am bleidlais ar y cynnig fel y'i diwygiwyd.

Cynnig NDM5826 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM5826 as amended:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn cydnabod pwysigrwydd y Rhaglen Cefnogi Pobl, sy'n cynnig cefnogaeth amhrisiadwy i bobl fregus fyw'n annibynnol yn eu cymunedau ac i roi terfyn ar allgáu cymdeithasol.

1. Recognises the importance of the Supporting People Programme which offers invaluable support for vulnerable people to live independently within their community and to end social exclusion;

2. Yn nodi bod y rhaglen wedi cynorthwyo dros 60,000 o bobl yng Nghymru y llynedd, gan gynnwys pobl ddigartref, pobl mewn perygl o drais yn y cartref, pobl hŷn, pobl anabl neu bobl sydd ag anghenion cymhleth.

2. Notes that last year the programme supported over 60,000 people in Wales including those who are homeless, at risk of domestic violence, elderly, disabled, or have complex needs;

3. Yn nodi y torrwyd cyllid y Rhaglen Cefnogi Pobl 8.3 y cant mewn termau real rhwng 2014-15 a 2015-16.

3. Notes that the Supporting People Programme had an 8.3 per cent real terms cut in funding between 2014-15 and 2015-16.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

4. Calls on the Welsh Government to:

a) adolygu gofynion gweinyddu a monitro'r Rhaglen Cefnogi Pobl i sicrhau bod cyllid yn cael ei flaenoriaethu ar gyfer darpariaeth rheng flaen; a

a) review the administration and monitoring requirements of the Supporting People programme to ensure that funding is prioritised for front-line provision; and

b) amddiffyn y Grant Cefnogi Pobl o fewn cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016-17.

b) protect the Supporting People grant within the 2016-17 Welsh Government budget.

5. Yn nodi bod y rhaglen Cefnogi Pobl yn lleihau pwysau diangen ar wasanaethau statudol megis iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ac yr amcangyfrifir y gall pob £1 a fuddsoddir yn y rhaglen hon arbed hyd at £2.30 i bwrs y wlad.

5. Notes that the Supporting People programme reduces unnecessary pressures on statutory services such as health and social services and that it is estimated that every £1 invested in this programme can save up to £2.30 for the public purse.

17:10

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Open the vote. Close the vote. There voted in favour 25, there voted against 26. Therefore, the motion as amended is not agreed.

Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisio 25 o blaid, pleidleisiodd 26 yn erbyn. Felly, gwrthodwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd.

Gwrthodwyd cynnig NDM5826 fel y'i diwygiwyd: O blaid 25, Yn erbyn 26, Ymatal 0.

Motion NDM5826 as amended not agreed: For 25, Against 26, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5826 fel y'i diwygiwyd.](#)

[Result of the vote on motion NDM5826 as amended.](#)

17:11

8. Dadl Fer: Gwneud yn lawn am Anghyfiawnder Hanesyddol—Achos Linda Lewis

8. Short Debate: Righting an Historical Wrong—the Case of Linda Lewis

Y Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Item 8 is the short debate. The motion has been withdrawn.

Eitem 8 yw'r ddafl fer. Mae'r cynnig wedi ei dynnu'n ôl.

That concludes today's proceedings.

Dyna ddiwedd busnes heddiw.

Daeth y cyfarfod i ben am 17:11.

The meeting ended at 17:11.